Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Polisi Amaethyddol Cyffredin

## Trawsgydymffurfio – 2024

### Safonau dilysadwy ar gyfer categoreiddio tramgwyddau: Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) a Gofynion Rheoli Statudol (SMR) 2024







## Cyflwyniad

Trawsgydymffurfio yw'r safonau sylfaenol y mae'n rhaid i bob ffermwr eu bodloni er mwyn cael taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, gan gynnwys y Taliad Sylfaenol a thaliadau o dan gynlluniau tir Datblygu Gwledig (e.e. Glastir) yng Nghymru. Mae'n gosod seiliau cadarn er mwyn i ffermwyr allu cynhyrchu bwyd o'r radd flaenaf ac mae'n fecanwaith pwysig hefyd i ddiogelu a gwarchod cefn gwlad Cymru.

Mae'r Safonau Dilysadwy yn y tablau canlynol yn disgrifio'n fanwl yr hyn y bydd disgwyl i ffermwr sy'n derbyn y Taliad Sylfaenol neu daliad o dan gynllun tir Datblygu Gwledig ei wneud. Dylech gynefino â'r safonau felly os ydych am hawlio'r taliadau hyn.

Mae'r taflenni ffeithiau'n crynhoi'r safonau dilysadwy: **www.gov.wales/farming**

**Os gwelir ichi dorri'r safonau, byddwn yn lleihau'ch taliad, yn gwrthod ei dalu ichi neu'n gofyn ichi ei dalu'n ôl.** Fe welwch fwy o fanylion sut mae'r cosbau'n cael eu cyfrif yn: **www.llyw.cymru/ffermio**

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48846, ISBN digidol 978-1-83577-178-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Dyddiadau pwysig

| | | |
|---|---|---|
| Ion | 1 | SMR 8: Stocrestr o'r holl ddefaid a geifr ar 1 Ionawr. |
| Maw | 1 | GAEC 7: Peidiwch â thorri perth (gwrych) na choeden ar ôl y dyddiad hwn, ond fe gewch fondocio neu blygu perth ym mis Mawrth cyn belled nad ydych yn tarfu ar adar sy'n nythu.<br>GAEC 4: Tan y dyddiad hwn, rhaid cynnal y lefel ofynnol o orchudd ar y pridd ar ôl y cynhaeaf. |
| | 15 | GAEC 6: Peidiwch â llosgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin na vaccinium ar dir, heblaw ar yr ucheldir, o'r dyddiad hwn. |
| | 31 | GAEC 6: Peidiwch â llosgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin na vaccinium ar unrhyw dir, ac eithrio ucheldir, ar ôl y dyddiad hwn.<br>GAEC 7: Peidiwch â phlygu na bondocio perth (gwrych) ar ôl y dyddiad hwn oni bai'ch bod wedi cael caniatâd Llywodraeth Cymru at ddibenion hyfforddi neu addysg. |
| Ebr | 30 | SMR 1: Byddwch wedi cofnodi nifer y da byw oedd gennych ar eich fferm, a'u math, a'r amser y bu gennych anifeiliaid ar eich fferm yn y flwyddyn galendr ddiwethaf. Byddwch wedi cyfrif hefyd faint o nitrogen a gynhyrchwyd ganddynt yn y flwyddyn galendr ddiwethaf erbyn y dyddiad hwn. Rhaid cofnodi hefyd nifer a math y da byw a fu mewn adeilad neu ar arwyneb galed yn ystod y cyfnod storio diwethaf. (Yn unig ar gyfer tir oedd o'r blaen yn rhan o NVZ). |
| Aws | 1 | SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru tail organig â chyfran uchel o nitrogen rhwydd ei gael ar bridd bas neu dywodlyd ar dir âr (caniateir ichi ei wasgaru rhwng 1 Awst a 15 Medi os caiff y cnwd ei hau ar neu cyn 15 Medi). (Yn unig ar gyfer tir oedd o'r blaen yn rhan o NVZ).<br>GAEC 7: Ar dir âr lle bo'r drefn ffermio arferol yn gofyn am blannu cnwd âr gaeaf cyn 31 Awst, cewch docio perthi (gwrychoedd) a choed o'r dyddiad hwn cyn belled nad ydych yn tarfu ar adar sy'n nythu. |
| | 31 | GAEC 7: Cewch docio perthi (gwrychoedd) a choed ar ôl y dyddiad hwn. |
| Medi | 1 | SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru tail organig â chyfran uchel o nitrogen rhwydd ei gael ar bridd bras neu dywodlyd ar dir pori. (Yn unig ar gyfer tir oedd o'r blaen yn rhan o NVZ).<br>SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru gwrtaith nitrogen artiffisial ar dir âr. |
| | 15 | SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru gwrtaith nitrogen artiffisial ar dir pori. |
| Hyd | 1 | SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru tail organig â chyfran uchel o nitrogen rhwydd ei gael ar bridd ar dir âr nad yw'n fras nac yn dywodlyd. (Yn unig ar gyfer tir oedd o'r blaen yn rhan o NVZ).<br>GAEC 6: Cewch losgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin a vaccinium ar yr ucheldir o'r dyddiad hwn. |
| | 15 | SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru tail organig â chyfran uchel o nitrogen rhwydd ei gael ar bridd ar dir pori nad yw'n fras nac yn dywodlyd. (Yn unig ar gyfer tir oedd o'r blaen yn rhan o NVZ). |
| Tach | 1 | GAEC 6: Cewch losgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin a vaccinium ar bob math o dir o'r dyddiad hwn. |

# Safonau Dilysadwy Trawsgydymffurfio 2024

## CYNNWYS

### Gofynion Rheoli Statudol (SMR)

SMR 1: Diogelu Dŵr

SMR 2: Adar gwyllt

SMR 3: Gwarchod Fflora a Ffawna (Bioamrywiaeth)

SMR 4: Bwyd a chyfraith bwyd

SMR 5: Cyfyngiadau ar ddefnyddio betaweithyddion a sylweddau sy’n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig ar anifeiliaid fferm

SMR 6: Adnabod a Chofrestru Moch

SMR 7: Adnabod a chofrestru gwartheg

SMR 8: Adnabod Defaid a Geifr

SMR 9: Clefydau Anifeiliaid – Atal a rheoli Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy – TS

SMR 10: Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion

SMR 11: Lles Anifeiliaid – lloi

SMR 12: Lles Anifeiliaid – moch

SMR 13: Lles Anifeiliaid (Cyffredinol)

### Safonau dilysadwy ar gyfer categoreiddio tramgwyddau: Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC)

GAEC 1: Dŵr – Sefydlu Lleiniau Clustogi

GAEC 2: Dŵr – Defnyddio Dŵr i Ddyfrhau’r Tir

GAEC 3: Dŵr – Dŵr Daear

GAEC 4: Pridd a Stoc Garbon – sicrhau lefel ofynnol o orchudd ar y pridd

GAEC 5: Pridd a Stoc Garbon – Cyfyngu ar waith trin tir i ddiogelu pridd rhag erydiad

GAEC 6: Pridd a Deunydd Organig – Eu Diogelu

GAEC 7: Cadw Nodweddion y Tirlun

# SMR 1: Diogelu Dŵr

| | |
|---|---|
| Amcan y gofynion hyn yw lleihau'r achosion o lygru afonydd o ffynonellau amaethyddol a'u rhwystro rhag digwydd eto. Yn 2023, bydd rhai mesurau'n gymwys i holl dir Cymru, bydd mesurau eraill ond yn effeithio ar dir a oedd cynt yn rhan o Barth Perygl Nitradau (NVZ). | |
| | Rhaid ichi gadw at Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethgyddol) 2021 o 1 Ebrill 2021.<br>Mae cyfnodau pontio wedi'u trefnu ar gyfer rhai gofynion ar dir nad oedd yn rhan o Barth Perygl Nitradau o'r blaen.<br>Fe welwch fanylion llawn y gofynion yn Rheoliadau Atal Llygredd Amaethyddol 2021 – Canllaw i Ffermwyr a Rheolwyr Tir sydd ar gael yn https://llyw.cymru/rheoli-tir neu drwy ffonio Llinell Gymorth Rheoliadau Atal Llygredd Amaethyddol (ADAS) ar 01974 847 000.<br>Cofiwch: os ydych am roi tail organig neu wrtaith N ar dir heb ei drin neu dir lled-naturiol, efallai y bydd angen gwneud cais i sgrinio'r prosiect o dan Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017. Efallai y bydd angen ichi ofyn i Lywodraeth Cymru am benderfyniad sgrinio. Yn y gofyn hwn, mae 'N' yn golygu nitrogen ac mae 'P' yn golygu ffosffad/ffosfforws. |

| | |
|---|---|
| A1 | Cadw cofnodion: |
| A2 | Rhaid ichi gadw'r cofnodion canlynol yn gyfoes am o leiaf 5 mlynedd a'u dangos pan ofynnir amdanynt ar gyfer eu harchwilio. (Gweler Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol 2021 – Canllaw i Ffermwyr ar sut i wneud hyn):<br>AR GYFER POB TIR O 1 IONAWR 2023<br>• cofnodion maes manwl o'r gwrtaith nitrogen artiffisial sydd wedi'i wasgaru gan gynnwys dyddiad ei wasgaru ar y tir, faint a pha fath (Nid oes angen i ffermydd glaswelltir dwysedd isel gadw'r cofnodion hyn);<br>• ar gyfer daliadau sy'n cadw anifeiliaid mewn adeilad neu ar lawr caled yn ystod y cyfnod storio – faint o slyri neu dail dofednod gaiff ei gynhyrchu gan y nifer a ragwelir o anifeiliaid yn ystod y cyfnod storio a faint o le storio sydd ei angen;<br>• arwynebedd eich daliad;<br>• eich cyfrifiadau i ddangos faint o le sydd gennych i storio tail;<br>• manylion y tail anifeiliaid sy'n cael ei symud i'r fferm a'i gario ohoni gan gynnwys faint, dyddiadau a manylion y derbyniwr;<br>• erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn, dyddiadau pan gafodd caeau eu defnyddio dros dro i storio tail dofednod a thail sych a'u lleoliad;<br>• eich cynllun gwrtaith nitrogen ar gyfer pob cnwd ar bob cae, gan ddangos cyflenwad y nitrogen yn y pridd, y mis pan fyddwch yn plannu'r cnwd, faint o nitrogen sydd ei angen ar y cnwd; a faint o nitrogen ddaw o bob gwasgariad o dail organig a faint o wrtaith nitrogen artiffisial sydd ei angen;<br>• cofnodion maes o gynhyrchiant cnydau âr ac erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn, cofnod o'r modd y cafodd y tir pori ei reoli yn y flwyddyn flaenorol;<br>• os ydych am wasgaru gwrtaith nitrogen, cofnodion caeau sy'n nodi dyddiadau plannu'ch cnwd a chopi o'r cyngor a roddwyd gan gynghorydd sydd â chymhwyster y Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr Gwrteithio (FACTS);<br>• cofnodion ynghylch y gwrtaith nitrogen artiffisial a thail organig sydd wedi'u gwasgaru, gan gynnwys dyddiadau, faint a mathau. Nid oes angen i ffermydd glaswelltir dwysedd isel gadw'r cofnodion hyn;<br>• os ydych yn gwasgaru tail organig, map risgiau o'r daliad.<br>AR GYFER TIR SYDD WEDI BOD YN RHAN O BARTH PERYGL NITRADAU<br>• erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn, pa dda byw rydych yn eu cadw ar eich daliad, eu nifer, a faint o amser maen nhw wedi'i dreulio ar y fferm yn y flwyddyn galendr ddiwethaf;<br>• erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn, cyfrifiadau i ddangos faint o nitrogen y gwnaeth yr anifeiliaid penodedig ar eich daliad ei gynhyrchu yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Cofnodion yn anghyflawn neu ar goll e.e. cyfrifiadau storio tail, cynllun gwrtaith, cofnodion caeau, cofnodion da byw gan gynnwys eu cynhyrchiant N, arwynebedd y fferm, map risgiau, mewnforio/allforio tail, storfeydd tail ar gaeau. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | **Isel iawn:** (gwallau neu hepgoriadau mân, ond asesiad llawn yn bosibl.<br>**Isel:** gwallau neu hepgoriadau mân neu'r cofnodion ddim yn gyfoes, ond asesiad llawn bron yn bosibl.<br>**Canolig:** gwallau neu hepgoriadau cymhedrol – dim ond asesiad rhannol yn bosib.<br>**Uchel:** cyfrifiad y storfa neu'r Map Risgiau yn anghyflawn neu'n eisiau neu heb gadw cofnodion am y cyfnod gofynnol neu heb ddarparu cofnodion ar ôl cais i'w gweld. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A3 | O 1 IONAWR 2023, AR GYFER POB TIR<br>Ar gyfer pob math o gnwd, gofalwch nad yw cyfradd gwasgaru nitrogen y daliad (gwrtaith nitrogen artiffisial ynghyd â'r nitrogen sydd ar gael i'r cnwd o dail organig) ar gyfartaledd yn fwy na therfyn uchaf nitrogen y cnwd hwnnw (sef yr uchafswm sydd ei angen ar y cnwd). (Gweler Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol 2021 – Canllaw i Ffermwyr i weld sut mae bodloni'r gofynion hyn): |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mwy o wrtaith Nitrogen wedi'i roi na therfyn uchaf Nitrogen y cnwd hwnnw. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** hyd at a chan gynnwys 5% yn fwy na therfyn uchaf N.<br>**Uchel:** dros 20% yn fwy na therfyn uchaf N. | **Modd ei gywiro:** canolig yn unig.<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A4 | O 1 IONAWR 2023, AR GYFER POB TIR<br>Terfyn ar y tail organig mewn cae:<br>Peidiwch â rhoi mwy na 250kg o N yr hectar o dail organig (heb gynnwys y tail a adewir gan anifeiliaid pori) fesul cae mewn cyfnod o 12 mis, onibai: eich bod yn defnyddio compost ardystiedig BSI PAS 100 yn unig, nad yw'n cynnwys unrhyw dail da byw. Os felly, rhaid i gyfanswm y nitrogen mewn tail organig ar bob hectar fod yn llai na:<br>• 1000 kg mewn unrhyw gyfnod o bedair blynedd os yw'n cael ei roi fel mwltsh ar dir perllan; neu<br>• 500 kg mewn unrhyw gyfnod o ddwy flynedd os yw'n cael ei roi ar unrhyw dir arall, fel mwltsh neu'n cael ei droi i mewn i'r tir. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mwy na'r terfyn fesul cae o dail organig wedi'i roi. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** hyd at a chan gynnwys 10% yn fwy na'r terfyn fesul cae yn cael ei roi ar unrhyw gae yn y daliad sy'n cael ei archwilio.<br>**Uchel:** mwy na 10% yn fwy na'r terfyn fesul cae yn cael ei roi ar unrhyw gae yn y daliad sy'n cael ei archwilio. | **Modd ei gywiro:** isel yn unig.<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A5 | AR GYFER POB TIR O 1 IONAWR 2024<br>Terfyn y daliad cyfan o dail da byw y fferm. Peidiwch â rhoi mwy na 170kg cyfanswm nitrogen yr hectar o dail da byw ar dir eich daliad (gan gynnwys tail yr anifeiliaid sy'n pori'r tir ac unrhyw dail anifeiliaid rydych yn ei gario i'r tir) bob blwyddyn galendr dros arwynebedd eich daliad, oni bai'ch bod yn dilyn y drefn Rheoli Maethynnau'n Well a'ch bod wedi cyflwyno hysbysiad i CNC erbyn 31 Mawrth 2024. Byddwch felly'n cael rhoi hyd at 250kg o nitrogen yr hectar o dal da byw sy'n pori. Dyma ofynion Rheoli Maethynnau'n Well:<br>• Cadwch 80% neu fwy o rannau amaethyddol y daliad o dan borfa wedi'i hau.<br>• Cynhaliwch Gynllun Rheoli Maethynnau'n Well gan gynnwys profion pridd ar gyfer mesur P a chyfyngu ar fathau o dail da byw.<br>• Cadwch at y terfynau gwasgaru P yn ôl y math o gnwd.<br>• Cofnodwch y gwrteithiau N a P rydych yn eu gwasgaru.<br>• Peidiwch â dod â thail da byw i'r daliad o'r tu allan.<br>• Gofalwch eich bod yn paratoi cynllun ar gyfer anfon tail da byw o'r daliad. Rhaid cofnodi erbyn 1 Mawrth 2024 faint o dail da byw a pha fath o dail rydych am ei anfon o'r daliad yn ystod y flwyddyn galendr.<br>• Nodwch y caeau perthnasol sy'n dod o dan y drefn Rheoli Maethynnau'n Well ar y map risgiau.<br>• Cadwch at y gofyn ychwanegol o ran aredig, cylchdroi cnydau a hau cnydau.<br>• Cynhaliwch glustogfeyfdd o gwmpas cyrsiau dŵr ac o gwmpas mannau bwydo a dyfrhau.<br>• Cadwch at y gofynion o ran diogelu pridd.<br>• Gwasgarwch slyri gan ddefnyddio offer gwasgaru manwl.<br>Gweler **Rheoli rheoliadau llygredd amaethyddol: canllawiau \| LLYW.CYMRU** am ragor o fanylion y gofynion penodol. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mwy na'r terfyn y fferm gyfan o dail da byw wedi'i roi ar eich tir.<br>NEU<br>Heb gadw at amodau Rheoli Maethynnau'n Well os oes hysbysiad wedi'i gyflwyno i CNC erbyn 31 Mawrth 2024. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** hyd at a chan gynnwys 5% yn fwy na'r terfyn.<br>**Uchel:** mwy na 5% yn fwy na'r terfyn 170kg/ha ac nad yw CNC wedi cael gwybod eich bod yn Rheoli Maethynnau'n Well, heb gadw at amodau Rheoli Maethynnau'n Well neu heb gadw at y terfyn 250kg/ha. | **Modd ei gywiro:** isel yn unig.<br>neu<br>**Barhaol** |

| A6 | O 1 IONAWR 2023, AR GYFER POB TIR<br>Rhaid ichi roi gwrtaith nitrogen mor gywir â phosibl. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Gwrtaith nitrogen (artiffisial ac organig) heb ei wasgaru mor gywir â phosibl. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** tystiolaeth bod gwrtaith artiffisial neu dail organig sych neu led-sych wedi'i wasgaru heb gywirdeb.<br>**Canolig:** tystiolaeth bod tail organig gwlyb wedi'i wasgaru heb gywirdeb; tystiolaeth bod gwrtaith nitrogen wedi mynd i ddŵr wyneb. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| A7 | O 1 IONAWR 2023, AR GYFER POB TIR<br>Rhaid defnyddio offer gwasgaru isel (lai na 4 metr o'r llawr) neu dechneg arall fel gwasgaru band neu chwistrellu (oni bai'ch bod yn defnyddio offer sydd â chyfradd gwasgaru slyri cyfartalog o ddim mwy na 2 filimetr yr awr o'i ddefnyddio'n ddi-dor). |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r slyri wedi'i wasgaru gan ddefnyddio offer uchel* (*heb gynnwys offer sydd â chyfradd gwasgaru cyfartalog o ddim mwy na 2mm/awr o'i ddefnyddio'n ddi-dor (e.e. offer dyfrhau jet pwls)). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |

| A8 | AR GYFER YR HOLL DIR O 1 EBRILL 2021<br>Pan fyddwch yn rhoi tail organig ar bridd moel neu sofl, rhaid ei droi i mewn i'r pridd cyn gynted â phosibl, neu o fewn 24 awr fan hwyraf.<br>Yn achos:<br>• tail ieir;<br>• slyri a slwtsh carthion hylif, oni bai ei fod yn cael ei wasgaru gan 'traliling shoe', bar diferion neu ei chwistrellu o dan wyneb y pridd;<br>• unrhyw dail organig arall (heblaw tail organig sy'n cael ei wasgaru fel mwltsh ar bridd tywodlyd), ar dir sydd o fewn 50 metr i ddŵr wyneb ac sy'n goleddfu mewn ffordd a allai achosi i'r dŵr lifo dros y tir i'r dŵr hwnnw. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Tail organig yn cael ei roi ar wyneb pridd moel neu'r sofl, heb ei droi i mewn i'r pridd yn unol â'r rheolau. | Effaith ar y fferm<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro: tystiolaeth nad yw wedi'i olchi oddi ar y pridd lle cafodd y tail ei droi i'r pridd yn ystod yr ymweliad.<br>Barhaol |

| A9 | AR GYFER TIR OEDD O'R BLAEN YN RHAN O NVZ<br>Rhaid ichi ddarparu digon o le i storio'r slyri sy'n cael ei gynhyrchu ar eich daliad gan y da byw penodedig a'r holl dail dofednod a gynhyrchir tra'u bod yn cael eu cadw mewn iard neu adeilad yn ystod y cyfnodau storio canlynol:<br>• 1 Hydref i 1 Ebrill (chwe mis) ar gyfer moch a dofednod;<br>• 1 Hydref i 1 Mawrth (pum mis) ar gyfer da byw eraill.<br>Nid oes angen lle i storio slyri neu dail dofednod sy'n cael ei anfon o'r daliad yn ystod y cyfnod storio neu sy'n cael ei wasgaru ar dir lle nad oes fawr o berygl iddo lifo oddi ar y cae ar ôl diwedd y cyfnod gwaharddedig (cyn belled nad yw hyn yn mynd yn groes i reolau gwasgaru eraill – gweler Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol 2021 – Canllaw i Ffermwyr). Os mai'r bwriad yw gwasgaru ar dir lle nad oes fawr o berygl iddo olchi oddi ar y cae, rhaid darparu cyfleusterau storio ar gyfer un wythnos ychwanegol o dail fel mesur wrth gefn. Gweler Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol 2021 – Canllaw i Ffermwyr i wybod sut i gyfrif faint o le storio sydd ei angen arnoch. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid oes digon o le storio wedi'i ddarparu yn ystod y cyfnodau storio. | Effaith ar y fferm<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro |

| | |
|---|---|
| A10 | O 1 IONAWR 2023, AR GYFER POB TIR<br>Rhaid ichi storio tail dofednod a mathau eraill o dail sych (gan gynnwys sarn/deunydd gwely sydd wedi'i lygru gan dail organig) naill ai:<br>• mewn llestr;<br>• ar arwyneb anhydraidd;<br>• mewn adeilad â tho; neu<br>• mewn tomen dros dro wedi'i lleoli'n gywir mewn cae, cyn belled ag y bo'r domen yn ddigon soled i sefyll ar ei phen ei hun, nad oes llif yn draenio'n rhydd o du mewn y domen, a bod yr arwynebedd mor fach ag sy'n ymarferol bosibl. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r tail dofednod na'r tail sych arall wedi'i storio'n briodol:<br>• mewn llestr;<br>• ar arwyneb anhydraidd;<br>• mewn adeilad â tho iddo; neu<br>• mewn tomen addas dros dro mewn cae. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** lle gwelir mân ddiffygion (problemau cynnal a chadw) sy'n effeithio ar ddiddosrwydd/defnyddioldeb y cyfleuster storio.<br>**Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Nid yw'r tail organig yn ddigon solid i sefyll ar ei ben ei hun mewn tomen dros dro a/neu mae llif yn draenio'n rhydd o du mewn y domen. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** lle ceir tystiolaeth nad oes dŵr ffo.<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A11 | O 1 IONAWR 2023, AR GYFER POB TIR<br>Rhaid gorchuddio â deunydd diddos unrhyw dail dofednod sych nad oes ynddo sarn (deunydd gwely) ac sy'n cael ei storio ar safle dros dro mewn cae. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae tail dofednod heb sarn (deunydd gwely) ynddo yn cael ei storio ar safle dros dro mewn cae heb ei orchuddio â deunydd diddos. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** lle ceir tystiolaeth nad oes dŵr ffo.<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| B1 | AR GYFER TIR OEDD O'R BLAEN YN RHAN O NVZ<br>Cyfnod gwaharddedig ar gyfer tail organig:<br>Peidiwch â rhoi tail organig sydd â lefelau uchel o N sydd ar gael yn rhwydd ynddo (e.e. slyri, tail ieir) yn y cyfnodau gwaharddedig canlynol (oni bai'ch bod yn ffermwr organig cofrestredig):<br>1 Medi – 31 Rhagfyr ar dir pori â phridd tywodlyd neu fâs 15 Hydref – 31 Ionawr ar dir pori ar bob math arall o bridd<br>1 Awst – 31 Rhagfyr ar dir âr â phridd tywodlyd neu fâs (caniateir ei wasgaru rhwng 1 Awst a 15 Medi cyn belled â bod cnwd yn cael ei hau ar neu cyn 15 Medi)<br>1 Hydref – 31 Ionawr ar dir âr ar bob math arall o bridd |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Wedi torri'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer rhoi tail organig ag N ar gael yn rhwydd ynddo. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |

| B2 | AR GYFER YR HOLL DIR O 1 EBRILL 2021<br>Cyfnod gwaharddedig ar gyfer gwrtaith artiffisial:<br>Peidiwch â rhoi gwrtaith N artiffisial ar unrhyw bridd yn y cyfnodau canlynol (oni bai'ch bod wedi cael caniatâd) :<br>15 Medi – 15 Ionawr ar dir pori 1 Medi – 15 Ionawr ar dir âr |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Wedi torri'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer rhoi gwrtaith artiffisial, heb brofi cyfiawnhad agronomig. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |

| B3 | AR GYFER TIR OEDD O'R BLAEN YN RHAN O NVZ<br>Peidiwch â rhoi mwy na 30m$^3$/ha o slyri neu 8 tunnell/ha o dail ieir ar dir ar unrhyw adeg, o ddiwedd y cyfnod gwaharddedig uchod tan ddiwrnod olaf mis Chwefror, a rhaid ichi ei adael am o leiaf 3 wythnos cyn rhoi rhagor. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mynd yn groes i'r cyfyngiadau ar wasgaru ar ôl diwedd y cyfnod gwaharddedig. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |

| | |
|---|---|
| B4 | AR GYFER YR HOLL DIR O 1 EBRILL 2021<br>Peidiwch â gwasgaru gwrtaith nitrogen heb gynnal archwiliad o'r cae i asesu'r perygl i'r nitrogen olchi i ddŵr wyneb. Peidiwch â gwasgaru gwrtaith nitrogen os oes perygl arwyddocaol o hynny. Rhaid i'r archwiliad ystyried:<br>• rhediad y tir, yn enwedig os oes mwy na 12 gradd (1 mewn 5) o lethr;<br>• draeniau (heblaw am bibellau diddos wedi'u selio); a<br>• y llystyfiant, pa mor agos y mae'r dŵr daear, amodau'r tywydd a'r math o bridd. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gwrtaith nitrogen wedi'i wasgaru mewn modd amhriodol. ee:<br>a) ni wnaeth y ffermwr archwilio'r cae i asesu'r perygl o ddŵr ffo; neu<br>b) cynhaliodd y ffermwr archwiliad a gwasgaru gwrtaith N a gweld bod perygl arwyddocaol o ddŵr ffo.<br>Pwysig: Amod rhagofalus yw hwn h.y. bydd y rheol wedi'i thorri hyd oes os na fydd achos o lygru. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |

| B5 | AR GYFER YR HOLL DIR O 1 EBRILL 2021<br>Peidiwch â gwasgaru gwrtaith nitrogen os yw'r pridd yn llawn dŵr, dan ddŵr neu wedi'i rewi dros gyfnod o 12 awr neu fwy yn y 24 awr diwethaf neu o dan eira. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gwrtaith nitrogen wedi'i wasgaru pan oedd amodau'r pridd yn amhriodol e.e.<br>• yn llawn dŵr;<br>• dan ddŵr;<br>• wedi'i rewi dros gyfnod o 12 awr neu fwy yn y 24 awr diwethaf; neu<br>• dan eira.<br>Pwysig: Amod rhagofalus yw hwn h.y. bydd y rheol wedi'i thorri hyd oes os na fydd achos o lygru. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig** | **Parhaol** |

| B6 | AR GYFER YR HOLL DIR O 1 EBRILL 2021<br>Peidiwch â gwasgaru gwrtaith nitrogen artiffisial o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gwrtaith nitrogen artiffisial wedi'i wasgaru o fewn 2 fetr i gwrs dŵr. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig** | **Parhaol** |

| B7 | AR GYFER YR HOLL DIR O 1 EBRILL 2021<br>Peidiwch â gwasgaru tail organig o fewn 10 metr i ddŵr wyneb, ac eithrio ar dir sy’n cael ei reoli ar gyfer adar rhydio sy’n magu neu fel glaswelltir lled-naturiol blodeuog neu o dan rai amodau eraill. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae tail organig wedi’i wasgaru o fewn 10 metr i ddŵr wyneb (6m ar dir lle bo offer gwasgaru manwl fel system chwistrellu, ‘trailing shoe’ neu far diferion wedi’u defnyddio) ar dir nad yw wedi cael ei eithrio neu mewn ffordd sy’n mynd yn groes i’r cyfyngiadau.<br>Ceir eithriadau ar dir sy’n cael ei reoli ar gyfer adar rhydio sy’n magu neu ar laswelltir lled-naturiol blodeuog.<br>Rhestrir yr eithriadau yn Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol 2021 – Canllaw i Ffermwyr. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig** | **Parhaol** |

| B8 | AR GYFER YR HOLL DIR O 1 EBRILL 2021<br>Peidiwch â gwasgaru tail organig o fewn 50 metr i bistyll, ffynnon neu dwll turio. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae tail organig wedi’i wasgaru o fewn 50 metr i bistyll, ffynnon neu dwll turio. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig** | **Parhaol** |

| | |
|---|---|
| B9 | O 1 IONAWR 2023, AR GYFER POB TIR<br>Rhaid i safle dros dro ar gae beidio â bod:<br>• o fewn 10 metr i ddŵr daear neu ddraen tir;<br>• o fewn 50 metr i bistyll, ffynnon neu dwll turio;<br>• o fewn 30 metr i gwrs dŵr ar dir ar lethr 12 gradd neu fwy;<br>• ar dir fydd yn debygol o fynd yn llawn dŵr;<br>• ar dir fydd yn debygol o fynd o dan ddŵr;<br>• yn yr un man am fwy na 12 mis o'r bron;<br>• yn yr un man â thomen cynharach a adeiladwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf;<br>• lle bo'r uwchbridd wedi'i dynnu oddi yno. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae tomen dros dro mewn cae wedi'i chodi yn groes i'r rheoliadau mewn lle risg uchel. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** lle ceir tystiolaeth nad oes dŵr ffo.<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| B10 | AR GYFER TIR OEDD O'R BLAEN YN RHAN O NVZ<br>Peidiwch â gwahanu'r slyri yn gyfran gwlyb ac yn gyfran sych oni bai'ch bod yn gwneud hyn yn fecanyddol neu ar wyneb anhydraidd, lle bo'r cyfran gwlyb yn llifo i gynhwysydd addas. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r slyri wedi cael ei wahanu'n fecanyddol nac ar wyneb hydraidd na chyda chynhwysydd addas. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** lle na cheir tystiolaeth bod llygru wedi digwydd.<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| C | Gwneud silwair a storio silwair a slyri:<br>• Mae 'silwair' yn golygu sudd silwair, cnydau sy'n cael eu gwneud yn silwair, silwair sy'n cael ei wneud mewn clampiau, silwair mewn bagiau neu wedi'i lapio a silwair maes (tomennydd mewn cae neu silwair heb ei felio mewn bagiau e.e. Ag-Bags).<br>• Mae 'slyri' yn golygu hylif neu ddeunydd lled-hylifol sydd wedi'i wneud o garthion da byw sy'n cael eu cadw mewn iard neu adeilad (gan gynnwys corlannau ag iddynt lawr o sglodion pren); neu gymysgedd sydd wedi'i wneud yn gyfan neu'n bennaf o garthion da byw, sarn (gwely) da byw, dŵr glaw a golchion o adeilad neu iard da byw; ac sy'n ddigon gwlyb i allu cael ei bwmpio neu ei yrru gan ddisgyrchiant unrhyw bryd yn ystod y broses o'i drafod.<br>• Mae'gosodiad'yn golygu silo neu system storio slyri. Mae systemau storio slyri'n cynnwys: pydew, tanc neu lagŵn ac unrhyw bibellau neu sianeli cysylltiedig sy'n cael eu defnyddio i storio'r slyri, ond nid i gadw slyri tra'i fod yn cael ei storio dros dro mewn tancer sy'n cael ei ddefnyddio i gludo slyri ar ffyrdd neu o gwmpas y fferm.<br>• Mae 'silwair maes' yn golygu silwair sy'n cael ei wneud ar dir agored heb unrhyw fath o dwll neu lawr neu wal ar y safle. Mae silwair sy'n cael ei wneud a'i storio heb ei felio mewn bagiau mawr ar dir agored hefyd yn cael ei alw'n silwair maes. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i silwair sy'n cael ei wasgu'n fêls a'u lapio a'u selio mewn defnydd sy'n dal dŵr neu eu rhoi mewn bagiau sy'n dal dŵr.<br><br>Rhaid ichi:<br>• roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru ble rydych am wneud silwair maes o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio'r safle hwnnw y tro cyntaf;<br>• cydymffurfio ag unrhyw orchmynion gan Cyfoeth Naturiol Cymru i wella gosodiad neu safle salwair ar gae os nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n credu eu bod yn addas.<br>• archwilio gosodiadau'n rheolaidd a'u trwsio'n brydlon pan fo gofyn (gweler manylion gwaith archwilio;<br>• gwneud yn siŵr bod y gosodiadau'n bodloni'r gofyn o ran capasiti (gweler A9), gwytnwch, cynnal a chadw a pharthau diogelwch a'u bod yn cael eu hadeiladu yn unol â'r safonau adeiladu perthnasol a'r rheolau ynghylch lleoli safle silwair ar gae;<br>• Rhoi gwybod yn ysgrifenedig i CNC os ydych am godi gosodiad newydd neu ehangu neu ailadeiladu gosodiad o'r fath, o leiaf 14 niwrnod cyn dechrau'r gwaith adeiladu.<br>• cydymffurfio â hysbysiadau Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gofyn am welliannau i'r gosodiad neu safle'r silwair ar gae os nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu eu bod yn addas;<br>Fe welwch y manylion yn Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol 2021 – Canllaw i Ffermwyr . |

| C1 | AR GYFER YR HOLL DIR O 28 EBRILL 2021<br>Rhoi gwybod yn ysgrifenedig i CNC os ydych am godi gosodiad newydd neu ehangu neu ailadeiladu gosodiad o'r fath, o leiaf 14 niwrnod cyn dechrau'r gwaith adeiladu. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Heb roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru 14 diwrnod cyn defnyddio'r strwythur. | Effaith ar y fferm | Isel | Modd ei gywiro: lle'ch bod wedi gohirio adeiladu'r gosodiad<br>er mwyn i hysbysiad allu cael ei wneud.<br>neu<br>Barhaol |

| C2 | AR GYFER YR HOLL DIR O 1 EBRILL 2021<br>Rhaid rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru ble rydych am wneud silwair maes o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio'r safle y tro cyntaf. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Heb roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru 14 diwrnod cyn defnyddio safle'r silwair maes am y tro cyntaf. | Effaith ar y fferm | Isel | Modd ei gywiro: lle'ch bod wedi gohirio defnyddio'r gosodiad er mwyn i hysbysiad allu cael ei wneud.<br>neu<br>Barhaol |

| C3 | YN GYMWYS I BOB TIR O 1 EBRILL 2021 AR GYFER GWNEUD A STORIO SILWAIR. DIM OND I DIR A ARFERAI FOD MEWN PARTH PERYGL NITRADAU AR GYFER STORIO SLYRI Y MAE'N BERTHNASOL<br>Rhaid ichi wneud yn siŵr bod y gosodiadau'n bodloni'r gofynion o ran capasiti, gwytnwch, cynnal a chadw a pharthau diogelwch a'u bod yn cael eu hadeiladu yn unol â'r safonau adeiladu perthnasol a'r rheolau ar leoli safle silwair ar gae. Am fanylion capasiti storfeydd slyri, darllenwch Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol – Canllaw i Ffermwyr. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Heb fodloni gofynion y gosodiad a/neu reolau'r safle ar y cae. | Effaith ar y fferm<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| C4 | AR GYFER TIR OEDD O'R BLAEN YN RHAN O NVZ<br>Rhaid cydymffurfio â hysbysiadau Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Reoliad 30 (a hysbysiad Rheoliad 30) sy'n gofyn am welliannau i'r gosodiad neu safle'r silwair ar gae.<br>Gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi hysbysiadau os teimla nad yw gosodiad yn addas neu fod perygl o lygredd i ddyfroedd dan reolaeth. Bydd yr hysbysiadau hyn yn nodi'r gwaith, rhagofalon a chamau eraill y mae'n rhaid eu cymryd ac erbyn pryd. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Heb gydymffurfio â Hysbysiadau Cyfoeth Naturiol Cymru. | Effaith ar y fferm<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro: os nad oes arwydd o lygredd.<br>neu<br>Barhaol |

| C5 | AR GYFER TIR OEDD O'R BLAEN YN RHAN O NVZ<br>Rhaid ichi archwilio gosodiadau (gan gynnwys darnau fel pibellau a falfiau) am arwyddion o rydu, difrod neu ollyngi adau a'u trwsio'n brydlon pan fo gofyn. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Heb gynnal archwiliadau a gwaith trwsio'n rheolaidd. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** os na ellir gweld gollyngiadau.<br>**Uchel:** os gellir gweld gollyngiadau. | **Modd ei gywiro:** os nad oes arwydd o lygredd.<br>neu<br>**Barhaol** |

# SMR 2: Adar gwyllt

| Amcan y gofynion hyn yw gwarchod adar gwyllt, eu hwyau a'u nythod. Maen nhw'n berthnasol i bob aderyn gwyllt. Mae yna reolau eraill i'w dilyn os oes gennych dir mewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA). | |
|---|---|
| A1 | Yn y gofyn hwn, mae 'WCA' yn golygu Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd.<br>Ar eich daliad (p'un a yw mewn Ardal Gwarchod Arbennig neu beidio) Rhaid ichi gadw at y rheolau canlynol:<br>• Oni bai'ch bod wedi cael trwydded o dan adran 16 WCA, peidiwch â lladd, anafu na chymryd aderyn gwyllt yn fwriadol;<br>• Peidiwch â difrodi, dinistrio na chymryd nyth yn fwriadol sy'n cael ei ddefnyddio neu ei adeiladu (gwarchodir nythod yr eryr euraid, eryr y môr a gwalch y pysgod drwy'r flwyddyn);<br>• Peidiwch â chymryd na dinistrio wy aderyn gwyllt;<br>• Peidiwch â tharfu'n fwriadol neu drwy esgeulustod ar rai mathau penodol o adar sydd ar eu nyth (na tharfu ar eu cywion dibynnol); a<br>• Peidiwch â lladd na chymryd adar hela yn ystod tymor caeedig yr aderyn hwnnw nac ar unrhyw ddydd Sul nac ar ddydd Nadolig. Ni chewch chwaith prynu na gwerthu aderyn hela 10 niwrnod ar ôl diwedd tymor agored yr aderyn dan sylw.<br>Pwysig: I gael gwybod a yw'ch tir mewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig o dan y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt, holwch Cyfoeth Naturiol Cymru. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | **Tramgwydd yn erbyn adran 1 WCA 1981**<br>**Bwriadol**<br>Mae ffermwr wedi lladd, anafu neu gymryd aderyn gwyllt yn fwriadol.<br>Mae ffermwr, yn fwriadol, wedi difrodi, dinistrio neu gymryd nyth aderyn gwyllt sy’n cael ei ddefnyddio/adeiladu neu nyth eryr aur, eryr môr neu walch y pysgod unrhyw bryd.<br>Mae ffermwr wedi dinistrio wy aderyn gwyllt yn fwriadol.<br>**Trwy Esgeulustod neu’n Fwriadol**<br>Mae ffermwr wedi tarfu ar adar/cywion Rhestr 1 ar eu nyth.<br>Mae’r ffermwr wedi lladd/cymryd aderyn heladwy yn ei dymor caeedig a/neu aderyn hela ar ddydd Sul neu ddydd Nadolig.<br>Ni fydd ffermwr wedi torri’r rheolau hyn os bydd ganddo drwydded gan awdurdod cymwys i gyflawni gweithred awdurdodedig neu os gall ddibynnu ar amddiffyniad neu eithriad cyfreithiol. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |

# Ar dir mewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

| | |
|---|---|
| B1 | Rhaid rhoi gwybod trwy lythyr i Cyfoeth Naturiol Cymru am unrhyw fwriad i wneud, achosi neu ganiatáu gwaith penodedig neu waith sy'n destun gorchymyn cadwraeth natur arbennig (oni bai ei fod yn dod o dan amodau cytundeb, cynllun neu hysbysiad rheoli) a rhaid cael caniatâd cyn dechrau'r gwaith. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi gwneud, achosi neu ganiatáu gwaith penodedig heb hysbysiad na chaniatâd.<br>Ystyr 'gwaith penodedig' yw gwaith sydd wedi'i nodi fel gwaith a fydd yn debygol o niweidio nodwedd o ddiddordeb arbennig yn yr ardal. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** dim niwed wedi'i achosi.<br>**Canolig:** niwed mân wedi'i achosi.<br>**Uchel:** niwed mawr wedi'i achosi. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Mae'r ffermwr wedi gwneud, achosi neu ganiatáu gwaith penodedig ar dir lle mae gorchymyn gwarchod natur arbennig wedi'i roi, heb hysbysiad na chaniatâd. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** dim niwed wedi'i achosi.<br>**Canolig:** niwed mân wedi'i achosi.<br>**Uchel:** niwed mawr wedi'i achosi. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Mae'r ffermwr wedi gwneud, achosi neu ganiatáu gwaith ar y tir gyda hysbysiad/caniatâd ond heb gadw at amodau'r caniatâd. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** dim niwed wedi'i achosi.<br>**Canolig:** niwed mân wedi'i achosi.<br>**Uchel:** niwed mawr wedi'i achosi. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| B2 | Rhaid cadw at amodau pob hysbysiad rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac amodau unrhyw orchmynion adfer gan lys. Pwrpas yr hysbysiad neu'r gorchymyn adfer yw diogelu neu adfer nodwedd o ddiddordeb arbennig yn yr ardal neu adfer y tir i'w gyflwr blaenorol fel ag a nodir ar yr hysbysiad neu'r gorchymyn. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau hysbysiad rheoli sy'n ymdrin â nodweddion o ddiddordeb arbennig yr AGA/SoDdGA.<br>Rhoddir hysbysiad rheoli o dan adran 28K WCA 1981 (fel y'i diwygiwyd). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** lle bo ffermwr yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion.<br>**Uchel:** lle bo ffermwr heb gydymffurfio neu'n parhau i beidio â chydymffurfio. | **Modd ei gywiro** |
| | Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau gorchymyn adfer sy'n ymdrin â nodweddion o ddiddordeb arbennig yr AGA/SoDdGA.<br>Rhoddir hysbysiad rheoli o dan adran 31 WCA 1981 neu Reoliad 26 o OS 1994/2716 (mewn cysylltiad â Gorchmynion Gwarchod Natur Arbennig). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** lle bo ffermwr yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion.<br>**Uchel:** lle bo ffermwr heb gydymffurfio neu'n parhau i beidio â chydymffurfio. | **Modd ei gywiro** |

| B3 | Peidiwch trwy fwriad neu esgeulustod, â difetha na difrodi nodweddion o ddiddordeb arbennig yr ardal na tharfu ar ffawna sy'n nodwedd o ddiddordeb arbennig. (Mae'r gofyn hwn yn gallu ymdrin hefyd â gwaith sy'n cael ei wneud y tu allan i'r AGA/SoDdGA ei hun ond sy'n cael yr un effaith arni.) |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi difrodi neu ddifetha'r nodwedd arbennig neu wedi amharu ar y ffawna (sy'n nodwedd arbennig o'r AGA/SoDdGA). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** mân-ddifrod yn unig wedi'i achosi.<br>**Canolig:** difrod canolig wedi'i achosi.<br>**Uchel:** difrod mawr wedi'i achosi. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

# SMR 3: Gwarchod Fflora a Ffawna (Bioamrywiaeth)

| | |
|---|---|
| Amcan y gofynion hyn yw diogelu planhigion ac anifeiliaid. Rhaid i bawb gadw at y gofynion hyn. Bydd yn rhaid bodloni gofynion pellach os ydy'ch tir mewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). | |
| | Ar eich daliad, peidiwch â gwneud y canlynol (p'un a yw mewn Ardal Cadwraeth Arbennig neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu beidio):<br>Pigo, casglu, torri, dadwreiddio na difetha planhigyn gwyllt o rywogaeth sy'n cael ei gwarchod gan Ewrop. (Mae'r planhigion sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop wedi'u rhestru yn Atodlen 5 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ('y Rheoliadau Cynefinoedd').<br>Lladd, anafu nac aflonyddu ar unrhyw anifeiliaid gwyllt sydd ar y rhestr 'Rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop' na difrodi, difetha na chau eu llochesi anifeiliaid ar y rhestr Ewropeaidd syn cael eu rhestru yn Atodlen 2 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.<br>Yn yr SMR hwn, ystyr 'WCA' yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y'i diwygiwyd.<br>Os ydych am wybod a yw'ch tir mewn Ardal Cadwraeth Arbennig neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, holwch Cyngor Cefn Gwlad Cymru. |
| A1 | Peidiwch yn fwriadol â phigo, casglu, torri, dadwreiddio na difetha planhigyn gwyllt o rywogaeth sy'n cael ei gwarchod gan Ewrop. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Wedi pigo, casglu, torri, dadwreiddio neu ddifetha planhigion gwyllt o rywogaeth sy'n cael ei gwarchod gan Ewrop.<br>(Troseddau Rhan 1 y Ddeddf, yr ymdrinnir â nhw gan yr heddlu sydd â'u meini prawf eu hunain (a rhai'r CPS). Os amheuir bod trosedd wedi'i chyflawni, dywedwch wrth yr heddlu.) | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** lle cafwyd effaith gymedrol ar y rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod.<br>**Uchel:** lle cafwyd effaith fawr ar y rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod. | **Parhaol** |

| | |
|---|---|
| A2 | Peidiwch â lladd, anafu nac aflonyddu ar unrhyw anifeiliaid gwyllt sydd ar y rhestr 'Rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop' na difrodi, difetha na chau eu llochesi |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Wedi lladd, anafu neu aflonyddu ar unrhyw anifeiliaid gwyllt sydd ar y rhestr 'Rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop' neu ddifrodi, difetha na chau eu llochesi.<br>(Troseddau Rhan 1 y Ddeddf, yr ymdrinnir â nhw gan yr heddlu sydd â'u meini prawf eu hunain (a rhai'r CPS). Os amheuir bod trosedd wedi'i chyflawni, dywedwch wrth yr heddlu.) | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** lle cafwyd effaith gymedrol ar y rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod.<br>**Uchel:** lle cafwyd effaith fawr ar y rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod. | **Parhaol** |

## Ar dir mewn Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

| | |
|---|---|
| B1 | Ar dir mewn Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA): Rhaid rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru trwy lythyr am gynnig i gynnal, peri neu ganiatáu unrhyw waith penodol y mae angen gorchymyn gwarchod natur arbennig i'w gynnal (oni bai bod amodau cytundeb rheoli, cynllun neu hysbysiad yn ei ganiatáu) a chael caniatâd cyn dechrau'r gwaith (ac eithrio mewn argyfwng neu amgylchiadau penodol eraill). |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi cynnal, peri neu ganiatáu gwaith penodol heb hysbysiad na chaniatâd.<br>Ystyr gwaith penodol yn yr achos hwn yw gwaith y nodwyd ei fod yn debygol o niweidio nodweddion yr ardal sydd o ddiddordeb arbennig. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** lle nad oes difrod wedi'i achosi.<br>**Canolig:** lle mae mân ddifrod wedi'i achosi.<br>**Uchel:** lle mae difrod mawr wedi'i achosi. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Mae'r ffermwr wedi cynnal, peri neu ganiatau gwaith penodol ar dir lle mae gorchymyn gwarchod natur arbennig wedi'i roi, heb hysbysiad na chaniatâd. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** lle nad oes difrod wedi'i achosi.<br>**Canolig:** lle mae mân ddifrod wedi'i achosi.<br>**Uchel:** lle mae difrod mawr wedi'i achosi. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Mae'r ffermwr wedi cynnal, peri neu ganiatáu gwaith sydd â hysbysiad/caniatâd ar y tir ond heb gadw at amodau'r caniatâd. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** lle nad oes difrod wedi'i achosi.<br>**Canolig:** lle mae mân ddifrod wedi'i achosi.<br>**Uchel:** lle mae difrod mawr wedi'i achosi. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| B2 | Rhaid cadw at amodau pob hysbysiad rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac amodau unrhyw orchmynion adfer gan lys. Lle mai pwrpas yr hysbysiadau neu'r gorchmynion adfer yw gwarchod neu adfer nodweddion yr ardal sydd o ddiddordeb arbennig neu adfer y tir i'w gyflwr blaenorol yn ôl yr hyn a bennir |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau hysbysiad rheoli sy'n ymdrin â nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth/ SoDdGA.<br>Rhoddir hysbysiad rheoli o dan adran 28K WCA 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** lle bo ffermwr yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion.<br>**Uchel:** lle bo ffermwr heb gydymffurfio neu'n parhau i beidio â chydymffurfio. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau gorchymyn adfer sy'n ymdrin â nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth/ SoDdGA.<br>Rhoddir gorchymyn adfer o dan adran 31 WCA 1981 neu Reoliad 29 OS2010/490 (mewn cysylltiad â Gorchmynion Gwarchod Natur Arbennig). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** lle bo ffermwr yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion.<br>**Uchel:** lle bo ffermwr heb gydymffurfio neu'n parhau i beidio â chydymffurfio. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| B3 | Peidiwch trwy fwriad neu esgeulustod, â difetha neu ddifrodi nodweddion arbennig yr ardal nac amharu ar ffawna a warchodir sy'n nodwedd arbennig. (Mae'r gofyn hwn yn ymdrin â gwaith sy'n cael ei wneud y tu allan i'r Ardal Gadwraeth/SoDdGA ei hun ond sy'n cael yr un effaith arni.) |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi difrodi neu ddifetha'r nodwedd arbennig neu wedi amharu ar y ffawna (sy'n nodwedd arbennig o'r Ardal Gadwraeth/SoDdGA). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** lle mae mân ddifrod wedi'i achosi.<br>**Canolig:** lle mae difrod canolig wedi'i achosi.<br>**Uchel:** lle mae difrod mawr wedi'i achosi. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

# SMR 4: Bwyd a chyfraith bwyd

| | |
|---|---|
| Amcan y gofynion hyn yw gwneud yn siwr bod bwyd ar gyfer pobl a'r porthiant ar gyfer anifeiliaid cynhyrchu bwyd yn cael eu cynhyrchu'n ddiogel. | |
| **Diogelwch bwyd a phorthiant – eu tynnu yn ôl neu eu galw yn ôl** | |
| A1 | Rhaid ichi beidio â:<br>• Rhoi bwyd neu borthiant anniogel ar y farchnad;<br>• Rhoi porthiant anniogel i anifeiliaid cynhyrchu bwyd.<br>**Pwysig**: Os oes anifeiliaid wedi marw neu os oes cynhyrchion anifeiliaid wedi cael eu llygru, mae'n debygol y byddai Iechyd Anifeiliaid neu Safonau Masnach am wybod ai'r porthiant laddodd yr anifeiliaid. Yn yr un modd, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn cyhoeddi cyngor ar sut i reoli'r risg a chan ddibynnu ar ddifrifoldeb y mater, gallai drefnu bod cynnyrch yn cael ei alw'n alw'r ôl.  Y gweithgynhyrchydd fydd yn galw cynnryrch yn ôl a bydd yr FSA yn rhannu'r wybodaeth ar ei gwefan a'i chyfryngau cymdeithasol. Mae'r FSA yn cynghori gweithgynhyrchwyr i gynefino â chyngor yr FSA i fusnesau ar ddigwyddiadau'n ymwneud â bwyd ac ar dynnu a galw cynnyrch yn ôl. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae tystiolaeth bod bwyd sy'n niweidiol i iechyd pobl neu nad yw'n ffit i'w fwyta a/neu sy'n niweidiol i iechyd (e.e. llwydni neu bla mewn grawn) wedi'i roi ar y farchnad neu ei fwydo i anifeiliaid.<br>Mae tystiolaeth bod porthiant y bernir ei fod yn cael effaith andwyol ar iechyd pobl neu anifeiliaid wedi'i roi ar y farchnad. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol:** os nad oes gan y cynhyrchydd system i olrhain y cynnyrch neu ei alw yn ôl ac nad yw wedi rhoi gwybod i'r awdurdodau perthnasol. |
| | Mae tystiolaeth bod porthiant anniogel wedi'i fwydo i anifeiliaid cynhyrchu bwyd. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** mae porthiant anniogel wedi'i fwydo i anifeiliaid cynhyrchu bwyd ac ni fu effeithiau andwyol neu mae'r anifeiliaid wedi dioddef effeithiau andwyol mân.<br>**Uchel:** mae porthiant anniogel wedi'i fwydo i anifeiliaid cynhyrchu bwyd gan arwain at ladd anifeiliaid neu eu gwneud yn sâl, neu at lygru bwyd. | **Modd ei gywiro:** os nad fu effeithiau andwyol ar yr anifeiliaid ac mae modd gaw'r cynnyrch yn ôl.<br>neu<br>**Barhaol:** ym mhob achos arall. |

| | |
|---|---|
| A2 | Rhaid ichi:<br>• drefnu bod bwyd neu borthiant anniogel yn cael ei dynnu o'r farchnad os ydych yn credu'ch bod wedi'i gyflenwi a rhoi gwybod i'ch awdurdod lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) trwy Ffurflen Adrodd Ar-lein yr FSA;<br>• dinistrio porthiant anniogel oni bai bod yr awdurdod perthnasol yn dweud wrthych i beidio;<br>• dweud wrth ddefnyddwyr y bwyd/porthiant pam eich bod yn ei dynnu o'r farchnad os yw wedi'u cyrraedd;<br>• trefnu bod y bwyd/porthiant anniogel yn cael ei alw'n ôl os nad oes ffordd arall o ddiogelu iechyd;<br>• rhoi gwybod i'ch awdurdod lleol a'r FSA ar unwaith os gallai'r bwyd rydych wedi'i gyflenwi neu sydd yn eich meddiant neu yr ydych yn bwriadu ei werthu niweidio iechyd gan ddweud wrthynt beth ydych wedi'i wneud i ddiogelu'r defnyddiwr olaf. Os oes porthiant sy'n cynnwys mwy na'r lefel ragnodedig neu awdurdodedig o gynnyrch milfeddygol (porthiant meddyginiaethol) a/neu ychwanegion bwyd (coccidiostatau neu histomonostatau) neu borthiant sydd wedi'i lygru â chynnyrch o'r fath a allai fod yn niweidiol i iechyd, dylai'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol hefyd gael gwybod. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Bu digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd ac nad yw'r ffermwr wedi hysbysu'r awdurdodau, ei alw'n ôl na'i dynnu yn ôl. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel:** mae bwyd anniogel wedi'i gyflenwi gan effeithio'n andwyol ar y gadwyn fwyd (digwyddiad go iawn) – mae angen tystiolaeth. Wnaeth y ffermwr ddim galw'r bwyd yn ôl na rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol. | **Parhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Lle bu digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch porthiant, nid yw'r ffermwr wedi dilyn y prosesau priodol.<br>"**Prosesau priodol**" – Mae tynnu porthiant yn ôl yn cynnwys cadw porthiant sydd heb ei ddefnyddio a pheidio â'i fwydo. Mae'n cynnwys hefyd cysylltu â chwsmeriaid sy'n derbyn porthiant sy'n torri'r rheolau. Os oes porthiant yn cael ei alw neu ei gadw yn ôl, rhaid hysbysu'r awdurdod lleol (yr adran Safonau Masnach fel arfer) a'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Arolygydd yr awdurdod lleol fel arfer fydd yn trefnu bod y porthiant yn cael ei ddinistrio ond cyn hynny fel arfer, byddai prawf wedi'i gynnal ar sampl ohono sy'n dangos bod lefel uwch na'r lefel statudol a ganiateir o lygryn yn bresennol ynddo. Gellir ei ddefnyddio at ddibenion derbyniol eraill cyn belled â'i fod yn cael ei gadw o'r gadwyn fwyd (e.e. diben diwydiannol). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm**<br>(Gallai'r tramgwydd fod yn gysylltiedig â gorchymyn cenedlaethol i alw 'batch' yn ôl. Rhaid i ffermwr gadw cofnod o'r rheini y mae wedi cyflenwi porthiant iddynt ond nid oes disgwyl iddo gadw cofnod pwy sy'n ei gael wedi hynny). | **Canolig:** os nad yw'r porthiant yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd anifeiliaid na defnyddwyr.<br>**Uchel:** os ydy'r porthiant yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd anifeiliaid neu ddefnyddwyr. | **Modd ei gywiro:** os nad yw wedi'i ddefnyddio.<br>neu<br>**Parhaol:** os ydy'r porthiant sy'n torri'r rheolau wedi'i fwydo i anifeiliaid. |
| | Os oes porthiant sy'n cynnwys mwy na'r lefel ragnodedig neu awdurdodedig o gynnyrch milfeddygol (porthiant meddyginiaethol) a/neu ychwanegion bwyd (coccidiostatau neu histomonostatau) neu borthiant sydd wedi'i lygru â chynnyrch o'r fath a allai fod yn niweidiol i iechyd, dylai'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol hefyd gael gwybod. | | | |

| Olrhain | |
|---|---|
| A3 | Rhaid bod gennych systemau a threfniadau ar gyfer olrhain y pethau sy'n dod i'ch fferm:<br>• enw a chyfeiriad eich cyflenwr;<br>• y pethau sydd wedi'u cyflenwi ichi, a faint;<br>• dyddiad derbyn y pethau hyn.<br>Rhaid bod gennych systemau a threfniadau ar gyfer olrhain y cynnyrch sy'n gadael eich fferm:<br>• enw a chyfeiriad y busnesau rydych yn eu cyflenwi;<br>• natur y cynnyrch rydych wedi'u cyflenwi i'r busnesau hynny, a faint ohono;<br>• y dyddiad pan adawodd y cynnyrch eich fferm.<br>Rhaid ichi gadw'r wybodaeth mewn fformat hawdd ei gael a'i darparu pan ofynnir amdani. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gwybodaeth yn eisiau neu nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw.<br>Mae gwybodaeth yn cael ei chadw ond nid mewn ffordd systematig. Nid oes modd ei darparu o fewn amser rhesymol pan ofynnir amdani.<br>Bydd y mentrau hyn yn cynnwys:<br>• Godro, Wyau, Da Byw gan gynnwys eidion, defaid, moch a dofednod (cynhyrchu cig);<br>• Ydau (cnydau y gellir eu combeinio);<br>• Garddwriaeth;<br>• Tatws a gwreiddgnydau eraill. | **Effaith ar y fferm** | **Isel:** y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael ond mae'n anghyflawn.<br>**Canolig:** system wael neu anfoddhaol ar gyfer cadw'r wybodaeth. Ddim yn gallu bodloni gofynion yr archwiliad yn llawn.<br>**Uchel:** dim system a dim gwybodaeth yn cael ei chadw, hynny ar ôl profi'r system olrhain a rhannu'r busnes yn fentrau gwahanol gan archwilio dau beth sy'n cael eu cyflenwi a dau beth sy'n gadael ar fenter cadw da byw a dau beth sy'n gadael ar fenter ydau/cnydau. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| Bwyd a hylendid bwyd | |
|---|---|
| Pwysig: Nid yw Rheolau A4 – A9 yn ymwneud â'r symiau bychain o gynnyrch cynradd a werthir yn uniongyrchol gan y cynhyrchydd i'r defnyddiwr olaf (er enghraifft, gwerthiannau wrth glwyd y fferm) neu i siopau lleol sy'n gwerthu'r cynnyrch i'r defnyddiwr olaf. | |
| A4 | Rhaid storio a thrafod gwastraff a sylweddau peryglus rhag iddynt lygru bwyd neu borthiant. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae tystiolaeth bod gwastraff neu sylwedd peryglus wedi'i gamddefnyddio neu ei gam-drin.<br>Mae gwastraff neu sylwedd peryglus wedi'i storio'n amhriodol.<br>Er nad yw hon yn rhestr gyflawn, gall gwastraff a sylwedd peryglus gynnwys: slyri, dŵr budr, dŵr ffo, sudd silwair, metel gwast, batrïau, dip defaid, cynnyrch amddiffyn planhigion a bioladdwyr, gwrtaith, cynnyrch milfeddygol, cemegau, diesel, naddion metel. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** (digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant). | **Isel:** gwastraff neu sylweddau peryglus wedi'u camstorio neu eu camdrafod gan arwain at gynyddu'r perygl o lygru.<br>**Canolig:** llygru difrifol yn sgil camddefnyddio neu gamdrafod gwastraff neu sylweddau peryglus. Mae'r cynnyrch yn dal i fod ar y fferm. Nid yw'n debygol o effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl.<br>**Uchel:** achosion difrifol wedi arwain at glefydau sy'n cael eu cario gan fwyd, gan effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. Nid yw'r ffermwr wedi ceisio rheoli na rhwystro'r tramgwydd. | **Parhaol:** dim ond os bu digwyddiad sydd wedi effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant y tu hwnt i ffiniau'r fferm, ac nad oes modd ei olrhain.<br>Fel arall, yn gallu cael ei dynnu'n ôl.<br>neu<br>**Modd ei gywiro:** pob achos arall. |

| | |
|---|---|
| A5 | Rhaid storio porthiant ar wahân i gemegion a chynhyrchion eraill sydd wedi'u gwahardd rhag eu defnyddio fel porthiant. |
| A6 | Rhaid trafod porthiant meddyginiaethol a heb feddyginiaeth ar wahân rhag i'r naill lygru'r llall a storio porthiant meddyginiaethol yn y fath fodd fel na ellir ei fwydo trwy gamgymeriad i anifeiliaid na ddylai ei fwyta. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r porthiant yn cael ei storio ar wahân neu mae'n cyffwrdd â chynnyrch gyda'r potensial i'w lygru.<br>Nid yw'r porthiant meddyginiaethol wedi'i labelu'n glir ac nid yw'n cael ei storio ar wahân i'r porthiant heb feddyginiaeth. Nid oes rhwystr neu fagiau i'w gwahanu yn y storfa.<br>Nid oes cyfleusterau ar wahân i drafod porthiant meddyginiaethol. | **Effaith ar y fferm:**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** where digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant. | **Isel:** bwyd yn cael ei gamstorio a'i gam-drin er nad yw mewn cysylltiad â phorthiant meddyginiaethol na sylweddau peryglus eraill. Nid yw'r tramgwydd yn debygol o effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl.<br>**Canolig:** llygru difrifol yn sgil camddefnyddio neu gamstorio porthiant sydd wedi dod i gysylltiad â chemegion neu fod porthiant meddyginiaethol wedi llygru porthiant heb feddyginaeth. Mae'r cynnyrch yn dal ar y fferm. Nid yw'n debygol o effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl.<br>**Uchel:** achosion sydd wedi arwain at glefydau neu salwch sy'n cael eu cario mewn bwyd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. Nid yw'r ffermwr wedi ceisio rheoli na rhwystro'r tramgwydd. | **Parhaol:** os bu digwyddiad sydd wedi effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant y tu hwnt i ffiniau'r fferm, ac nad oes modd ei olrhain.<br>neu<br>**Modd ei gywiro:** pob achos arall. |

| A7 | Rhaid i'r porthiant rydych yn ei brynu neu yn ei ddefnyddio ar gyfer anifeiliaid cynhyrchu bwyd ddod o sefydliad sydd wedi'i gofrestru a/neu ei gymeradwyo gan eich awdurdod lleol. Yn achos porthiant meddyginiaethol neu borthiant sy'n cynnwys ychwanegion penodol, rhaid i'r rheini ddod o sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth bod y ffermwr yn prynu a/neu'n defnyddio porthiant o sefydliad sydd heb ei gofrestru/gymeradwyo. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant. | **Isel:** mae'r porthiant/porthiant meddyginiaethol/porthiant sy'n cynnwys ychwanegion yn dod o sefydliad sydd heb ei gofrestru/gymeradwyo yn unol â Chyfraith yr UE a Ddargedwir 183/2005 ond nid yw'r porthiant wedi'i lygru ac nid oes perygl i iechyd pobl nac anifail.<br>**Uchel:** mae'r porthiant/porthiant meddyginiaethol/porthiant sy'n cynnwys ychwanegion yn dod o sefydliad sydd heb ei gofrestru/gymeradwyo yn unol â Chyfraith yr UE a Ddargedwir 183/2005 ac wedi arwain at glefyd sy'n cael ei gario mewn bwyd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. Wedi'i gysylltu â marwolaeth/salwch anifail. | **Parhaol:** os bu digwyddiad sydd wedi effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant y tu hwnt i ffiniau'r fferm, ac nad oes modd ei olrhain.<br>neu<br>**Modd ei gywiro** |

| | |
|---|---|
| A8 | Rhaid defnyddio ychwanegion, cynnyrch milfeddygol, cynnyrch amddiffyn planhigion a bioladdwyr yn gywir (os ydych yn eu defnyddio ar eich fferm) yn unol â'r ddôs, pwrpas a chyfarwyddiadau sydd ar y label neu'r presgripsiwn. Mae hyn yn cynnwys gofalu nad yw'r bwyd rydych yn ei gynhyrchu yn cynnwys gweddillion plaladdwyr na meddyginiaethau milfeddygol sy'n uwch na'r terfyn gweddillion uchaf a ganiateir ar gyfer y moddion a ddefnyddir. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth bod ychwanegion, cynnyrch milfeddygol, cynnyrch amddiffyn planhigion neu fioladdwyr yn cael eu camddefnyddio.<br>Er enghraifft:<br>• heb ei gymysgu neu ei storio'n iawn;<br>• dim label;<br>• wedi mynd heibio'r dyddiad 'defnyddiwch cyn';<br>• heb ei ddefnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau/ ddôs sydd ar y label (daw'r dystiolaeth o'r cofnodion defnyddio);<br>• heb gadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' (daw'r dystiolaeth o'r cofnodion milfeddygol). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant. | **Canolig:** llygru difrifol yn sgil peidio â storio'r porthiant ar wahân neu yn sgil gorfwydo porthiant meddyginiaethol neu ei fwydo i'r rhywogaeth anghywir. Nid yw'n debygol o effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl.<br>**Uchel:** achosion difrifol wedi arwain at effeithiau uniongyrchol ar iechyd pobl. Nid yw'r ffermwr wedi ceisio rheoli na rhwystro'r tramgwydd. | **Parhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi rhoi bwyd ar y farchnad ac ar ôl dadansoddi sampl ohono a chymryd ansicrwydd y mesur i ystyriaeth, gwelir bod gweddillion plaladdwyr sy'n uwch na'r lefel gweddillion uchaf a ganiateir ar gyfer plaladdwyr yn y bwyd a brofwyd. | **Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:**<br>• Ceir cymeradwyaeth i ddefnyddio plaladdwr ar y cnwd, ond ceir mwy na'r terfyn gweddillion uchaf o'r plaladdwr hwnnw ar y cnwd.<br>• Nid oes pryderon o ran diogelwch nag iechyd o ganlyniad i fynd yn groes i'r terfyn gweddillion uchaf.<br>**Uchel:**<br>• Nid oes awdurdod i ddefnyddio'r plaladdwr ar unrhyw gnwd ym Mhrydain.<br>• Nid oes awdurdod i ddefnyddio'r plaladdwr ar y cnwd dan sylw.<br>• Mae pryderon ynghylch diogelwch lefel gweddillion y plaladdwr a welwyd. | **Parhaol** |
| | Mae'r ffermwr wedi gwerthu neu gyflenwi anifail ar gyfer ei ladd neu wedi gwerthu/cyflenwi llaeth, wyau neu fêl ac ar ôl dadansoddi sampl, gwelir ei fod yn cynnwys mwy na'r terfyn gweddillion uchaf a ganiateir o feddyginiaeth filfeddygol sydd wedi'i gymeradwyo, neu sylwedd sydd heb ei gymeradwyo. | **Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:**<br>• Mae'r moddion yn gynnyrch cymeradwy, ond ceir mwy na'r terfyn gweddillion uchaf a ganiateir o'r moddion hwnnw.<br>• Nid oes pryderon o ran diogelwch nag iechyd o ganlyniad i fynd yn groes i'r terfyn gweddillion uchaf.<br>**Uchel:**<br>• Nid oes awdurdod i ddefnyddio'r moddion mewn anifeiliaid cynhyrchu bwyd yn y DU.<br>• Ceir pryderon o ran diogelwch neu iechyd oherwydd lefel gweddillion y moddion. | **Parhaol** |

| | |
|---|---|
| A9 | Rhaid cadw cofnod o bob un o'r canlynol sy'n berthnasol i'ch busnes a'u dangos i'r archwilydd pan ofynnir amdanynt:<br>• cynnyrch milfeddygol neu driniaethau eraill sy'n cael eu rhoi i'ch anifeiliaid, gan gynnwys dyddiad y driniaeth a'r cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd';<br>• cynnyrch amddiffyn planhigion a bioladdwyr;<br>• canlyniad unrhyw brofion ar samplau o anifeiliaid cynhyrchu bwyd, planhigion, porthiant anifeiliaid neu samplau eraill at ddiben diagnostig sy'n bwysig o safbwynt iechyd pobl a'u cymryd i ystyriaeth;<br>• adroddiadau perthnasol ar archwiliadau a wnaed ar anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid;<br>• hadau â'u geneteg wedi'u haddasu, sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu porthiant. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Dim cofnodion wedi'u cadw neu'r cofnodion yn anghyflawn a/neu heb gael eu dangos pan ofynnir amdanynt.<br>**Pwysig**<br>(a) Bydd arolygwyr yn debygol o gyfyngu'r archwiliad i un sy'n cadarnhau bod y cofnodion milfeddygol yn bod a'u bod yn weddol gyflawn.<br>(b) Enghraifft bosibl yw cofnod llaeth fyddai'n dangos pa anifeiliaid sydd â chyfrif celloedd somatig rhy uchel.<br>(c) Enghraifft bosibl yw cofnodion TBC/SCC/gwrthfiotig y prynwr.<br>**Ar gyfer (b) a (c)** mae'r arolygydd yn cadarnhau bod y ffermwr yn cadw'r canlyniadau gyda'i gofnodion; nid oes gofyn i'r arolygydd ddehongli'r canlyniadau. | **Effaith ar y fferm** | **Isel:** gwybodaeth ar goll neu gamgymeriadau.<br>Mae modd eu cywiro ac mae modd cynnal asesiad llawn.<br>**Canolig:** cofnodion rhannol/anghyflawn.<br>Digon o wybodaeth i ganiatáu asesiad rhannol.<br>**Uchel:** dim cofnodion. | **Modd ei gywiro:** os oes modd cywiro'r cofnodion gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar y fferm adeg yr archwiliad<br>neu<br>**Barhaol:** os nad oes cofnodion neu os nad oes modd cywiro'r cofnodion. |
| | Mae canlyniadau'r dadansoddiad yn dangos bod perygl posibl i iechyd pobl ac nad yw'r ffermwr wedi cymryd camau i atal y perygl. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** yn annhebygol o gael effaith andwyol ar iechyd pobl.<br>**Uchel:** yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd pobl. | **Parhaol** |

| A10 | Rhaid cymryd mesurau digonol rhag cyflwyno a lledaenu clefydau heintus i bobl trwy fwyd.<br>Rhaid ichi:<br>• sicrhau'ch bod yr holl anifeiliaid cymwys yn cydymffurfio â mesurau cadw golwg a bwlch profion TB y fuches genedlaethol;<br>• cynnal profion cyn symud statudol ar eich anifeiliaid – 60 diwrnod cyn eu symud (Sylwer: nid yw'r profion cyn symud yn ofyn ym mhob plwyf/buches; rhaid i ffermwyr gadw siart profion TB52 am 60 diwrnod + 3 blynedd);<br>• cadw at fesurau gofalus pan ddaw anifeiliaid i'r fferm (e.e. eu cadw ar wahân i weddill y fuches/diadell i weld a oes clefyd arnynt);<br>• hysbysu'r awdurdod perthnasol am achos o glefyd ar eich fferm (Sylwer: hynny yw, y milheintiau hysbysadwy);<br>• hysbysu'r awdurdodau perthnasol am arwyddion clefydau posibl (e.e. erthyliadau). |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Heb sicrhau bod yr holl anifeiliaid cymwys yn cydymffurfio â mesurau cadw golwg a bwlch profion ar gyfer TB.<br>Mae agweddau eraill ar y mesurau hyn yn ymdrin â safonau penodol ar gyfer llaeth amrwd. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** os oes anifeiliaid wedi'u symud o'r fferm. | **Isel Iawn:** eich bod rhwng 1 diwrnod a 10 niwrnod (yn gynwysedig) yn hwyr yn cynnal y prawf.<br>**Canolig:** eich bod rhwng 11 niwrnod a 30 niwrnod (yn gynwysedig) yn hwyr yn cynnal prawf.<br>**Uchel:** eich bod mwy na 30 diwrnod yn hwyr yn cynnal prawf neu fod anifeiliaid o dan gyfyngiadau wedi'u symud. | **Parhaol** |
| | **BWRIADOL:**<br>Pan fydd rhybudd ar gyfer prawf gorfodol wedi'i roi, bydd tramgwydd yn cael ei ystyried yn dramgwydd bwriadol.<br>Pan wrthodir prawf gorfodol, bydd yn dramgwydd bwriadol 100%. | | Mae peidio â chydymffurfio wedi arwain at glefyd sy'n cael ei gario mewn bwyd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. | |
| | Methiant i gydymffurfio â'r drefn statudol o brofi anifeiliaid cyn a/neu ar ôl eu symud. | **Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel:** lle bo peidio â chydymffurfio wedi arwain at glefyd sy'n cael ei gario mewn bwyd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. | **Parhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth glir nad oes gan y ffermwr system i gymryd mesurau gofalus pan fydd anifail newydd yn cyrraedd y fferm (e.e. ddim yn cael ei gadw ar wahân i weld a yw'n cario clefyd neu beidio). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** lle gellir profi bod digwyddiad sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd/porthiant wedi digwydd. | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel:** lle bo peidio â chydymffurfio wedi arwain at glefyd sy'n cael ei gario mewn bwyd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Parhaol:** (dim ond lle bu digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant). |
| | Nid yw'r ffermwr wedi rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol bod clefyd ar y fferm.<br>**Pwysig:** Y clefydau hyn yw'r milheintiau hysbysadwy.<br>Tystiolaeth nad yw'r ffermwr wedi rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol am arwyddion clefyd posibl (e.e. erthyliadau). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** lle gellir profi bod digwyddiad sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd/porthiant wedi digwydd. | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel:** lle bo peidio â chydymffurfio wedi arwain at glefyd sy'n cael ei gario mewn bwyd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Parhaol** |

| Os ydych yn cynhyrchu llaeth amrwd (o unrhyw rywogaeth) neu'n trafod llaeth amrwd, rhaid cadw at yr amodau ychwanegol isod: | |
|---|---|
| B1 | Rhaid ichi sicrhau bod llaeth amrwd yn dod o anifeiliaid sydd:<br>(a) yn gyffredinol iach eu hiechyd<br>(b) heb arwyddion o glefyd a allai heintio'r llaeth<br>(c) heb glwyf ar eu cadair/pwrs sy'n debygol o effeithio ar y llaeth<br>(d) nad ydynt yn y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' ar ôl cael cynnyrch neu sylwedd awdurdodedig<br>(e) heb gael cynnyrch neu sylwedd heb ei awdurdodi |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | (a – c) Tystiolaeth bod llaeth o anifail sy'n dangos arwyddion o afiechyd (arwyddion y byddai'n rhesymol disgwyl i rywun nad yw'n filfeddyg sylwi arnynt e.e. llid, llif, chwydd, clwyf ar y gadair/pwrs) wedi'i roi yn y tanc llaeth. | Effaith ar y fferm<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Isel: y llaeth yn mynd i gaerl ei drin â gwres.<br>Uchel: ni fydd y llaeth yn cael ei drin â gwres. | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | (d) Tystiolaeth bod llaeth o anifeiliaid sydd wedi'u trin heb gael ei gadw o'r gadwyn fwyd am y cyfnod gofynnol ac wedi cael ei roi yn y tanc llaeth. | Effaith ar y fferm<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | (e) Tystiolaeth bod llaeth o anifail sydd wedi'i drin â sylwedd sydd heb ei awdurdodi wedi'i roi yn y tanc llaeth. | Effaith ar y fferm<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| B2 | Rhaid ichi sicrhau bod y llaeth amrwd yn dod o anifeiliaid sy'n perthyn i fuches ag iddi statws di-glefyd o ran twbercwlosis a brwselosis. Os nad yw'ch daliad/buches yn ddi-glefyd, gyda chaniatâd yr awdurdod cymwys, cewch werthu llaeth yr anifeiliaid sydd heb adweithio cyn belled â'i fod yn cael ei drin â gwres cyn ei werthu i'w yfed gan bobl. Rhaid i laeth defaid neu eifr ddod o ddiadell sydd â statws heb frwselosis swyddogol (OBF). Ond gyda chaniatâd awdurdod cymwys, rydych yn cael cynhyrchu caws os yw'n cymryd o leiaf deufis i aeddfedu.<br>Mae cyngor yr FSA i fusnesau ar gofrestru ac archwilio busnesau llaeth yn rhoi mwy o wybodaeth ar sut i wneud cais i gofrestru daliad cynhyrchu llaeth. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth nad yw llaeth sy'n dod o anifeiliaid sydd wedi adweithio neu fuchesi/diadellau sydd wedi colli eu statws di-glefyd yn cael ei anfon ar gyfer ei drin â gwres er ei fod ar gyfer ei yfed gan bobl. (Triniaeth â gwres neu gynhyrchu caws â chyfnod aeddfedu o ddeufis).<br>**Pwysig:** Mae'r driniaeth briodol yn dibynnu ar y statws di-glefyd a gollwyd a'r rhywogaeth dan sylw. Ceir mwy o wybodaeth yng Nghyfraith yr UE a Ddargedwir Rheoliad EC 853/2004, Atodiad III, adran IX, Pennod 1. | **Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** pob sefyllfa oni bai bod y cynhyrchydd wedi gwerthu llaeth amrwd yn syth i'r defnyddiwr olaf.<br>**Uchel:** os ydy'r cynhyrchydd yn gwerthu llaeth amrwd yn syth i'r defnyddiwr olaf. | **Parhaol** |

| | |
|---|---|
| B3 | Rhaid ichi gadw anifeiliaid sydd wedi cael eu heintio neu yr amheuir eu bod wedi cael eu heintio gan frwselosis neu dwbercwlosis ar wahân rhag iddynt effeithio'n andwyol ar laeth anifeiliaid eraill. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth nad yw'r ffermwr wedi ynysu anifeiliaid heintiedig neu sydd o dan amheuaeth. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** cysylltiad ag anifeiliaid eraill y fuches ac mae'r llaeth wedi'i drin â gwres.<br>**Uchel:** cysylltiad â da byw ar ddaliadau cyffiniol ac mae'r llaeth wedi'i drin â gwres. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| B4 | Rhaid sicrhau bod yr offer godro a’r man storio, trin ac oeri llaeth wedi’i leoli a’i adeiladu fel ag i gadw’r perygl o lygru’r llaeth mor fach â phosibl. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Man trin a storio llaeth mewn lle gwael neu o adeiladwaith gwael. Mae tystiolaeth bod perygl mawr o lygru’r offer godro gan ei fod yn cael ei gadw’n agos i ddeunydd peryglus a/neu oherwydd adeiladwaith gwael y sied odro neu’r storfa laeth neu ddiffyg gwaith cynnal a chadw. | **Effaith ar y fferm** | **Isel iawn:** lle ceir problemau bach, heb ddim perygl o lygru.<br>**Canolig:** mae perygl bach y gallai’r problemau lygru’r llaeth. | **Modd ei gywiro** |

| | |
|---|---|
| B5 | Rhaid ichi sicrhau fod yr adeilad lle mae’r llaeth yn cael ei storio wedi’i ddiogelu rhag fermin – gan gynnwys adar a’u nythod, a’i fod wedi’i wahanu’n ddigonol oddi wrth adeiladau’r anifeiliaid. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw’r adeilad lle cedwir y llaeth wedi’i ddiogelu’n ddigonol rhag fermin a/neu ei wahanu oddi wrth yr adeiladau lle cedwir yr anifeiliaid. e.e. arwyddion o fermin neu ei fod yn rhannu’r un aer â mannau cadw anifeiliaid. | **Effaith ar y fferm** | **Canolig:** achos difrifol o fermin, adeiladau anifeiliaid yn rhy agos, offer oeri annigonol a’r llaeth yn dal i fod ar y fferm. Nid yw’r diffyg cydymffurfio’n debygol o effeithio’n uniongyrchol ar iechyd pobl.<br>**Uchel:** mewn achosion eithafol, mae’r diffyg cydymffurfio wedi arwain at glefyd sy’n cael ei gario yn y llaeth gan effeithio’n uniongyrchol ar iechyd pobl neu nid yw’r ffermwr wedi ceisio rheoli na rhwystro’r tramgwydd. | **Modd ei gywiro** |

| | |
|---|---|
| B6 | Rhaid ichi sicrhau bod yr offer sy'n dod i gysylltiad â'r llaeth yn hawdd eu glanhau a'u diheintio (lle bo gofyn). |
| B7 | Rhaid ichi lanhau (a diheintio lle bo gofyn) yr offer sy'n dod i gysylltiad â'r llaeth ar ôl eu defnyddio, a'u cadw mewn cyflwr da. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | • Mae tystiolaeth bod yr offer sy'n dod i gysylltiad â'r llaeth wedi'u gwneud o ddeunydd sy'n anodd ei lanhau/neu nad ydynt yn cael eu cadw mewn cyflwr da.<br>• Tystiolaeth nad oes deunydd llyfn, golchadwy a diwenwyn yn cael ei ddefnyddio.<br>• Tystiolaeth bod yr offer yn frwnt.<br>• Mae tystiolaeth bod yr arwynebau sy'n dod i gysylltiad â llaeth yn y parlwr godro neu'r storfa laeth yn frwnt neu wedi'u llygru (e.e. hen laeth/llwydni/llaeth wedi caledu). | **Effaith ar y fferm** | **Isel:** gan ddibynnu ar lefelau'r llygru a lleoliad y llygru.<br>**Canolig:** gan ddibynnu ar lefelau'r llygru a lleoliad y llygru. | **Modd ei gywiro** |

| B8 | Rhaid cynnal safonau hylendid uchel wrth odro; ac yn arbennig, gofalwch:<br>a) cyn dechrau godro, bod y tethi, y gadair/pwrs a'r rhannau o'u cwmpas yn lân<br>b) eich bod yn gwybod pa anifeiliaid sy'n derbyn meddyginiaeth a fyddai'n debygol o adael ei hôl yn y llaeth<br>c) nad yw llaeth o anifail sy'n dal i fod yn y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' ar ôl moddion yn cael ei roi i'w fwyta i bobl |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | (a) nid yw'r tethi na'r gadair yn lân cyn rhoi'r peiriant ar y tethi. Nid yw'r trefniadau na'r cyfleusterau yn ddigon da i sicrhau bod yr anifeiliaid yn cael eu glanhau'n lân. | **Effaith ar y fferm** | **Isel Iawn:** pob sefyllfa heblaw pan fydd y cynhyrchydd yn gwerthu llaeth amrwd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf.<br>**Uchel:** os bydd y cynhyrchydd yn gwerthu llaeth amrwd i'r defnyddiwr olaf. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | (b) nid yw'r ffermwr yn gwybod pa anifeiliaid sy'n derbyn meddyginiaeth a fyddai'n debygol o adael ei hôl yn y llaeth neu sy'n dal i fod yn y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd'. | **Effaith ar y fferm** | **Isel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | (c) nid yw'r anifeiliaid hyn yn cael eu godro olaf, gyda'r biben gludo wedi'i datgysylltu oddi wrth y tanc llaeth neu gan ddefnyddio offer ar wahân e.e. peiriant a chwpanau gwahanol.<br>**Pwysig:** Gallai peidio â gwneud hyn olygu y gallai llaeth yr anifeiliaid hyn gael ei werthu i'w fwyta gan bobl. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| B9 | Rhaid cadw'r llaeth yn syth ar ôl godro mewn lle glân sydd wedi'i lunio a'i drefnu i gadw'r llaeth yn lân. Rhaid bod gennych offer oeri addas i allu cadw at y rheolau oeri llaeth ar ôl godro:<br>Rhaid oeri'r llaeth ar unwaith i:<br>• ddim mwy na 8°C os yw'n cael ei gasglu bob dydd;<br>• ddim mwy na 6°C os nad yw'n cael ei gasglu bob dydd |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae tystiolaeth nad yw'r llaeth yn cael ei storio'n iawn. Nid yw'r storfa'n addas, glân, neu nid yw wedi'i gwneud o ddeunydd hawdd ei lanhau sy'n diogelu'r llaeth rhag cael ei lygru. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** storfa anaddas (ond dim llygru).<br>**Canolig:** storfa anaddas sy'n arwain at lygru ac yn debygol o arwain at effaith uniongyrchol ar iechyd pobl.<br>**Uchel:** storfa anaddas sy'n arwain at lygru difrifol a pherygl arwyddocaol o gael effaith uniongyrchol ar iechyd pobl. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Nid yw'r llaeth wedi cael ei oeri mewn amser rhesymol (2 awr) ar ôl ei odro a chyn ei gasglu.<br>(Pwysig Nid yw'n ymarferol oeri'r llaeth ar unwaith ym mhob sefyllfa).<br>Mae tystiolaeth nad yw'r llaeth yn cael ei storio neu ei oeri'n iawn. Hynny'n amlwg o ddarllen taflenni'r tancer a/neu trwy gymryd tymheredd y llaeth. | **Effaith ar y fferm:** ni fydd y llaeth yn cael ei gasglu gan y prynwr.<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd a bod y llaeth wedi gadael y fferm. | **Isel Iawn:** nid yw'r tramgwydd yn debygol o effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl.<br>**Canolig:** os ydy'r tramgwydd yn ddatblygiad diweddar iawn ac nad oes dim, os o gwbl, yn cael ei wneud i gywiro'r sefyllfa.<br>**Uchel:** mae'n amlwg nad yw'r cyfleusterau'n gweithio'n iawn neu eu bod yn anaddas ar gyfer y swm o laeth sy'n cael ei storio (e.e. tanciau ychwanegol y tu allan i'r llaethdy heb offer oeri) a does dim yn cael ei wneud i gywiro'r sefyllfa. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| Os ydych yn gynhyrchydd wyau, rhaid cadw at y rheolau ychwanegol hyn | |
|---|---|
| C1 | Rhaid ichi gadw'r wyau'n lân ac yn sych, mewn lle diarogl, allan o lygad yr haul a'u hamddiffyn rhag eu torri. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r wyau'n cael eu cadw o dan amodau anaddas. (E.e. wrth beiriannau amaeth sy'n symud, yn sied y tractor, wrth gannydd neu diesel).<br>Mae hyn yn berthnasol i'r holl wyau yn eu masgl a gynhyrchir gan adar fferm. | **Effaith ar y fferm:** pan nad yw'r wyau wedi gadael y fferm.<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd; mae'r wyau wedi gadael y fferm. | **Isel Iawn** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

# SMR 5: Cyfyngiadau ar ddefnyddio betaweithyddion a sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig ar anifeiliaid fferm

| | |
|---|---|
| Amcan y gofynion hyn yw rhoi stop ar roi sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig a betaweithyddion yn anghyfreithlon i anifeiliaid fferm a gofalu nad yw'r gweddillion y mae'r sylweddau hyn yn eu gadael mewn cig yn cael ymuno â chadwyn fwyd pobl neu anifeiliaid. Maen nhw'n berthnasol i chi os ydych chi'n cadw anifeiliaid fferm. | |
| A1 | Peidiwch â rhoi sylweddau gwaharddedig i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd (oni bai'ch bod wedi cael caniatâd). |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi rhoi sylweddau cyfyngedig sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig a betaweithyddion i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd.<br>**Pwysig:** mae rhai eithriadau:<br>• Mae milfeddygon, neu ffermwyr o dan gyngor milfeddyg, yn cael rhoi cynnyrch milfeddygol trwyddedig sy'n cynnwys betaweithyddion ar bresgripsiwn gan filfeddyg i geffylau ac anifeiliaid anwes.<br>• Mae milfeddyg yn cael rhoi cynnyrch milfeddygol trwyddedig sy'n cynnwys betaweithyddion ar bresgripsiwn gan filfeddyg trwy chwistrelliad i drin tocolysis neu i sbarduno tocolysis mewn buwch sy'n dod â llo.<br>• Mae milfeddygon, neu ffermwyr o dan gyngor milfeddyg, yn cael rhoi cynnyrch milfeddygol trwyddedig sy'n cael effaith gestogenig, oestrogenig (ond nid oestradiol 17 ß a deilliadau esteraidd ohono) neu androgenig ar bresgripsiwn gan filfeddyg, i gael gwartheg i ddod yn wasod yr un pryd neu i baratoi gwartheg sy'n rhoi neu'n derbyn embryonau ar gyfer eu mewnblannu. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** dim ond os ceir bod yr anifeiliaid dan sylw ar y fferm ac nad oes cynnyrch wedi ymuno â'r gadwyn fwyd.<br>neu<br>**Parhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Pwysig:** Ceir tystiolaeth o'r tramgwydd mewn samplau a geir o anifeiliaid byw neu o ladd-dai. Bydd betaweithyddion neu sylweddau gwaharddedig sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig mewn porthiant neu ddŵr, hefyd yn cyfrif fel tystiolaeth.<br>Dim ond milfeddyg y ffermwr neu fferyllfa gofrestredig ym Mhrydain sy'n gweithredu ar bresgripsiwn gan filfeddyg sy'n cael cyflenwi'r cyffuriau y mae SMR 5 yn ymdrin â nhw. Er hynny, nid yw cael cyffuriau o'r fath o le heb awdurdod ynddo'i hun yn golygu'ch bod wedi torri'r SMR hwn os yw'r cyffur wedi'i drwyddedu ym Mhrydain a bod presgripsiwn ar ei gyfer. | | | |

| A2 | Ni chaniateir sylweddau ar eich fferm sy'n sbarduno tocolysys mewn buwch sy'n dod â llo. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gan y ffermwr sylwedd sy'n cynnwys betaweithyddion allai gael eu defnyddio at bwrpas sbarduno geni lloi wrth drin tocolysis.<br>Pwysig: Mae'n bosibl na fydd copi ysgrifenedig o'r presgripsiwn ar gael ar y fferm. Ond dylai'r ffermwr allu dangos pwy roddodd y presgripsiwn a dylid gallu cadarnhau hynny. Gan fod gofyn i ffermwyr gadw prawf prynu milfeddyginiaeth am 5 mlynedd, dylent allu dweud gan bwy y cawsant y cyffur.<br>Mae hawl defnyddio rhai sylweddau cyfyngedig ar bobl neu anifeiliaid anwes. Os ydy'r arolygydd yn fodlon bod y cyffur yn cael ei ddefnyddio at y pwrpas hwnnw, ni fydd y ffermwr wedi torri SMR 5. Os bydd gan y ffermwr feddiant anghyfreithlon arno, neu os amheuir hynny, bydd yn rhaid asesu a yw hefyd wedi rhoi'r cyffur yn anghyfreithlon (gweler uchod).<br>Rhaid i arolygwyr gofio hefyd y gallai'r ffermwr fod wedi cael y cyffuriau'n gwbl gyfreithlon, ond eu bod erbyn hyn yn ddiawdurdod. Mae'n anghyfreithlon bod â'r meddyginiaethau hyn yn eich meddiant. | **Effaith ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** gan y gall arolygydd sydd wedi'i benodi o dan y Rheoliadau Milfeddyginiaetha u atafaelu'r sylweddau anghyfreithlon. |

| A3 | Ni fydd gennych anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ar eich fferm sydd wedi cael sylweddau cyfyngedig (ac eithrio o dan yr eithriadau a ganiateir). |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gan yr anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd sydd ym meddiant ffermwr weddillion yn eu meinwe neu eu hylifau corfforol sy'n dangos bod betaweithyddion neu sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig wedi cael eu rhoi'n anghyfreithlon iddynt.<br>Mae gan yr anifeiliaid sydd ym meddiant ffermwr weddillion yn eu meinwe neu eu hylifau corfforol sy'n dangos bod mwy o'r sylwedd wedi'i roi i'r anifail nag a ganiateir yng nghyfarwyddiadau SMR 5 dosio'r cynnyrch. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm**<br>**Pwysig:** Os gwelir bod anifail neu gynnyrch anifail wedi gadael y fferm, bydd angen ystyried a oes tramgwydd wedi digwydd o dan A4 a/neu A5. | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** os oes modd difa'r anifeiliaid dan sylw.<br>neu<br>**Barhaol** |

| A4 | Peidiwch â rhoi anifeiliaid y mae sylwedd cyfyngedig wedi'i roi iddynt ar y farchnad na'u hanfon i'w lladd i'w bwyta gan bobl (ac eithrio o dan yr eithriadau a ganiateir). |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gan yr anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd y mae'r ffermwr wedi'u rhoi ar y farchnad neu eu hanfon i'w lladd i'w bwyta gan bobl weddillion yn eu meinwe neu eu hylifau corfforol sy'n dangos bod betaweithyddion neu sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig wedi cael eu rhoi'n anghyfreithlon iddynt.<br>Caniateir rhai eithriadau – gweler Rheoliad 9 o OS 1997 rhif 1729. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** os nad yw'r anifeiliaid wedi cael eu gwerthu (bod modd eu difa).<br>neu<br>**Barhaol:** os yw'r anifeiliaid eisoes wedi'u gwerthu (dyna sydd wedi digwydd fel arfer). |

| A5 | Peidiwch â rhoi ar y farchnad gig neu gynnyrch arall o anifail y cafodd sylwedd cyfyngedig ei roi iddo (ac eithrio o dan eithriadau a ganiateir). |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi rhoi ar y farchnad gig neu gynnyrch anifail o anifeiliaid â gweddillion ynddynt sy'n dangos bod betaweithyddion neu sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig wedi cael eu rhoi'n anghyfreithlon iddynt. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith odd ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** os oes modd rhwystro'r cynnyrch rhag ymuno â'r gadwyn fwyd.<br>neu<br>**Barhaol:** os nad oes modd rhwystro'r cynnyrch rhag ymuno â'r gadwyn fwyd. |

| B1 | Rhaid ichi gadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' perthnasol os cafodd sylwedd cyfyngedig ei roi i'r anifail cynhyrchu bwyd (gan ystyried yr eithriadau a ganiateir). |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r ffermwr wedi cadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' lle bo sylwedd cyfyngedig wedi'i roi i anifeiliaid cynhyrchu bwyd.<br>Ar hyn o bryd, nid oes meddyginiaethau trwyddedig â thyrostatau ynddyn nhw ar gyfer anifeiliaid fferm.<br>Dim ond anifeiliaid sy'n cael eu lladd neu anifeiliaid byw sy'n cynhyrchu bwyd (llaeth neu wyau fel arfer) sy'n gorfod cael eu cadw o'r gadwyn fwyd am gyfnod penodol. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |

| | |
|---|---|
| B2 | Rhaid sicrhau bod cofnodion milfeddygol am roi sylweddau cyfyngedig ar gael i'r awdurdod perthnasol neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod perthnasol eu gweld pan ofynnir amdanynt. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Peidio â chadw cofnod o'r triniaethau a ganiateir ar anifeiliaid cynhyrchu bwyd gyda betaweithyddion neu sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd – yn groes i Reoliad 18 (os mai milfeddyg sy'n eu rhoi) neu Reoliad 19 (os mai'r ffermwr sy'n eu rhoi) o'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol.<br>Mae asesu cofnodion meddyginiaethau yn aml yn rhan o drefn gwaith Iechyd Anifeiliaid wrth archwilio ffermydd.<br>Lle bo eithriad yn caniatau i ffermwr roi sylwedd sy'n dod o dan SMR 5, mae dal gofyn cadw cofnodion yn unol â'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol a bydd peidio â gwneud yn groes i SMR 5.<br>Rhaid i ffermwr gadw prawf ei fod wedi prynu milfeddyginiaeth am 5 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys prawf o brynu triniaethau sy'n ymwneud ag SMR 5. Felly, os oes gan ffermwr brawf iddo eu prynu ond dim cofnod neu gofnod anghyflawn o ddefnyddio cynnyrch SMR 5, gallai hynny fod yn dystiolaeth o drosedd. | **Effaith ar y fferm** | **Isel:** mân-fanylion heb eu cynnwys yn y cofnodion am roi sylweddau SMR 5 neu fân-gamgymeriadau, ond yr arolygydd yn dal yn gallu dweud ei fod wedi cadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' neu olrhain anifeiliaid sydd wedi'u trin.<br>**Canolig:** cofnodion rhoi sylweddau SMR 5 yn anghyflawn – dim on yn bosibl i'r arolygydd wneud asesiad rhannol bod y ffermwr wedi cadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' neu olrhain anifeiliaid wedi'u trin.<br>**Uchel:** dim cofnodion am roi sylweddau SMR 5 – neu'r arolygydd ddim yn gallu gweld bod y ffermwr wedi cadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' nac olrhain yr anifeiliaid sydd wedi'u trin. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Parhaol:** gan ddibynnu faint o amser sydd wedi mynd hebio ers rhoi'r driniaeth ac a oes gan y ffermwr wybodaeth fyddai'n caniatau iddo wneud cofnod. |

# SMR 6: Adnabod a Chofrestru Moch

| | |
|---|---|
| Amcan y gofynion hyn yw lleihau'r perygl o ledaenu clefydau moch, trwy reoli symudiadau moch a'u holrhain yn rhwydd. Bydd yn rhaid i bawb sy'n cadw moch gadw at y gofynion hyn. | |
| A1 | Rhaid cofrestru'ch manylion gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion o fewn 1 mis ar ôl sefydlu'ch daliad a rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau ) gan gynnwys rhoi'r gorau i gadw moch) o fewn 1 mis wedi iddynt ddigwydd. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw manylion yr ymgeisydd wedi'u cofrestru'n gywir gyda'r awdurdod cymwys na'u newid. | **Effaith ar y fferm** | **Canolig:** os nad yw'r manylion yn gyfoes.<br>**Uchel:** os nad yw'r ymgeisydd wedi cofrestru. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A2 | Rhaid marcio'ch moch trwy un o'r ffyrdd canlynol cyn iddyn nhw adael eich daliad, gan ddibynnu ar eu hoed a phen eu taith:<br>• Moch blwydd neu fwy, sy'n cael eu symud i unrhyw fath o farchnad, neu rhwng daliadau neu i'w lladd – slapfarc dwbl, tag clust neu datŵ gyda nod eich cenfaint arno;<br>• Moch o dan flwydd oed sy'n cael eu symud i unrhyw fath o farchnad neu i'w lladd – slapfarc dwbl, tag clust neu datŵ gyda nod eich cenfaint arno; neu<br>• Moch o dan flwydd oed sy'n cael eu symud rhwng daliadau – slapfarc dwbl, tag clust neu datŵ gyda nod eich cenfaint arno neu farc dros dro (paent). |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth bod moch heb y marc adnabod angenrheidiol arnynt wedi cael eu symud. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:**<br>**Absoliwt:** hyd at a chan gynnwys 5 anifail gafodd eu harchwilio heb eu marcio'n gywir.<br>**Canran:** hyd at a chan gynnwys 40% o'r anifeiliaid gafodd eu harchwilio heb farc adnabod cywir.<br>**Canolig:**<br>**Absoliwt:** mwy na 5 ond hyd at a chan gynnwys 10 o'r anifeiliaid gafodd eu harchwilio heb eu marcio'n gywir.<br>**Canran:** mwy na 40% ond hyd at a chan gynnwys 60% o'r anifeiliaid gafodd eu harchwilio heb farc adnabod cywir.<br>**Uchel:**<br>**Absoliwt:** mwy na 10 o'r anifeiliaid gafodd eu harchwilio heb eu marcio'n gywir.<br>**Canran:** mwy na 60% o'r anifeiliaid gafodd eu harchwilio heb farc adnabod cywir.<br>**Pwysig:** Y lefel difrifoldeb uchaf a welir sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrif lefel y gosb. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A3 | Peidiwch â thynnu marc adnabod na rhoi un newydd heb ganiatâd oni bai ei fod wedi'i golli, yn annarllenadwy neu'ch bod yn ei dynnu er lles y mochyn. Rhaid rhoi marc adnabod priodol yn ei le yn ôl y gofyn. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r marc adnabod wedi'i dynnu neu mae un newydd wedi'i roi yn ei le heb ganiatâd neu nid oes marc adnabod newydd wedi'i roi pan oedd angen un yn lle un a gollwyd. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |

| | |
|---|---|
| A4 | Cofnodion ar y fferm a symudiadau |
| | Rhaid cofnodi holl symudiadau'r moch sy'n cyrraedd/gadael eich daliad o fewn 36 awr wedi'r symudiad. Dylai'r cofnod:<br>• enw a chyfeiriad y sawl sy'n cadw'r cofnod;<br>• dyddiad y symudiad;<br>• rhif adnabod neu farc dros dro;<br>• nifer y moch;<br>• y daliad y daeth y moch ohono;<br>• y daliad y mae'r moch yn mynd iddo. |
| | Rhaid rhoi gwybod i eAML2 cyn symud moch o'ch daliad ac eithrio o dan yr amgylchiadau canlynol:<br>• eich bod tan 1 Ebrill 2012 yn rhoi dogfen wedi'i llenwi a'i harwyddo gan y ceidwad i'r person sy'n cludo'r moch. Bydd y ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen (a restrir isod);<br>• eich bod yn symud moch i farchnad neu ganolfan gasglu sy'n cytuno i roi gwybod ar-lein i system yr eAML2 ar y diwrnod pan fydd y moch yn cyrraedd;<br>• eich bod yn symud moch i filfeddygfa am driniaeth frys;<br>• eich bod yn symud moch i sioe heb wybod i ba daliad y bydd y moch yn cael eu symud iddo ar ôl y sioe (bydd yn rhaid rhoi gwybod ar-lein i system yr eAML2 neu Wasanaeth Biwro yr o fewn 3 niwrnod ar ôl eu symud o'r sioe).<br>Os na fyddwch wedi rhoi gwybod i system ar-lein yr eAML2 ac os nad yw'r eithriadau'n gymwys, rhaid rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani i Wasanaeth Biwro'r eAML2 dros y ffôn neu drwy lythyr. Peidiwch â symud unrhyw foch tan y bydd Gwasanaeth Biwro'r eAML2 wedi rhoi dogfen i chi sy'n cofnodi'r wybodaeth honno. |

| | |
|---|---|
| | Oni bai'ch bod yn symud moch i gael triniaeth filfeddygol frys, ar gyfer pob un o'r uchod, rhaid ichi roi'r wybodaeth ganlynol:<br>• cyfeiriadau llawn man cychwyn taith a phen taith y moch, gan gynnwys codau post a rhifau CPH;<br>• dyddiad y symudiad;<br>• nifer y moch sy'n cael eu symud;<br>• marc adnabod y moch a; a<br>• rhifau lot y moch (os ydy'r moch yn cael eu symud o farchnad). |
| | Wrth gludo moch, rhaid bod gennych ddogfen symud neu gryno'r cludwr. Bydd y ddogfen yn mynd gyda'r moch sy'n cael eu symud ac os nad yw'r symudiad wedi cael ei gofnodi ar-lein, rhaid i'r ceidwad arwyddo'r ddogfen. Os nad yw'r ceidwad sy'n derbyn yr anifeiliaid yn gallu rhoi gwybod ar-lein i'r system eAML2, rhaid ichi roi dau gopi o ddogfen symud neu gryno'r cludwr i'r ceidwad. |
| | Rhaid rhoi gwybod am symudiadau moch i'ch daliad o fewn 3 niwrnod trwy:<br>• gadarnhau ar-lein ar y system eAML2 bod y moch wedi cyrraedd (gan nodi unrhyw newidiadau); neu<br>• drwy rffonio biwro'r eAML2; neu<br>• anfon neges destun at wasanaeth negeseuon testun eAML2. |
| | Rhaid cadw copi o ddogfennau symud neu gryno'r cludwr am 6 mis ar ôl i'r moch gyrraedd eich daliad (oni bai'ch bod wedi rhoi gwybod ar-lein i'r system eAML2 eu bod wedi cyrraedd). |
| | Os ydych yn anfon moch i borthladd i'w cludo allan o Brydain Fawr, rhowch wybod ar-lein i'r system eAML2 neu anfonwch gopi o ddogfennau symud neu gryno'r cludwr at Wasanaeth Biwro'r eAML2 o fewn 3 niwrnod ar ôl i'r moch adael y daliad.<br>Ar foch y bwriedir eu hallforio bydd angen tag clust arnynt, gyda'r rhagddodiad 'UK', nod y cenfaint, rhif yr anifail a'r ôlddodiad 'GB' arno, NEU datŵ, gyda'r rhagddodiad 'UK', nod y cenfaint, rhif yr anifail a'r ôlddodiad 'GB' arno.<br>Os bydd marc adnabod yn cael ei golli neu'n mynd yn annarllenadwy, rhaid cofnodi manylion y marc adnabod sy'n cael ei roi yn ei le gan sefydlu'r cyswllt â rhif adnabod gwreiddiol yr anifail, oni bai bod y marc adnabod newydd union yr un fath â'r gwreiddiol. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Heb gadw dogfennau symud yn unol â'r gofynion cyfreithiol. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** trwydded neu gofnod eAML2 yn anghywir o'i gymharu â'r symudiadau a thrwydded heb ei chadw am y cyfnod gofynnol.<br>**Uchel:** dim trwydded na chofnod eAML2 o'i gymharu â'r symudiadau. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Heb gadw cofnodion yn unol â'r gofynion cyfreithiol. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** heb gadw cofnodion llawn un neu fwy o symudiadau, i neu o'r daliad, na manylion adnabod newydd ac nid oes modd eu cadarnhau trwy ddogfennau eraill y fferm (h.y anfonebau ac ati). Ni wnaeth y ceidwad newid.<br>**Canolig:** heb gadw cofnod llawn un symudiad, i neu o'r daliad, na manylion adnabod newydd lle bo'r ceidwad wedi newid a/neu heb gadw cofnod llawn un symudiad, i neu o'r daliad, lle nad yw'r ceidwad wedi newid ac nad oes modd ei gadarnhau trwy ddogfennau eraill y fferm (h.y. anfonebau ac ati).<br>**Uchel:** heb gofnodi manylion llawn symudiadau yn rheolaidd, i nac o'r daliad neu dim cofnodion wedi'u cadw. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A5 | Rhaid cofnodi, o leiaf unwaith y flwyddyn, y nifer mwyaf o foch rydych chi fel arfer yn eu cadw a nifer gwirioneddol y moch ar y daliad ar y dyddiad hwnnw. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Heb gadw cofnod o nifer mwyaf y moch rydych fel arfer yn eu cadw na nifer gwirioneddol y moch ar ddyddiad cofnodi nifer uchaf y moch. | **Effaith ar y fferm** | **Isel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

# SMR 7: Adnabod a chofrestru gwartheg

| | |
|---|---|
| Amcan y gofynion hyn yw cynnal system ar gyfer adnabod (tagio) a chofrestru gwartheg ar gyfer eu holrhain yn rhwydd, yn enwedig pan fydd clefyd yn taro. Yn yr SMR hwn, mae 'gwartheg' yn golygu unrhyw greadur sy'n perthyn i deulu'r fuwch. | |
| A1 | Er mwyn bodloni'r amodau trawsgydymffurfio ar gyfer tagio ac olrhain gwartheg, does dim angen ichi wneud mwy na'r hyn sydd eisoes yn ofynnol o dan y gyfraith. Rydym yn rhestru isod elfennau'r system olrhain gwartheg sy'n dod o dan yr amodau trawsgydymffurfio. Crynodeb yn unig yw hwn. Am esboniad llawn o'ch gofynion cyfreithiol, darllenwch y deddfau perthnasol neu lawlyfr y BCMS. |
| | a. Tagiau clust<br>• Rhaid rhoi dau dag union yr un fath o deip sydd wedi'i gymeradwyo gan Defra ar loi sy'n cael eu geni ar eich daliad (neu eu mewnforio o'r tu allan i'r UE).<br>• Rhaid rhoi tagiau ar loi eidion o fewn 20 diwrnod ar ôl eu geni neu cyn iddynt adael y daliad os digwydd hynny'n gynt. Rhaid rhoi'r naill dag ar loi godro o fewn 36 awr a'r llall o fewn 20 diwrnod ar ôl eu geni.<br>• Rhaid tagio lloi beison o fewn 9 mis ar ôl eu geni neu wrth eu gwahanu oddi wrth eu mamau, os digwydd hynny'n gynt.<br>• Dylech dagio pob anifail sy'n gadael eich daliad yn unol â'r holl ofynion ar gyfer yr anifail hwnnw, gan gynnwys rhoi dau dag ar loi, waeth eu hoed.<br>• Peidiwch â thynnu na chyfnewid tagiau clust heb ganiatâd y BCMS ond pan fyddwch yn rhoi tag yn lle tag annarllenadwy neu dag sydd wedi'i golli.<br>• Ar wartheg y bwriedir eu hallforio, bydd angen trydydd tag clust arnynt gyda'r rhagddodiad gwlad 'GB' arno a rhif adnabod presennol yr anifail.<br>• Rhaid rhoi tagiau yn lle rhai sy'n annerllanadwy neu sy'n cael eu colli o fewn 28 diwrnod ar ôl sylwi ar y golled.<br>• Peidiwch â newid, dileu na difetha tag clust. |

| | |
|---|---|
| | b. Pasbort gwartheg<br>• Rhaid gofyn am basbort gwartheg o fewn saith niwrnod ar ôl tagio llo (hynny yw, o fewn 27 diwrnod ar ôl ei eni, 7 niwrnod ar gyfer beison).<br>• Rhaid cofrestru gwartheg sy’n cael eu mewnforio o wlad o fewn yr UE sydd y tu allan i Brydain Fawr, o fewn 15 niwrnod ar ôl iddynt gyrraedd ar eich daliad trwy anfon y pasbort/dogfen symud dramor at y BCMS a gwneud cais am basbort.<br>• Rhaid cofrestru gwartheg sy’n cael eu mewnforio o wlad y tu allan i’r UE o fewn 15 niwrnod ar ôl tagio’r anifail a dim hwyrach na 35 diwrnod ar ôl ei ryddhau o’r archwiliadau mewnforio trwy wneud cais i’r BCMS am basbort.<br>• Pan fydd gwartheg yn cael eu symud, gofalwch bod eu pasbort yn mynd gyda nhw, a’i fod wedi’i lenwi a’i arwyddo.<br>• Peidiwch â newid na difetha pasbort gwartheg.<br>• Pan ofynnir ichi, rhaid dangos pasbort dilys wedi’i lofnodi ar gyfer pob anifail yn eich gofal. |
| | c. Hysbysu<br>• Rhaid rhoi gwybod i’r BCMS bod llo wedi’i eni trwy wneud cais am basbort o fewn 7 niwrnod ar ôl ei dagio (h.y. o fewn 27 diwrnod ar ôl ei eni).<br>• Rhaid rhoi gwybod i’r BCMS o fewn 7 niwrnod os bydd gwartheg yn marw ar eich daliad, naill ai trwy CTS ar-lein, gwasanaeth ffôn BCMS, y feddalwedd gymeradwy neu drwy lenwi manylion y farwolaeth ar y pasbort. Rhaid ichi ddychwelyd y pasbort neu’r dystysgrif gofrestru ac unrhyw ddogfennau adnabod swyddogol eraill o fewn 7 niwrnod ar ôl y farwolaeth. Os ydych am roi gwybod am y farwolaeth trwy CTS ar-lein, gwasanaeth ffôn BCMS neu’r feddalwedd gymeradwy, ni fydd angen ichi lenwi manylion y farwolaeth ar y pasbort ond bydd angen ichi ddychwelyd y pasbort o fewn 7 niwrnod ar ôl y farwolaeth.<br>• Rhaid rhoi gwybod i’r BCMS am wartheg sy’n cael eu symud i’ch daliad neu oddi arno o fewn 3 niwrnod ar ôl y symudiad.<br>• Rhaid rhoi gwybod i’r BCMS trwy ddychwelyd y pasbort am unrhyw anifail sy’n cael ei ddwyn neu ei golli o fewn 7 niwrnod ar ôl sylwi ei fod wedi’i ddwyn neu ei golli. |
| | d. Cofrestr y fferm<br>• Rhaid cadw cofrestr buches gyfoes. Bydd yn cynnwys y canlynol ar gyfer pob anifail: rhif swyddogol y tag clust; rhif swyddogol tag clust y fam; dyddiad geni; rhyw; dyddiad cyrraedd/gadael y daliad; o ble mae’r anifail yn dod/i ble mae’r anifail yn mynd; brid, dyddiad marw sy’n cyfateb i’r CTS.<br>• Rhaid cwblhau’r gofrestr o fewn 36 awr ar ôl symud anifail neu roi tag clust newydd os ydy’r rhif wedi newid; o fewn 7 niwrnod ar ôl i anifail farw ac o fewn 7 niwrnod ar ôl geni llo godro (neu o fewn 30 diwrnod ar ôl geni unrhyw lo arall).<br>• Rhaid cadw’r gofrestr am 10 mlynedd ar ôl dyddiad y cofnod olaf a rhaid gofalu ei bod ar gael i Lywodraeth Cymru neu’r awdurdod lleol ei gweld. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | I'w asesu yn ôl sgôr difrifoldeb y CII.<br>Gweler y tabl isod gan gynnwys yr esboniad o'r sgôr difrifoldeb. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** mewn achosion lle mae anifeilliaid wedi cael eu symud ers iddynt gael eu bwydo â phrotein neu gynnyrch anifeiliaid. | **Isel iawn**<br>**Absoliwt:** mwy na 0 hyd at a chan gynnwys 3.<br>**Canran:** mwy na 0 hyd at a chan gynnwys 10.<br>**Isel:**<br>**Absoliwt:** mwy na 3 hyd at a chan gynnwys 5.<br>**Canran:** mwy na 10 hyd at a chan gynnwys 40.<br>**Canolig:**<br>**Absoliwt:** mwy na 5 hyd at a chan gynnwys 10.<br>**Canran:** mwy na 40 hyd at a chan gynnwys 60.<br>**Uchel:**<br>**Absoliwt:** mwy na 10.<br>**Canran:** mwy na 60. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

# Atodiad 1: Cosbau am dorri amodau SMR7: Adnabod a Chofrestru Gwartheg

## Mae cod a sgôr ar gyfer pob tramgwydd, p'un a yw wedi'i ddarganfod gan arolygydd neu ei ddarganfod yn sgil archwiliad papur:

| Cod | Disgrifiad o'r Tramgwydd | Sgôr | Maint rhestr 1 | Maint rhestr 2 | Parhaol | Grŵp Tramgwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| FM | BCMS heb gael gwybod am symudiad – dros 14 diwrnod | 1.0 | Oddi ar y fferm | Ar y fferm | Parhaol | Heb roi gwybod i'r BCMS am symudiadau o fewn yr amserlen. |
| FM1 | Rhoi gwybod i BCMS yn hwyr am symudiad – rhwng 8 ac 14 diwrnod yn gynwysedig | 1.0 | Oddi ar y fferm | Ar y fferm | Modd ei gywiro | |
| FM2 | Rhoi gwybod i BCMS yn hwyr am symudiad – rhwng 4 a 7 diwrnod yn gynwysedig | 0.4 | Oddi ar y fferm | Ar y fferm | Modd ei gywiro | |
| ID | Manylion (hanfodol) y fam yn anghywir ar y pasbort/ ffurflen | 0.3 | Ar y fferm | Oddi ar y fferm | Modd ei gywiro | Manylion (hanfodol) y fam yn anghywir ar y pasbort/ffurflen. |
| LZ | Manylion (heb fod yn hanfodol) y fam yn anghywir ar y pasbort/ffurflen | 0 | Ar y fferm | Oddi ar y fferm | Modd ei gywiro | Manylion (heb fod yn hanfodol) y fam yn anghywir ar y pasbort/ffurflen). |
| NF1 | Anifail sydd wedi'i fagu gartre ddim ar gofodion | 1.0 | Ar y fferm | Ar y fferm | Parhaol | Anifail heb fod ar gofnodion y fferm. |
| NF2 | Anifail sydd wedi'i brynu ddim ar gofnodion | 0.4 | Ar y fferm | Ar y fferm | Modd ei gywiro | |
| MV | Manylion y symudiad heb eu cofnodi neu wedi'u camgofnodi ar gofnodion y fferm neu'r pasbort neu CTS | 0.4 | Ar y fferm | Oddi ar y fferm | Parhaol | Manylion y symudiad heb eu cofnodi neu wedi'u camgofnodi ar gofnodion y fferm neu'r pasbort neu CTS. |
| DB | Y dyddiad geni anghywir ar y pasbort/cofnod y fferm | 0.7 | Ar y fferm | Oddi ar y fferm | Modd ei gywiro | Y dyddiad geni anghywir ar y pasbort/ cofnod y fferm. |
| NP | Anifail yn bresennol heb basbort, tystysgrif gofrestru, CPP35 | 1.0 | Ar y fferm | Oddi ar y fferm | Parhaol | Anifail yn bresennol heb basbort. |
| DD | BCMS heb gael gwybod am anifail marw – dros 14 diwrnod | 1.0 | Oddi ar y fferm | Oddi ar y fferm | Parhaol | Rhoi gwybod i'r BCMS yn hwyr am anifail marw. |
| DD1 | Rhoi gwybod i BCMS yn hwyr am anifail marw – rhwng 8 ac 14 diwrnod yn gynwysedig | 1.0 | Oddi ar y fferm | Oddi ar y fferm | Modd ei gywiro | |
| NA | Pasbort/CoR/CTS yn bresennol heb anifail | 1.0 | Oddi ar y fferm | Oddi ar y fferm | Parhaol | Pasbort/CoR yn bresennol heb anifail. |
| OP | Manylion eraill y pasbort yn anghywir (e.e. rhyw, brid) | 0.1 | Ar y fferm | Oddi ar y fferm | Modd ei gywiro | Manylion eraill y pasbort (e.e. rhyw, brid) ddim yn cyfateb i gofnodion y fferm. |

| Cod | Disgrifiad o'r Tramgwydd | Sgôr | Maint rhestr 1 | Maint rhestr 2 | Parhaol | Grŵp Tramgwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TG1 | Heb ei dagio yn unol â'r rheolau | 1.0 | Ar y fferm | Oddi ar y fferm | Parhaol | Anifail wedi'i gamdagio/Tag newydd heb ei roi yn lle tag a gollwyd. |
| TG2 | Tag ar goll am fwy na 28 diwrnod neu ddiffyg tystiolaeth am bolisi rhoi tagiau newydd | 0.4 | Ar y fferm | Oddi ar y fferm | Parhaol | |
| TG3 | Tag ar goll am lai na 28 diwrnod | 0 | Ar y fferm | Oddi ar y fferm | Modd ei gywiro | |

Dylid adio sgoriau'r holl dramgwyddau. Hwn fydd y 'sgôr absoliwt'. Defnyddir y sgôr absoliwt i weithio'r canran, sy'n cael ei gyfrif trwy rannu'r sgôr absoliwt â nifer yr anifeiliaid gafodd eu harchwilio a lluosi'r rhif hwnnw â 100. Caiff y ddau rif eu cymharu â'r lefelau difrifoldeb a restrir yn y safonau dilysadwy a defnyddir yr uchaf ohonynt i bennu lefel y gosb ariannol.

Cyfrifir y gosb ariannol trwy ddefnyddio:

- y lefel difrifoldeb uchaf;
- maint y tramgwydd (ydy'r effeithiau'n effeithio ar y fferm yn unig neu y tu allan i'r fferm hefyd);
- bwriad (ai esgeulustod neu bwriad sydd i gyfrif am y tramgwyddau);
- pa mor barhaol (a oes modd cywiro'r camgymeriadau mewn cyfnod rhesymol o amser, neu a ydyn nhw'n barhaol);
- ailadrodd (pan welir tramgwyddau o'r un grŵp tramgwyddau eto o fewn cyfnod o 3 blynedd).

Enghraifft:
Mewn archwiliad, gwelwyd bod un anifail heb ei dagio yn unol â'r rheolau a nad oedd y ceidwad wedi dweud wrth y BCMS ei fod wedi symud anifail. Cafodd 18 o anifeiliaid eu harchwilio.

| Dyma'r sgôr ar gyfer Y Tramgwyddau perthnasol: Cod | Disgrifiad o'r Tramgwydd | Sgôr |
|---|---|---|
| FM | BCMS heb gael gwybod am symudiad o fewn 3 diwrnod | 1.0 |
| TG1 | Heb ei dagio yn unol â'r rheolau | 1.0 |

Dyma'r sgôr absoliwt:

| | | |
|---|---|---|
| | | 1.0 |
| | + | 1.0 |
| Sgôr absoliwt: | | 2.0 |

Cyfrifir y canran fel a ganlyn:
2.0 (sgôr absoliwt) ÷ 18 (anifeiliaid gafodd eu harchwilio) = 0.11
0.11 x 100 = 11.11%

Rhaid cymharu'r sgoriau hyn â'r safonau dilysadwy i bennu lefel y difrifoldeb. Yn yr enghraifft hon: Sgôr absoliwt: 2.0 = Isel Iawn    Canran: 11.11% = Isel

Defnyddir y lefel difrifoldeb uchaf i bennu lefel y gosb. Yn yr enghraifft hon, "isel" yw lefel y difrifoldeb.

# SMR 8: Adnabod Defaid a Geifr

| Amcan y gofynion hyn yw cynnal system ar gyfer adnabod a chofrestru defaid a geifr ar gyfer eu holrhain yn rhwydd, yn enwedig pe bai clefyd yn taro. Maen nhw'n berthnasol i chi os ydych chi'n cadw defaid neu eifr, hyd yn oed fel anifeiliaid anwes. | |
|---|---|
| A1 | Rhaid i chi:<br>• Dagio pob dafad a gafr yn gywir o fewn 6 mis ar ôl ei geni ar fferm ddwys a 9 mis ar fferm llai dwys, neu cyn iddi symud o'r daliad geni, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf;<br>• Rhoi un tag lladd neu ddwy ddyfais adnabod union yr un fath ar anifeiliaid y bwriedir eu lladd mewn lladd-dy ym Mhrydain cyn eu bod yn 12 mis oed. Os byddwch yn cadw'r defaid a geifr ar ôl y 12 mis, yna rhaid rhoi dwy ddyfais adnabod yn lle'r tag lladd. Ar gyfer defaid, rhaid i un o'r dyfeisiau fod yn electronig;<br>• Rhoi dwy ddyfais adnabod ag union yr un fath ar ddefaid a geifr nad ydych yn bwriadu eu lladd ym Mhrydain cyn eu bod yn 12 mis oed neu os ydych yn bwriadu eu hallforio i drydedd wlad neu i wlad yn yr UE; os cawsant eu geni ar neu ar ôl 31 Rhagfyr 2009, rhaid i un o'r dyfeisiau fod yn electronig.<br>• Ar ddefaid/geifr y bwriedir eu hallforio, bydd angen trydydd tag clust arnynt gyda'r rhagddodiad gwlad 'GB' arno a rhif adnabod presennol yr anifail.<br>**Pwysig:** Caniateir y dyfeisiau canlynol: tagiau clust, bolws, marc pigwrn neu datŵ. Nid yw pob cyfuniad yn bosibl ar anifeiliaid i'w hallforio. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r defaid a/neu'r geifr erioed wedi cael eu tagio neu maen nhw wedi cael eu cam-dagio (h.y. yn groes i Reoliad y Cyngor/SAGRIMO)). | **Effaith ar y fferm:** os ydy'r anifeiliaid heb adael y daliad.<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** os oes tystiolaeth bod anifeiliaid wedi gadael y fferm. | **Isel: Absoliwt:** hyd at a chan gynnwys 5 o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio.<br>**Canran:** hyd at a chan gynnwys 10% o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio.<br>**Canolig: Absoliwt:** mwy na 5 a hyd at a chan gynnwys 10 o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio.<br>**Canran:** mwy na 10% a hyd at a chan gynnwys 40% o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio.<br>**Uchel: Absoliwt:** mwy na 10 o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio.<br>**Canran:** mwy na 40% o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio. (Pwysig: Y lefel difrifoldeb uchaf a welir yw'r un a ddefnyddir i gyfrif lefel y gosb). | **Parhaol** |

| A2 | Rhaid i chi:<br>• Roi tag newydd yn lle tag sy'n cael ei golli neu sy'n annarllenadwy o fewn 28 diwrnod ar ôl sylwi bod y tag wedi'i golli neu'n annarllenadwy neu cyn i'r anifail adael y fferm, pa un bynnag ddaw gyntaf.<br>Rhaid ichi beidio â:<br>• Newid, difetha na dileu unrhyw ddyfais adnabod a roddir ar anifail. Fe gewch chi roi rhagor o wybodaeth ar y tag cyn belled â bod dal modd darllen y marc diadell 'DU' neu rif adnabod unigol DU. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r ffermwr wedi rhoi tag newydd ar ddefaid/geifr yn lle tag sydd wedi'i golli/annarllenadwy o fewn 28 diwrnod. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** mae'r tagiau adnabod wedi'u colli; nid yw'r arolygydd yn fodlon bod gan y ffermwr bolisi cyfnewid tagiau na bod tagiau wedi'u harchebu (os oes angen) o fewn y 28 diwrnod neu, nid yw'r ceidwad wedi gallu cadarnhau ei fod wedi rhoi tag newydd yn lle'r. | **Parhaol** |
| | Mae'r ddyfais adnabod wedi cael ei newid, ei difetha neu ei dileu ond nid er mwyn ei chyfnewid neu am ei bod yn annarllenadwy neu er lles yr anifail. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel:** mae dyfais adnabod unrhyw anifail yn y sampl wedi cael ei difetha, ei newid neu ei dileu. | **Parhaol** |

| | |
|---|---|
| A3 | Rhaid i chi gadw cofnodion cyfoes ar gyfer pob daliad (o ran defaid a geifr caiff daliad ar wahân ei ddiffinio fel tir nad yw o dan eich rheolaeth, neu sy'n bellach na 5 neu 10 milltir o'ch prif ddaliad, gan ddibynnu ar a yw bellach yn dilyn rheolau newydd CPH.<br>Bydd y manylion canlynol ar eich cofnodion:<br>• stocrestr (cyfrifiad) o'r anifeiliaid yr oeddech yn eu cadw ar 1 Ionawr;<br>• manylion symud eich defaid a'ch geifr i'ch daliad ac o'ch daliad, gan gynnwys: – dyddiad y symudiad – nifer yr anifeiliaid sy'n symud – cyfeiriad man cychwyn neu ben taith yr anifeiliaid – enw'r cwmni cludo a rhif y cerbyd;<br>• rhaid diweddaru cofnodion o fewn 36 awr ar ôl y symudiad, gan gynnwys croesgyfeirio'r anifeiliaid sydd wedi cael tagiau newydd.<br>• Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys:<br>- rhifau anifeiliaid unigol sydd wedi cael rhifau adnabod unigol ac yn achos grwpiau o anifeiliaid sydd wedi cael eu hadnabod â thag lladd sengl ac sy'n dod o ddaliadau geni gwahanol, nifer yr anifeiliaid sydd â phob rhif diadell/geifre<br>- y daliad geni, blwyddyn geni a dyddiad tagio<br>- mis a blwyddyn marw anifail ar y daliad<br>- brid yr anifail, a genoteip yr anifail os ydych yn ei wybod.<br>Mae anifeiliaid a gafodd eu geni/pennu cyn 31/12/2009 wedi'u heithrio rhag cofnodi symudiadau unigol os yw'r anifeiliaid hynny'n cael eu cludo'n syth i'r lladd-dŷ. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r cofnodion yn cael eu cadw yn unol â'r gofynion cyfreithiol (SAGRIMO). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** heb gadw cofnodion llawn am un symudiad neu lle bo'r tir yn ffinio a/neu Heb gofnodi hyd at a chan gynnwys 5 o anifeiliaid:<br>• adeg eu tagio gyntaf â'r tag electronig a/neu<br>• sydd wedi marw a/neu<br>• bod tagiau cyfnewid wedi'u rhoi ond y manylion heb eu cofnodi. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canolig:** heb gadw cofnodion llawn mwy nag un a hyd at 5 symudiad i neu o'r daliad heb gadw cofnodion llawn mwy nag un a hyd at 5 symudiad i neu o'r daliad a/neu Heb gofnodi mwy na 5 o anifeiliaid:<br>• adeg eu tagio gyntaf â'r tag electronig a/neu<br>• sydd wedi marw a/neu<br>• bod tagiau cyfnewid wedi'u rhoi ond y manylion heb eu cofnodi.<br>**Uchel:** heb gadw cofnodion mwy nag un symudiad, i neu o'r daliad, fwy nag unwaith. | |
| | Nid oes stocrestr flynyddol o'r anifeiliaid wedi'i chadw ar gofnodion y fferm. | **Effaith ar y fferm** | **Isel:** os nad yw'r stocrestr wedi'i chofnodi erbyn 1 Chwefror. | **Parhaol** |
| | Nid yw nifer y anifeiliaid sy'n cael eu cyfrif a'r cofnodion symud, gan gynnwys cofnodion marwolaethau, yn gyson â'r stocrestr flynyddol. Nid oes esboniad rhesymol i'r gwahaniaeth. | **Effaith ar y fferm:**<br>neu<br>**Off farm effect:** effaith oddi ar y fferm: Os oes symudiadau anhysbys wedi cyfrannu at y gwahaniaeth a welwyd. | **Low:** hyd at a chan gynnwys 10% o'r ddiadell yn anghyson â'r stocrestr flynyddol.<br>**Canolig:** o 10% hyd at a chan gynnwys 40% o'r ddiadell yn anghyson â'r stocrestr flynyddol.<br>**Uchel:** mwy na 40% o'r ddiadell yn anghyson â'r stocrestr flynyddol. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A4 | Rhaid i chi Cadw cofnodion cyfredol ar y fferm ar gyfer pob daliad (o ran defaid a geifr caiff daliad ar wahân ei ddiffinio fel tir nad yw o dan eich rheolaeth, neu sy'n bellach na 5 neu 10 milltir o'ch prif ddaliad, gan ddibynnu a yw bellach yn dilyn y rheolau newydd ynghylch CPH.<br>• cadw'r cofnodion am dair blynedd neu ers sefydlu'r ddiadell/eifre. Pan fydd yr holl anifeiliaid yn gadael daliad, rhaid cadw'r cofnodion am 3 blynedd o'r dyddiad pan adawodd yr anifail olaf;<br>• gofalu bod cofnodion eich fferm ar gael i arolygydd sy'n gofyn amdanyn nhw eu gweld. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Heb gadw cofnodion digonol a/neu ddim wedi dangos y cofnodion i arolygydd sy'n gofyn amdanyn nhw. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |

# SMR 9: Clefydau Anifeiliaid – Atal a rheoli Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy – TSEs

| Amcan y gofynion hyn yw lleihau peryglon rhai Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEs) i iechyd pobl ac anifeiliaid. Byddant yn berthnasol i chi os ydych chi'n cadw anifeiliaid fferm. | |
|---|---|
| A1 | Peidiwch â rhoi protein o anifeiliaid, na phorthiant sy'n cynnwys protein o anifeiliaid, yn fwyd i anifeiliaid cnoi cil, ac eithrio'r canlynol (cyn belled â'u bod yn dod o ffynonellau priodol ac wedi cael eu prosesu yn unol â'r gofynion e.e. ni chaniateir gwastraff ceginau):<br>• llaeth, cynhyrchion llaeth a llaeth tor<br>• wyau a chynnyrch wyau<br>• gelatin o anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil<br>• protein wedi'i hydroleiddio o anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil neu o grwyn anifeiliaid cnoi cil<br>• llaeth hylif ffug sy'n cynnwys pysgod mâl ar gyfer anifeiliaid cnoi cil sydd heb eu diddyfnu, os yw wedi'i gofrestru. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth bod y ffermwr yn rhoi protein o anifeiliaid neu gynnyrch sy'n cynnwys protein o anifeiliaid yn fwyd i anifeiliaid cnoi cil, gan gynnwys:<br>Gwartheg, bison, byfflo<br>defaid, geifr<br>ceirw, antelop, gnwod<br>camelidau | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** os ydy'r anifeiliaid sydd wedi cael protein neu gynnyrch anifeiliaid wedi gadael y fferm. | **Uchel** | **Parhaol** |

| A2 | Peidiwch â rhoi porthiant sy’n cynnwys proteinau gwaharddedig neu rai sydd wedi’u gwahardd i unrhyw anifail fferm, na chymysgu proteinau gwaharddedig â’u porthiant neu fwyd anifeiliaid. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth bod y ffermwr yn rhoi proteinau gwaharddedig i anifeiliaid fferm, neu’n cymysgu proteinau gwaharddedig â phorthiant anifeiliaid.<br>Mae ‘proteinau gwaharddedig’ neu ‘broteinau sydd wedi’u hatal’ yn cynnwys gelatin o anifeiliaid cnoi cil a phrotein anifeiliaid wedi’i brosesu (fel cig ac esgyrn mâl o famaliaid, dofednod mâl, pluf mâl, gelatin eidion). Nid oes modd defnyddio infertebra’r tir wedi’i sychu (pryfed) a phrotin(au) anifeiliaid wedi’u prosesu sy’n tarddu o bryfed mewn bwyd ar gyfer unrhyw anifeiliaid fferm. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:**<br>os ydy’r anifeiliaid sydd wedi cael protein wedi gadael y fferm. | **Uchel** | **Parhaol** |

| | |
|---|---|
| A3 | Rhaid ichi beidio â defnyddio proteinau dan gyfyngiad i gynhyrchu porthiant i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil oni bai'ch wedi cael caniatâd i wneud hynny gan awdurdod perthnasol. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr yn cynhyrchu porthiant i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil sy'n cynnwys proteinau dan gyfyngiad, heb ganiatâd yr awdurdod perthnasol.<br>Mae'r gofyn hwn yn berthnasol i bob fferm/safleoedd sy'n cynhyrchu porthiant gan ddefnyddio proteinau dan gyfyngiad.<br>Mae 'proteinau dan gyfyngiad' yn golygu proteinau anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio yn unig i gynhyrchu porthiant i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil: pysgod mâl, gan gynnwys infertebrata dyfrol sych o safle ABP cymeradwy (i'w bwydo i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil yn unig ee ceffylau, moch, dofednod); cynhyrchion gwaed anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil; cynnyrch gwaed moch a dofednod (nad ydynt yn cnoi cil); gwaed mâl (i fwydo pysgod fferm); dicalsiwm ffosffad a tricalsiwm ffosffad o anifeiliaid. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** os nad yw'r ffermwr yn cadw anifeiliaid cnoi cil.<br>**Canolig:** os oes anifeiliaid cnoi cil yn bresennol a bod tystiolaeth eu bod wedi cael proteinau dan gyfyngiad. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A4 | Peidiwch â defnyddio porthiant sy’n cynnwys proteinau dan gyfyngiad ar fferm lle ceir anifeiliaid cnoi cil oni bai bod awdurdod perthnasol wedi’ch cofrestru i wneud hynny. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw’r ffermwr wedi ymgofrestru/cael caniatâd i storio na defnyddio porthiant sy’n cynnwys proteinau dan gyfyngiad.<br>**Pwysig:** Mae hwn yn ofyn sy’n berthnasol i bob fferm lle cedwir anifeiliaid cnoi cil. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** os oes tystiolaeth nad oes anifeiliaid cnoi cil wedi dod i gysylltiad â phorthiant sy’n cynnwys proteinau dan gyfyngiad.<br>**Canolig:** os oes tystiolaeth bod anifeiliaid cnoi cil wedi dod i gysylltiad â phorthiant sy’n cynnwys proteinau dan gyfyngiad. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A5 | Peidiwch ag allforio o’r Deyrnas Unedig anifail o deulu’r gwartheg gafodd ei eni neu ei fagu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996. |
| A6 | Peidiwch â rhoi ar y farchnad nac allforio unrhyw gynnyrch sy’n cynnwys neu’n ymgorffori unrhyw ddeunydd (heblaw llaeth) sy’n dod o anifail o deulu’r gwartheg gafodd ei eni neu ei fagu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae’r ffermwr wedi allforio anifail o deulu’r gwartheg gafodd ei eni neu ei fagu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** os oes modd olrhain a difetha’r cynnyrch neu’r anifail.<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Mae’r ffermwr wedi rhoi ar y farchnad neu allforio cynnyrch sy’n cynnwys neu’n ymgorffori deunydd (heblaw llaeth) sy’n dod o anifail o deulu’r gwartheg gafodd ei eni neu ei fagu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996. | | | |

| A7 | Peidiwch â rhoi ar y farchnad nac allforio epil cenhedlaeth gyntaf, semen, ofa nac embryonau gwartheg, defaid na geifr (o unrhyw oed) heb gydymffurfio'n llwyr â'r gofyn am ddogfennau a'r cyfyngiadau sydd eu hangen i werthu neu allforio'r cynnyrch hynny. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi rhoi llo anifail â BSE ar y farchnad. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail.<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Mae'r ffermwr wedi rhoi ar y farchnad/allforio semen/embryo/ofa gwartheg, defaid neu eifr (o unrhyw oed) heb y drwydded gywir. | | | |

| A8 | Peidiwch â symud unrhyw wartheg a aned neu a fagwyd yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 o'u safle cofrestredig oni bai'ch bod wedi cael trwydded symud gan Ganolfan Gwasanaethau Arbenigol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghaerwrangon. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Difrifoldeb** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi symud gwartheg a aned neu a fagwyd yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 o'u safle cofrestredig heb drwydded symud gan Ganolfan Gwasanaethau Arbenigol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) SSC yng Nghaerwrangon. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail. | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail.<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| B1 | Rhaid ichi roi gwybod ar unwaith i'r Swyddog Milfeddygol sydd ar Ddyletswydd yn swyddfa leol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) os ydych yn gwybod neu'n amau bod anifail neu garcas yn eich meddiant neu o dan eich rheolaeth wedi'i heintio â TSE. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r ffermwr wedi rhoi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ei fod yn gwybod neu'n amau bod anifail neu garcas yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth wedi'i heintio â TSE. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Off-farm effect:** os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail. | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail, gan gynnwys unrhyw gohortau posibl.<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| B2<br>B3<br>B4<br>B5 | Rhaid ichi gydymffurfio'n llwyr â'r:<br>• cyfyngiadau symud<br>• gorchymyn i ladd a dinistrio anifail<br>• hysbysiadau eraill gan arolygydd milfeddygol neu berson arall a benodir gan Weinidogion Cymru o dan Reoliadau TSE (Cymru) 2018<br>• ymchwiliad gan archwilydd neu berson arall a benodwyd gan Weinidogion Cymru i gael hyd i'r holl anifeiliaid sydd mewn perygl, gan gynnwys anifeiliaid mewn ffermydd geni os bydd angen. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r ffermwr wedi cydymffurfio â chyfyngiad symud, gorchymyn i ladd/dinistrio anifail a/na hysbysiad arall gan archwilydd neu gorff gorfodi arall.<br>Pwysig: Rhaid cyfyngu unrhyw wartheg a aned neu a fagwyd yn y Deyrnas Unedig cyn Awst 1996 i'w safle cofrestredig. Fodd bynnag, gall amgylchiadau eithriadol godi pan fydd yn rhaid ichi symud anifail. Bryd hynny, rhaid cysylltu â Chanolfan Gwasanaethau Arbenigol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA SSC) yng Nghaerwrangon am drwydded symud a rhaid cael y drwydded a'i chymeradwyo cyn bod yr anifail dan gyfyngiadau yn cael ei symud o'r safle. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail.<br>neu<br>**Barhaol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r ffermwr wedi cydymffurfio â chais gan archwiliwr i gael hyd i'r holl anifeiliaid sydd mewn perygl. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** os yw'r anifail sydd wedi'i heintio (neu o dan amheuaeth o fod wedi'i heintio) wedi symud o'r fferm. | **Uchel** | **Modd ei gywiro:** os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail.<br>neu<br>**Barhaol** |

# SMR 10: Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion

| |
|---|
| Amcan y gofynion hyn yw sicrhau bod Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion (PPPs) yn cael eu defnyddio'n gywir, a gofalu o'u defnyddio, nad ydyn nhw'n peryglu gwarchod pobl, bywyd gwyllt na'r amgylchedd. Bydd y gofynion hyn yn berthnasol ichi os ydych yn eu defnyddio ar eich tir. |
| Wrth gydymffurfio â'r SMR hwn, dylech nodi'r canlynol:<br>Mae plaladdwyr, neu 'cynhyrchion amddiffyn planhigion' fel y'u gelwir hefyd, yn cael eu defnyddio i reoli plâu, chwyn a chlefydau. Mae enghreifftiau'n cynnwys pryfladdwyr, ffwngladdwyr, chwynladdwyr, gwenwyn lladd malwod a rheolwyr tyfiant planhigion. Mae ffurfiau amrywiol ohonynt yn bod e.e. gronynnau solet, powdr neu hylif ac maent wedi'u gwneud ag un neu fwy o sylweddau actif wedi'u cymysgu â deunyddiau eraill.<br>a. Mae manylion cynnyrch cymeradwy yn cael eu cofnodi i gyd o dan enwau plaladdwyr ar gronfa dda plaladdwyr y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch.<br>b. Mae "arfer da" o ran amddiffyn planhigion yn golygu bod y triniaethau â chynnyrch amddiffyn planhigion ar y cnwd dan sylw yn cael eu dewis, eu dosio a'u hamseru yn unol â'r amodau cymeradwy ar gyfer eu defnyddio, i sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf, o ystyried amodau lleol a'r posibiliadau ar gyfer rheolaeth ffermwrol a biolegol.<br>c. Esbonnir arfer da o ran amddiffyn planhigion yn y Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Cynnyrch Amddiffyn Planhigion. **www.hse.gov.uk/pesticides/resources/c/code_of_practice_for_using_plant_protection_products_-_complete20code.pdf**<br>d. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan yr HSE **www.hse.gov.uk/pesticides/index.htm**<br>Mae gofynion o ran cadw cofnod o blaladdwyr. Maen nhw i'w gweld yn yr SMR 4: Bwyd a'r Gyfraith Bwyd. |

| A1 | Peidiwch â defnyddio PPP oni bai ei fod wedi cael ei gymeradwyo o dan ddeddfwriaeth berthnasol. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi defnyddio cynnyrch sydd heb ei awdurdodi a/neu gynnyrch y mae angen trwydded ar ei gyfer (ee cynnyrch y mae'r awdurdod ar ei gyfer wedi dod i ben, wedi'i ddirymu; cynnyrch wedi'i fewnforio nad oes trwydded i'w ddefnyddio ym Mhrydain Fawr neu fewnforion cyfatebol at ddefnydd personol lle nad oes label cyfatebol Saesneg ar gael yn y DU). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm:** lle bo'i ddefnyddio'n anghyfreithlon yn llygru'r amgylchedd neu'n gadael gweddillion mewn bwyd. Bydd effaith defnyddio cynnyrch anghyfreithlon yn dibynnu ar y cynnyrch ond gallai fod yn risg i iechyd pobl neu'r amgylchedd. | **Uchel** | **Parhaol** |

| | |
|---|---|
| B1 | Rhaid ichi ddefnyddio PPPs sydd wedi'u hawdurdodi neu eu caniatáu yn unol ag unrhyw ofyn neu amod sydd:<br>• wedi'i nodi yn y gymeradwyaeth neu'r estyniad ar gyfer ei ddefnyddio; neu<br>• neu ar label y cynnyrch yn unol â'r awdurdod, y drwydded neu'r estyniad ar gyfer ei ddefnyddio. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi defnyddio cynnyrch y mae angen awdurdodiad a/neu ganiatâd arno ac nid oes awdurdodiad neu ganiatâd dilys wedi'i roi gan y DU neu nid yw wedi cydymffurfio â'r holl ofynion neu amodau ar gyfer ei ddefnyddio neu ar gyfer estyn ei ddefnydd e.e.<br>• Nid yw'r cynnyrch wedi'i ddefnyddio at y diben, y cnwd, y tir neu'r sefyllfa y cafodd awdurdod neu ganiatâd ar ei gyfer;<br>• Nid yw'r dull gwasgaru a awdurdodwyd neu a ganiatawyd wedi'i ddefnyddio;<br>• Mwy na'r uchafswm o ddosau/triniaethau a gymeradwyir wedi'i ddefnyddio;<br>• Heb gadw at y dyddiadau gwasgaru/bwlch rhwng cynaeafau;<br>• Heb gadw at y cyfyngiadau ar weithwyr/da byw;<br>• Rhybuddion heb eu rhoi yn ôl y gofyn (e.e. i wenynwyr neu swyddogion cydgysylltu gwenynwyr). | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** lle bo'r tramgwydd yn un technegol.<br>**Uchel:** lle gallai'r tramgwydd effeithio ar iechyd pobl neu'r amgylchedd. | **Parhaol** |

# SMR 11: Lles Anifeiliaid – lloi

| | |
|---|---|
| Amcan y gofynion hyn yw diogelu lles lloi trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer eu cadw a gofalu amdanyn nhw. Os ydych yn cadw lloi, bydd yn rhaid ichi gadw at y safonau hyn yn ogystal â'r gofynion lles anifeiliaid fferm. | |
| **Nodyn i'r archwilydd:** Os gwelwch y geiriau 'modd ei gywiro neu barhaol', bydd pa un i'w ddewis yn dibynnu ar y tramgwydd yn erbyn yr anifail dan sylw. Os oes modd gwella amodau'r anifail, yna mae'n dramgwydd y mae modd ei gywiro. Lle nad oes modd lleihau poen neu ofid yr anifail e.e. anaf parhaol neu bod yn rhaid difa'r anifail, yna mae'n dramgwydd parhaol.<br>Difrifoldeb: byddwn yn ei asesu fel a ganlyn:<br>**Canolig:** tystiolaeth o dramgwydd nad yw wedi achosi poen, anaf, dioddefaint na gofid diangen i'r anifail.<br>**Uchel:** lle bo'r anifail wedi dioddef poen, anaf, dioddefaint neu ofid diangen. | |
| A1 | Rhaid archwilio pob llo sy'n cael ei gadw dan do o leiaf ddwywaith y dydd, a'r rheini sydd allan, o leiaf unwaith bob dydd. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid ydych yn archwilio'r lloi dan do ddwywaith y dydd. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Nid ydych yn archwilio'r lloi allan unwaith bob dydd. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| A2 | Rhaid gofalu bod pob llo'n cael sefyll, troi, gorwedd, gorffwys a llyfu'i hun heb drafferth. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r llo yn gallu sefyll, troi, gorwedd, gorffwyso na llyfu'i hun heb drafferth. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A3 | Peidiwch byth â chlymu'ch lloi. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Lloi wedi'u clymu am resymau heblaw i roi llaeth/llaeth ffug i loi sy'n cael eu cadw mewn grŵp. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Y llo wedi'i glymu am fwy nag awr wrth ei fwydo. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Mae'r tennyn yn rhwystro'r llo rhag gorwedd, gorffwys, sefyll a llyfu ei hun heb drafferth. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Mae'r tennyn wedi achosi poen neu anaf i'r llo. | Effaith ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A4 | Peidiwch â rhoi safnffrwyn ar eich llo. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae safnffrwyn ar lo neu dystiolaeth bod un wedi'i rhoi ar lo. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A5 | Peidiwch â chadw llo dros 8 wythnos oed mewn lloc ar ei ben ei hun (oni bai bod angen ei ynysu i roi triniaeth iddo). |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Lloi dros 8 wythnos oed yn cael eu cadw mewn llociau ar eu pennau eu hunain heb gyngor milfeddyg. | Effaith ar y fferm<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A6 | Rhaid gofalu bod stalau neu lociau unigol o'r hyd a'r lled gofynnol a bod tyllau yn eu hochrau fel bod y lloi yn gallu gweld ei gilydd a chyffwrdd â'i gilydd (ac eithrio lle caiff anifeiliaid sâl eu cadw ar wahân). |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r lloc yn rhy fach – o ran ei hyd neu ei led. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Does dim tyllau yn waliau'r lloc. Nid yw'r lloi felly'n gallu gweld ei gilydd na chyffwrdd â'i gilydd. | Effaith ar y fferm | Canolig | Modd ei gywiro |

| A7 | Rhaid gofalu bod gan bob llo sy'n cael ei gadw mewn grŵp, ei lwfans gofynnol o lawr dirwystr. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Arwynebedd y llawr dirwystr yn rhy fach i ateb pwysau'r llo. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A8 | Bydd y llawr ar gyfer lloi sy'n cael eu cadw dan do yn: llyfn, heb fod yn llithrig; wedi'i ddylunio i osgoi anaf neu ddioddefaint i'r llo wrth sefyll neu orwedd arno; yn addas ar gyfer maint a phwysau'r lloi; yn solid, gwastad a sefydlog. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r llawr:<br>• heb fod yn llyfn<br>• yn llithrig<br>• heb ei gynllunio i atal anaf neu ddioddefaint i loi wrth sefyll neu orwedd arno<br>• yn anaddas ar gyfer maint a phwysau'r lloi<br>• yn anwastad/ansefydlog<br>• i gyd yn slatiog. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A9 | Mae lloi dan do yn cael eu cadw mewn lle gorwedd sy'n lân, cyfforddus, wedi'i ddraenio'n dda ac arno sarn (deunydd gorwedd) sych i orwedd ynddo neu eu bod yn gallu mynd at le o'r fath. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r llo'n gallu mynd i le gorwedd sy'n lân, cyfforddus a/neu wedi'i ddraenio'n dda ac nad yw'n cael effaith ddrwg arno. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A10 | Rhaid rhoi sarn (gwellt ac ati) addas o dan bob llo i orwedd arno. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Dim digon neu ddim sarn ar gyfer lloi neu ddim sarn addas. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A11 | Ar gyfer lloi sy'n cael eu cadw mewn adeilad sy'n cael ei oleuo'n artiffisial, dylid darparu goleuni artiffisial am gyfnod sy'n cyfateb o leiaf i'r cyfnod o oleuni naturiol a geir rhwng 9am a 5pm. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Archwilydd yn gweld nad yw'r goleuni artiffisial a ddarperir rhwng 9am a 5pm. ar gyfer anifeiliaid dan do yn cyfateb i'r goleuni naturiol a geir yn y cyfnod hwn, neu'r ffermwr yn cyfaddef hynny. | Effaith ar y fferm | Canolig | Modd ei gywiro |

| A12 | Rhaid ichi lanhau a diheintio adeilad ac offer eich lloi; rhaid carthu tail, wrin a bwyd sydd heb ei fwyta cyn amled ag sydd ei angen i leihau'r drewdod a rhag denu clêr neu lygod. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth nad yw'r drefn lanhau a diheintio'n ddigonol. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Nid yw'r tail, wrin na'r bwyd sydd heb ei fwyta yn cael eu carthu'n ddigon aml i beidio â denu clêr a llygod. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A13 | Rhaid bwydo lloi diddwyn o leiaf ddwywaith y dydd. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r lloi yn cael eu bwydo o leiaf ddwywaith y dydd (os nad ydyn nhw'n cael bwydo'n rhydd). | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A14 | Wrth fwydo lloi sy'n cael eu cadw mewn grŵp, gofalwch fod pob llo naill ai:<br>• yn cael mynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn yr un grŵp bwydo; neu<br>• yn cael mynd unrhyw bryd at fwyd; neu<br>• yn cael ei fwyd trwy system fwydo awtomatig. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Ar gyfer systemau bwydo nad ydynt yn rhai rhydd neu os nad yw'r anifeiliaid yn cael eu bwydo bob yn un trwy system bwydo awtomatig, nid yw'r lloi'n cael mynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn yr un grŵp bwydo. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A15 | Rhaid gofalu bod gan eich lloi ddŵr yfed ffres bob amser pan fydd hi'n dwym neu pan fyddan nhw'n sâl. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid oes gan loi sâl gyflenwad di-dor o ddŵr.<br>Mae'r gofyn hwn yn ychwanegol at y gofyn cyffredinol yn SMR 13 i roi digon o ddŵr addas i anifeiliaid. | Effaith ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Nid oes gan y lloi gyflenwad di-dor o ddŵr mewn tywydd twym.<br>Mae'r gofyn hwn yn ychwanegol at y gofyn cyffredinol yn SMR 13 i roi dŵr i anifeiliaid. | Effaith ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A16 | Rhaid gofalu bod lloi yn cael bwyd sydd â digon o haearn ynddo. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae anemia clinigol mewn lloi yn gysylltiedig â lefel haemoglobin o lai na <4.5 mmol/litr yn y gwaed. | Effaith ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A17 | Rhaid gofalu bod pob llo dros 2 wythnos oed yn cael y ddogn ofynnol o fwyd ffeibrog bob dydd. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth bod dim neu ddim digon o fwyd ffeibrog yn cael ei roi (llai na 100g y dydd i loi 2 wythnos oed neu lai – llai na 250g y dydd i loi 20 wythnos oed). | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Nid oedd y ddeiet yn ystod yr archwiliad yn addas ar gyfer lloi. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| A18 | Rhaid i bob llo gael llaeth tor cyn gynted â phosibl ar ôl ei eni ac o fewn chwe awr cyntaf ei fywyd. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw’r hwsmon yn gofalu bod y llo yn cael llaeth tor yn ystod 6 awr cyntaf ei fywyd. | **Effaith ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

# SMR 12: Lles Anifeiliaid – moch

| | |
|---|---|
| Amcan y gofynion hyn yw diogelu lles moch trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer eu cadw a gofalu amdanyn nhw. Os ydych yn cadw moch, bydd yn rhaid ichi gadw at y safonau hyn yn ogystal â'r gofynion lles anifeiliaid fferm (SMR 13: Lles Cyffredinol Anifeiliaid). | |
| **Nodyn i'r archwilydd:** Nodyn i'r archwilydd: Os gwelwch y geiriau 'modd ei gywiro neu barhaol', bydd pa un i'w ddewis yn dibynnu ar y tramgwydd yn erbyn yr anifail dan sylw. Os oes modd gwella amodau'r anifail, yna mae'n dramgwydd y mae modd ei gywiro. Lle nad oes modd lleihau poen neu ofid yr anifail, e.e. anaf parhaol neu fod yn rhaid difa'r anifail, yna mae'n dramgwydd parhaol.<br>Byddwn yn asesu difrifoldeb fel a ganlyn:<br>**Canolig:** tystiolaeth o dramgwydd nad yw wedi achosi poen, anaf, dioddefaint na gofid diangen i'r anifail.<br>**Uchel:** lle bo'r anifail wedi dioddef poen, anaf, dioddefaint neu ofid diangen. | |
| A1 | Rhaid ichi ofalu bod pob un o'ch moch yn gallu troi o gwmpas heb drafferth bob amser. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw pob mochyn yn gallu troi o gwmpas heb drafferth bob amser.<br>Yn ôl pob tebyg, y rheswm am y tramgwydd hwn yw bod y moch wedi'u clymu mewn ffordd anghywir neu ddiffygion yn eu lloc – nodir manylion y tramgwyddau hyn isod. | **Effaith ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| A2 | Peidiwch byth â chlymu'ch moch. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Caiff y mochyn ei glymu heb fod angen (h.y. nid ar gyfer ei archwilio neu ei drin ar unwaith neu am ei fod wedi cael ei archwilio neu ei drin yn ddiweddar).<br>Os mai at ddibenion milfeddygol y bydd y ffermwr yn clymu'r moch, ni fydd yn torri'r rheol hon. Os felly, rhaid archwilio unrhyw dennyn yn rheolaidd a'i addasu i sicrhau nad yw'n achosi poen neu anaf i'r mochyn a'i fod yn gallu gorwedd, gorffwys, sefyll a llyfu ei hun. | **Effaith ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Mae'r tennyn yn atal y mochyn rhag gorwedd, gorffwys, sefyll a llyfu ei hun heb drafferth. | **Effaith ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Mae'r tennyn wedi achosi poen neu anaf i'r mochyn. | **Effaith ar y fferm** | **Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| A3 | Rhaid gofalu bod lloc eich moch yn caniatáu iddynt:<br>• sefyll, gorwedd a gorffwys heb drafferth;<br>• cael lle glân, cyfforddus a sych i orffwys arno (gan gynnwys sarn (gwellt ac ati) glân, sych na all wneud niwed i'r moch);<br>• gweld moch eraill (oni bai bod y mochyn wedi'i ynysu am resymau milfeddygol neu i eni perchyll);<br>• cadw tymheredd cyfforddus – ni ddylid cadw moch mewn tymheredd uchel/lleithder uchel a elwir yn 'system blwch chwysu';<br>• digon o le i bob un ohonynt allu gorwedd yr un pryd. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r mochyn yn gallu sefyll a/neu orwedd a/neu orffwys heb drafferth. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Nid oes gan y mochyn le gorwedd glân a/neu gyfforddus a/neu ddigon sych i orffwys ynddo, neu nid yw eu sarn yn addas/cael ei gadw mewn cyflwr sy'n osgoi niwed/anghysur i'r moch. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Nid yw'r mochyn yn gallu gweld moch eraill (oni bai bod y mochyn wedi'i ynysu i eni perchyll neu am resymau milfeddygol). | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Nid yw'r mochyn mewn tymheredd cyfforddus;<br>gan gynnwys ei gadw mewn system blwch chwysu. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Dim digon o le i'r moch i gyd orwedd yr un pryd. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A4 | Rhaid ichi ofalu bod pob stâl neu loc unigol yn bodloni'r gofynion maint (mae yna eithriadau i hyn). |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae arwynebedd y stâl/lloc yn llai na hyd y mochyn wedi'i luosi â'i hun; mae un o'r ochrau mewnol yn llai na 75% o hyd y mochyn.<br><br>Bydd hyd y mochyn yn cael ei fesur o flaen ei swch at fôn ei gynffon pan fydd yn sefyll â'i gefn yn syth.<br><br>Pwysig: Caniateir yr eithriadau canlynol ac NI ystyrir bod y rhain yn tramgwyddo'r gofynion o ran maint lloc unigol:<br>• Lle cedwir hwch/banwes am y cyfnod o saith niwrnod cyn y diwrnod y disgwylir iddi eni ei pherchyll tan y diwrnod pan gaiff ei pherchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll y mae'n eu mabwysiadu) eu diddyfnu;<br>• Pan gedwir mochyn mewn stâl neu loc:<br>- at ddibenion milfeddygol.<br>- at ddibenion rhoi baedd, ffrwythloni artiffisial neu gasglu semen.<br>- Pan gaiff ei fwydo:<br>- at ddibenion ei farcio, ei olchi neu ei bwyso<br>- tra bo'i loc yn cael ei lanhau<br>- wrth aros i gael ei lwytho i'w gludo i rywle arall.<br>Fodd bynnag, ni ddylid cadw'r mochyn yn y fan hon yn hirach nag sy'n angenrheidiol i'r diben hwnnw.<br><br>Hefyd, nid yw'r gofynion ar gyfer maint stâl neu loc yn berthnasol os gall y mochyn fynd a dod fel y mynno.<br>Os felly, rhaid i'r mochyn allu mynd i mewn i'r stâl o stâl neu loc arall lle cedwir y mochyn fel arfer ac sydd yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol. | **Effaith ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A5 | Bydd y llawr ar gyfer moch sy’n cael eu cadw dan do yn: llyfn heb fod yn llithrig; addas ar gyfer maint a phwysau’r moch; solid, gwastad a sefydlog, os nad oes sarn; wedi’i gynllunio, ei adeiladu a’i gynnal i osgoi anaf neu ddioddefaint i’r moch wrth sefyll neu orwedd arno. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nodir un o’r canlynol am y llawr:<br>• ddim yn llyfn;<br>• llithrig;<br>• anaddas ar gyfer maint a phwysau’r moch;<br>• anwastad/ansefydlog (pan nad oes sarn);<br>• heb ei gynllunio, ei adeiladu neu ei gynnal i osgoi anaf neu;<br>• ddioddefaint i foch wrth sefyll neu gorwedd arno. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| A6 | Rhaid ichi ddarparu llawr â’r mesuriadau cywir (ar gyfer agoriadau a slatiau) os ydych yn defnyddio slatiau concrit. Mae hyn yn berthnasol i foch a gedwir mewn grwpiau ac os yw eich daliad newydd ei adeiladu, ei ailadeiladu neu y dechreuwyd ei ddefnyddio am y tro cyntaf ar ôl 1 Ionawr 2003. Bydd y rheolau hyn yn berthnasol i bob daliad o 1 Ionawr 2013. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae’r agoriadau yn rhy llydan rhwng y slatiau ar gyfer y categori o foch.<br>Dim ond os yw’r daliad newydd ei adeiladu, ei ailadeiladu neu y dechreuwyd ei ddefnyddio am y tro cyntaf ar ôl 1 Ionawr 2003 y mae’r gofyn hwn o ran y llawr yn berthnasol (bydd yn berthnasol i bob daliad o 1 Ionawr 2013). | Effaith ar y fferm<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Lled y slatiau yn rhy fach ar gyfer y categori o foch.<br>Dim ond os yw'r daliad newydd ei adeiladu, ei ailadeiladu neu y dechreuwyd ei ddefnyddio am y tro cyntaf ar ôl 1 Ionawr 2003 y mae'r gofyniad hwn o ran y llawr yn berthnasol (bydd yn berthnasol i bob daliad o 1 Ionawr 2013). | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| A7 | Rhaid ichi ddarparu golau artiffisial o 40 lux o leiaf am o leiaf 8 awr bob dydd, yn achos moch a gedwir mewn adeilad a oleuir yn artiffisial. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r golau a roddir i'r moch yn llai na 40 lux mewn adeiladau lle mae'r moch yn dibynnu ar oleuadau artiffisial. | Effaith ar y fferm | Canolig | Modd ei gywiro |
| | Mae'r moch yn cael llai nag 8 awr o olau mewn adeiladau lle mae'r moch yn dibynnu ar oleuadau artiffisial. | Effaith ar y fferm | Canolig | Modd ei gywiro |

| | |
|---|---|
| A8 | Peidiwch â rhoi eich moch mewn sefyllfa lle y maent yn agored i sŵn cyson neu sydyn, na lefelau uwchlaw 85 desibel mewn unrhyw adeilad lle rydych yn cadw eich moch. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r moch yn agored i sŵn parhaus sy'n 85 desibel ac uwch. | Effaith ar y fferm | Canolig | Modd ei gywiro |
| | Mae'r moch yn agored i synau uchel cyson neu sydyn y gellid yn rhesymol eu hosgoi neu eu lleihau. | Effaith ar y fferm | Canolig | Modd ei gywiro |

| A9 | Rhaid i bob mochyn allu mynd yn ddirwystr at gyflenwad digonol o ddeunydd fel gwellt, gwair, pren, blawd llif, compost madarch, mawn neu gymysgedd o ddeunyddiau o'r fath, i allu twrio a chwilio ynddo, heb amharu ar ei iechyd. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Dim deunydd ar gael i'r mochyn allu twrio a chwilio ynddo neu dim digon ohono. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Deunydd sy'n wael i iechyd y moch. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A10 | Os ydych yn cadw eich moch gyda'i gilydd, rhaid ichi gymryd camau i'w hatal rhag ymladd y tu hwnt i'r arfer, gan gadw'r moch hynny sy'n ymosodol yn barhaus neu sy'n dioddef yn sgil yr ymosodedd hwnnw ar wahân. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Camau annigonol i leihau ymosodedd mewn grwpiau moch. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Peidio ag ynysu moch sy'n gyson ymosodol, neu eu dioddefwyr, oddi wrth weddill y grŵp. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| A11 | Wrth fwydo moch sy'n cael eu cadw mewn grŵp dan do, rhaid i bob mochyn gael mynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn y grŵp bwydo; cael mynd unrhyw bryd at y bwyd; cael eu bwyd trwy system fwydo awtomatig. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Ar gyfer systemau bwydo nad ydynt yn rhydd, neu os nad yw'r anifeiliaid yn cael eu bwydo bob yn un drwy system fwydo awtomatig, nid yw'r moch yn cael mynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn y grŵp bwydo.<br>Mae yna ofynion penodol ar gyfer hychod a banwesi. Nodir y rhain nes ymlaen. | Effaith ar y fferm | Canolig | Modd ei gywiro |

| | |
|---|---|
| A12 | Rhaid gofalu bod cyflenwad digonol di-dor o ddŵr yfed ffres ar gyfer pob mochyn dros 2 wythnos oed bob dydd. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw moch dros 2 wythnos oed wedi bod yn cael cyflenwad digonol di-dor o ddŵr yfed ffres.<br>Mae'r gofyn hwn yn ychwanegol at y gofyn cyffredinol i roi digon o ddŵr addas i anifeiliaid yn yr SMR 13. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| | Perchyll |
| B1 | Rhaid darparu ffynhonnell gwres a man gorwedd sych a chysurus i'r perchyll, i ffwrdd oddi wrth yr hwch lle gall pob un ohonynt orffwys yr un pryd. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Ni ddarparwyd ffynhonnell gwres a man gorwedd sych a chysurus i'r perchyll, i ffwrdd oddi wrth yr hwch lle gall pob un ohonynt orffwys yr un pryd (lle ystyrir bod angen hynny er mwyn bodloni'r holl ofynion). | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| B2 | Rhaid i ran o arwynebedd y llawr lle cedwir y perchyll fod yn ddigon mawr i ganiatáu i'r anifeiliaid orffwys gyda'i gilydd yr un pryd a rhaid iddo fod yn solid ac o dan orchudd mat neu wellt neu ddeunydd addas arall. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Dim lle neu dim digon o le o dan orchudd mat neu wellt neu ddeunydd addas arall, i ganiatáu i'r perchyll orwedd gyda'i gilydd yr un pryd. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| B3 | Pan ddefnyddir lloc porchella, rhaid bod gan y perchyll ddigon o le i allu sugno heb drafferth. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid oes digon o le i'r perchyll allu sugno heb drafferth. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| B4 | Rhaid peidio â diddyfnu perchyll sy'n llai nag 28 diwrnod oed (oni fyddai peidio â gwneud hynny yn andwyol i les neu iechyd yr hwch neu'r perchyll). Caniateir diddyfnu perchyll hyd at saith diwrnod ynghynt os symudir hwy i lety arbenigol y byddwch yn ei wagio, ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr cyn cymryd grŵp newydd i mewn, ac sydd ar wahân i adeiladau lle y cedwir hychod eraill. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Diddyfnu perchyll pan fyddant yn iau nag 28 diwrnod oed, heb gyfiawnhad rhesymol mewn perthynas â iechyd yr hwch a/neu'r perchyll nac ar sail lles A lle nad oes llety arbenigol priodol i ddiddyfnu perchyll yn gynnar. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Mae yna lety arbenigol ar gyfer perchyll a ddiddyfnir yn gynnar, ond ni chaiff ei wagio, ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr cyn cymryd grŵp newydd i mewn a/neu nid yw ar wahân i'r adeiladau lle y cedwir hychod. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| | Hychod a Banwesi |
| C1 | Rhaid ichi drin banwesi a hychod torrog rhag paraseitiaid mewnol ac allanol, os oes angen. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r hychod a/neu'r banwesi wedi'u trin, pan oedd angen, rhag paraseitiaid mewnol ac allanol (baich paraseitiaid annerbyniol). | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| C2 | Cyn eu rhoi mewn lloc porchella, rhaid i hychod a banwesi torrog gael eu glanhau'n drylwyr. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth a/neu gyfaddefiad gan ffermwr nad yw ei hychod a/neu ei fanwesi yn cael eu glanhau cyn eu rhoi mewn llociau porchella. | Effaith ar y fferm | Canolig | Modd ei gywiro |

| C3 | Yn yr wythnos cyn y disgwylir iddynt eni perchyll, rhaid rhoi digon o ddeunydd nythu addas i hychod a banwesi (onid yw'n dechnegol anymarferol oherwydd y system slyri sy'n cael ei defnyddio). |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Dim digon o ddeunydd nythu addas ar gyfer hychod a/neu fanwesi wythnos cyn iddynt borchella, lle mae'n rhesymol bosibl darparu deunydd o'r fath. | Effaith ar y fferm | Canolig | Modd ei gywiro |

| C4 | Rhaid cadw hychod a banwesi mewn grwpiau (ac eithrio yn ystod y cyfnod rhwng saith niwrnod cyn diwrnod disgwyl geni'r perchyll a'r diwrnod y caiff y perchyll eu diddyfnu). Caniateir peidio â chadw hychod a banwesi mewn grwpiau os oes llai na 10 hwch ar y daliad, cyn belled â bod y llociau unigol yn cydymffurfio â'r gofynion cyffredinol ar gyfer llociau moch. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Caiff yr hychod a'r banwesi eu cadw ar eu pen eu hunain ar wahân i'r cyfnod rhwng 7 diwrnod cyn porchella a diwrnod cwblhau diddyfnu'r perchyll.<br>Caniateir cadw hychod a banwesi ar ddaliadau o lai na 10 hwch mewn llociau unigol cyn belled â bod eu llociau'n cydymffurfio â'r gofynion cyffredinol ar gyfer llociau moch. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| C5 | Rhaid ichi sicrhau bod gan bob banwes/hwch sy'n cael ei chadw mewn grŵp yr arwynebedd llawr dirwystr, y llawr solid di-dor a llociau o'r dimensiynau cywir, sy'n ofynnol arni ar ôl cael baedd. Mae hyn yn berthnasol i bob daliad o 1 Ionawr 2013. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Dim digon o lawr dirwystr i'r banwesi a/neu'r hychod ar ôl cael baedd. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Dim digon o lawr di-dor i'r banwesi a/neu'r hychod ar ôl cael baedd. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Hyd y lloc yn llai na 2.8m (neu yn llai na 2.4m lle mae llai na 6 mochyn). | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| C6 | Yn ystod amser geni perchyll, rhaid bod lle dirwystr y tu ôl i'r hwch neu'r fanwes. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Dim lle dirwystr y tu ôl i'r hwch neu'r fanwes i hwyluso geni'r perchyll yn naturiol neu gyda chymorth. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| C7 | Mewn llociau porchella lle cedwir hychod yn rhydd, rhaid wrth fodd i amddiffyn y perchyll, megis rheiliau porchella. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Pan gedwir hychod yn rhydd mewn llociau porchella, nid yw'r perchyll yn cael eu hamddiffyn mewn unrhyw ffordd (e.e. rheiliau porchella). | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| C8 | Rhaid i hychod a banwesi gael eu bwydo drwy ddefnyddio system sy'n sicrhau bod pob mochyn yn cael digon o fwyd, hyd yn oed pan fydd moch eraill yn cystadlu am y bwyd. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r hychod a'r banwesi a gedwir mewn grwpiau yn cael eu bwydo drwy system sy'n gofalu bod pob mochyn yn cael digon o fwyd pan fydd moch eraill yn cystadlu am y bwyd. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| C9 | Rhaid rhoi i bob hwch a banwes dorrog hesb ddigon o swmpfwd neu fwyd ffibr uchel yn ogystal â bwyd ynni uchel i ddigoni eu chwant bwyd a'u hangen i gnoi. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw hychod neu fanwesi torrog hesb yn cael digon o swmpfwyd neu fwyd ffibr uchel. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | Baeddod |
|---|---|
| D1 | Rhaid i loc baedd ganiatáu i'r baedd droi a chlywed, gweld ac arogli moch eraill. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Baedd yn methu â throi yn ei loc. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Baedd yn methu â chlywed a/neu weld a/neu arogli moch eraill. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| D2 | Rhaid i'r man gorffwys yn lloc y baedd fod yn lân ac i'r man gorwedd fod yn sych ac yn gysurus. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Lloc baedd heb fannau gorffwys glân a man gorwedd sych a chysurus. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| D3 | Rhaid gofalu bod pob baedd yn cael yr arwynebedd llawr dirwystr gofynnol. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Lloc, na chaiff ei ddefnyddio ar gyfer serfio naturiol, sy'n llai na $6m^2$. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Lloc, sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer serfio naturiol, sy'n llai na $10m^2$. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Rhwystrau mewn lloc, sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer serfio naturiol. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | Perchyll diddwyn a moch magu |
|---|---|
| E1 | Rhaid gofalu bod gan bob porchell diddwyn neu fochyn magu yr arwynebedd llawr dirwystr gofynnol pan gânt eu cadw mewn grwpiau. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Dim digon o arwynebedd llawr i'r perchyll diddwyn neu'r moch magu yn ôl asesiad yr archwilydd. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| E2 | Rhaid rhoi moch mewn grwpiau cyn gynted â phosibl ar ôl eu diddyfnu. Rhaid cadw'r grwpiau hyn yn sefydlog, gyda chyn lleied â phosibl o gymysgu. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Moch wedi'u cymysgu ar oed neu amser amhriodol, heb fod hynny'n eu hatal rhag ymladd y tu hwnt i'r arfer. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| E3 | Os oes rhaid cymysgu moch, rhaid rhoi digon o gyfleoedd iddynt ddianc a chuddio rhag moch anghyfarwydd. Dylid gwneud hynny pan fyddant mor ifanc â phosibl – o ddewis cyn neu hyd at un wythnos ar ôl eu diddyfnu. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Lle cymysgir moch, nid oes digon o gyfle i foch ddianc a chuddio rhag moch eraill. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| E4 | Dim ond o dan amodau eithriadol y dylid defnyddio meddyginiaeth dawelu er mwyn hwyluso cymysgu a hynny dim ond ar ôl ymgynghori â milfeddyg. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Defnyddio meddyginiaeth dawelu er mwyn hwyluso cymysgu lle nad oes amodau eithriadol a heb ymgynghori â milfeddyg, neu'n groes i'w gyngor. | **Effaith ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

# SMR 13: Lles Anifeiliaid (Cyffredinol)

| | |
|---|---|
| Amcan y gofynion hyn yw diogelu lles anifeiliaid fferm trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer eu cadw a gofalu amdanyn nhw. Rhaid ichi gadw at y safonau hyn os ydych chi'n cadw anifeiliaid at ddiben eu ffermio. | |
| **Nodyn i'r archwilydd:** Os gwelwch y geiriau 'modd ei gywiro neu barhaol', bydd pa un i'w ddewis yn dibynnu ar y tramgwydd yn erbyn yr anifail dan sylw. Os oes modd gwella amodau'r anifail, yna mae'n dramgwydd y mae modd ei gywiro. Lle nad oes modd lleihau poen neu ofid yr anifail e.e. anaf parhaol neu bod yn rhaid difa'r anifail, yna mae'n dramgwydd parhaol.<br>Byddwn yn asesu difrifoldeb fel a ganlyn:<br>**Canolig:** tystiolaeth o dramgwydd nad yw wedi achosi poen, anaf, dioddefaint a gofid diangen i'r anifail.<br>**Uchel:** lle bo'r anifail wedi dioddef poen, anaf, dioddefaint neu ofid diangen. | |
| A1 | Rhaid sicrhau bod gennych ddigon o staff sydd â'r galluoedd a'r wybodaeth briodol i ofalu am eich anifeiliaid. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae nifer y staff yn rhy fach i rwystro problemau lles. | **Effaith ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Tystiolaeth nad oes gan y stocmon y sgiliau proffesiynol na/neu'r gallu i ofalu am dda byw – gallu nad oes amod yn yr atodlen yn ymdrin ag ef.<br>Er enghraifft:<br>1) Lle cedwir anifail (heblaw dofednod) dan do, nad yw'n gallu mynd at le gorwedd sydd â naill ai digon o sarn (gwellt ac ati) sych arno neu sydd wedi'i ddraenio'n dda;<br>2) Lle cedwir anifail dan do lle mae ei sarn ac ati yn cyfyngu ar ei symudiadau ond heb achosi dioddefaint diangen.<br>Lle datgelir dioddefaint diangen yn enghraifft 2, dylid cofnodi'r tramgwydd o dan B1 (rhyddid i symud). | **Effaith ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| A2 | Os yw eich system hwsmona yn dibynnu ar roi sylw rheolaidd i'r anifail, rhaid ichi archwilio'r anifail yn drylwyr o leiaf unwaith bob dydd, ac mewn systemau eraill, mor aml ag sydd ei angen i osgoi dioddefaint. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r da byw yn cael eu harchwilio'n ddigon aml.<br>Mae gofynion penodol mewn cysylltiad â lloi yn SMR11: Lles Lloi (gofyn A1). | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A3 | Rhaid ichi sicrhau bod digon o olau ichi allu cynnal archwiliad trylwyr bob amser. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid oes digon o olau i allu archwilio'r anifeiliaid.<br>Dim digon neu dim golau sefydlog na chludadwy ichi allu archwilio'ch anifeiliaid. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A4 | Rhaid rhoi gofal i anifeiliaid sâl neu sydd wedi'u hanafu ar unwaith, ac os nad ydyn nhw'n ymateb i'r gofal hwn, rhaid cysylltu â milfeddyg. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw anifeiliaid wedi cael y gofal priodol, gan gynnwys cyngor milfeddyg.<br>Bu oedi annerbyniol cyn rhoi gofal i anifail sâl (gallai'r asesiad hwn ddibynnu ar farn bersonol yr archwilydd o ba mor aml y dylai anifail gael ei archwilio).<br>Nid yw'r stocmon wedi cysylltu â'r milfeddyg ac mae'r archwilydd yn teimlo y byddai unrhyw stocmon cymwys wedi cysylltu. | Effaith ar y fferm<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| | |
|---|---|
| A5 | Rhaid ynysu anifail sâl neu sydd wedi'i anafu mewn lle addas gyda sarn cyfforddus sych ar ei gyfer, os oes angen. |

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r anifail wedi'i ynysu er bod yr arolygydd o'r farn ar ddiwrnod yr archwiliad bod angen ei ynysu a'i roi mewn lle addas gyda sarn (gwellt ac ati) sych a chyfforddus ar ei gyfer. | **Effaith ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| | Nid yw'r man ynysu yn addas (o ystyried anafiadau/salwch yr anifail). | **Effaith ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A6 | Rhaid cadw cofnod o unrhyw foddion sy'n cael eu rhoi i'ch anifeiliaid a rhaid cadw'r cofnodion am o leiaf 3 blynedd o ddyddiad y driniaeth. Rhaid gofalu bod y cofnodion hyn ar gael i archwilydd eu harchwilio (neu pan ofynnir amdanyn nhw). |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae cofnodion o foddion yn anghyflawn/anghywir a/neu nid ydynt ar gael ar gyfer y 3 blynedd blaenorol neu ni chânt eu cyflwyno pan ofynnir amdanynt.<br>Bydd y ffermwr yn tramgwyddo os bydd un neu ragor o'r pwyntiau canlynol yn wir mewn perthynas â chofnodion o foddion:<br>• ni chedwir cofnodion neu nid ydynt ar gael adeg yr archwiliad;<br>• cedwir cofnodion ond maent yn anghywir neu mae gwybodaeth ar goll;<br>• ni chadwyd cofnodion am y cyfnod amser gofynnol o ddyddiad y driniaeth.<br>Mae cofnodion moddion yn cael eu cadw ond nid ydynt yn cyfateb i'r cynnyrch/anfonebau milfeddygon/anifeiliaid oedd yn cael triniaeth ar y fferm pan gynhaliwyd yr archwiliad (h.y. mae'r cofnodion yn annigonol neu'n anghywir). | **Effaith ar y fferm** | **Isel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| A7 | Rhaid ichi greu cofnod o nifer yr anifeiliaid sydd wedi marw pan gynhelir archwiliad, a chadw'r cofnodion hyn am o leiaf 3 blynedd o ddyddiad yr archwiliad perthnasol, gan ofalu bod y cofnodion hyn ar gael i archwilydd (neu pan ofynnir amdanyn nhw). |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r cofnodion marwolaethau'n anghyflawn/anghywir a/neu ddim ar gael am y 3 blynedd diwethaf neu ni chânt eu cyflwyno pan ofynnir amdanynt.<br>Bydd y ffermwr yn tramgwyddo os bydd un neu ragor o'r pwyntiau canlynol yn wir mewn perthynas â marwolaeth:<br>• ni chedwir cofnodion neu nid ydynt ar gael i'r arolygydd adeg yr archwiliad;<br>• cedwir cofnodion ond maent yn anghywir neu mae gwybodaeth ar goll;<br>• ni chadwyd cofnod o nifer y marwolaethau ar gyfer y cyfnod amser gofynnol o ddyddiad yr archwiliad perthnasol.<br>Ni chedwir cofnodion marwolaethau/Mae cofnodion marwolaethau'n cael eu cadw ond nid ydynt yn cyfateb i'r dystiolaeth a gafwyd ar y fferm, ee carcasau a/neu wybodaeth ar gronfa ddata berthnasol. | **Effaith ar y fferm** | **Isel** | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| A8 | Rhaid ichi beidio â chyfyngu ar symudiadau'ch anifeiliaid os gallai hynny achosi dioddefaint neu anaf diangen. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r anifail wedi dioddef neu gael anaf yn ddiangen am ichi gyfyngu ar ei symudiadau.<br>**Pwysig:** Lle cedwir anifail dan do lle mae ei sarn ac ati yn cyfyngu ar ei symudiadau ond heb achosi dioddefaint diangen, dylid cofnodi'r tramgwydd o dan A2. | Effaith ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A9 | Rhaid i anifail sydd wedi'i glymu neu ei gaethiwo trwy'r amser neu'n rheolaidd gael digon o le rhag dioddef stres diangen a rhaid iddo allu hefyd ymddwyn yn naturiol yn unol â'r wybodaeth wyddonol a phrofiad cyffredin. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae clymu neu gaethiwo'r anifail yn achosi dioddefaint neu anaf diangen iddo.<br>Mae gofynion penodol o ran clymu lloi yn SMR 11 Lles Lloi a moch yn SMR 12 Lles Moch. | Effaith ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A10 | Rhaid ichi beidio â defnyddio deunydd a/neu offer ar gyfer adeilad yr anifail allai niweidio'r anifail. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae deunydd niweidiol wedi'i ddefnyddio i adeiladu cytiau, llociau a/neu offer. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A11 | Rhaid bod modd glanhau a diheintio’r deunydd rydych chi’n ei ddefnyddio ar gyfer adeilad yr anifail. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae’r deunydd sydd wedi’i ddefnyddio yn golygu nad oes modd glanhau a diheintio’r adeilad. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A12 | Wrth adeiladu a chynnal a chadw’r adeilad, rhaid gofalu nad oes ymylon na darnau miniog sy’n gallu anafu’r anifail. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Ymylon a darnau miniog yn adeilad yr anifail yn debygol o’i anafu. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A13 | Rhaid i gylchrediad aer, lefelau llwch, tymheredd, lleithder aer cymharol a chrynodiadau nwy gael eu cadw o fewn terfynau nad ydynt yn niweidiol i anifeiliaid. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Cylchrediad yr aer, lefel y llwch, nwy, tymheredd neu leithder yr aer, gyda’i gilydd neu fel arall, yn niweidiol i anifeiliaid. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A14 | Rhaid darparu goleuni artiffisial os nad oes digon o oleuni naturiol yn yr adeilad. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid oes goleuni artiffisial wedi’i ddarparu pan nad oes digon o oleuni naturiol at anghenion ffisiolegol ac etholegol yr anifail. | Effaith ar y fferm | Canolig | Modd ei gywiro |

| A15 | Rhaid ichi beidio â chadw anifeiliaid mewn tywyllwch parhaol na chwaith heb seibiant rhag goleuni artiffisial. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r anifeiliaid yn cael eu cadw mewn tywyllwch parhaol.<br>Mae gofynion penodol mewn cysylltiad â lloi yn SMR 11 Lles Lloi a moch yn SMR 12 Lles Moch. | Effaith ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro |
| | Nid yw'r anifeiliaid yn cael seibiant rhag goleuni artiffisial Mae gofynion penodol mewn cysylltiad â lloi yn SMR 11 Lles Lloi a moch yn SMR 12 Lles Moch. | Effaith ar y fferm | Uchel | Modd ei gywiro |

| A16 | Rhaid sicrhau bod gan eich anifeiliaid le sydd wedi'i ddraenio'n dda bob amser i fynd iddo i orwedd os nad ydych yn eu cadw dan do, ac os oes angen, dylai fod lloches iddynt rhag tywydd cas, anifeiliaid ysglyfaethus a pheryglon i'w hiechyd. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Tystiolaeth nad oes lle wedi'i ddraenio'n dda ar gyfer eich stoc nad ydych yn eu cadw dan do. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Nid yw'r anifeiliaid sydd allan yn cael eu diogelu rhag tywydd cas, anifeiliaid ysglyfaethus na/neu beryglon eraill i'w hiechyd. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A17 | Rhaid ichi archwilio peiriannau ac offer mecanyddol sy'n hanfodol i iechyd a lles eich anifeiliaid o leiaf unwaith bob dydd a chywiro unrhyw namau ar unwaith (neu gymryd camau priodol i ddiogelu iechyd a lles eich anifeiliaid tan fod y nam yn cael ei gywiro). |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r peiriannau neu'r offer sydd eu hangen i ddiogelu. iechyd a lles yr anifeiliaid yn cael eu harchwilio o leiaf unwaith bob dydd. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Cafwyd bod namau ar y peiriannau neu'r offer sy'n hanfodol i iechyd a lles ac nid yw'r ffermwr wedi cymryd y camau priodol. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A18 | Rhaid ichi ddarparu system wrth gefn i'ch prif system os yw iechyd a lles eich anifeiliaid yn dibynnu ar awyru artiffisial, a rhaid wrth larwm i'ch rhybuddio pan fydd diffyg yn y system awyru. Rhaid eu harchwilio a'u profi o leiaf unwaith bob 7 niwrnod. |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Diffyg system wrth gefn a/neu larwm. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Diffyg tystiolaeth ac ymateb y stocmon yn awgrymu nad yw'r system wrth gefn na/neu'r larwm yn cael eu harchwilio o leiaf unwaith bob 7 niwrnod. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Mae'r larwm a/neu'r system wrth gefn yn bresennol ond nid oeddent yn gweithio pan gawsant eu gweld (h.y. nam ar y system). | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A19 | Rhaid rhoi deiet faethlon i'ch anifeiliaid a sicrhau eu bod yn cael bwyd pan fydd ei angen arnynt (o leiaf unwaith bob dydd). |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r bwyd sydd ar gael yn faethlon a/neu nid yw'n addas ar gyfer oed a rhywogaeth yr anifeiliaid sy'n cael eu harchwilio. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Nid yw'r bwyd yn cynnal iechyd da nac yn ateb y gofyn am faeth. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Mae'r anifeiliaid yn cael eu bwydo lai nag unwaith bob dydd a/neu nid yw'r bwyd yn diwallu eu hanghenion corfforol. Ni wneir hyn ar gyngor milfeddyg.<br>Mae gofynion penodol mewn cysylltiad â lloi yn SMR 11 Lles Lloi. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A20 | Rhaid ichi sicrhau bod gan bob anifail gyflenwad addas o ddŵr a digon o ddŵr yfed ffres neu hylif arall bob dydd. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Dim neu dim digon o ddŵr (neu hylif addas arall) – nid yw'r anifail yn cael diwallu ei angen am hylif. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A21 | Rhaid ichi beidio â rhoi bwyd na diod i'ch anifeiliaid mewn ffordd neu sy'n cynnwys sylwedd, allai achosi niwed diangen iddyn nhw. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r anifeiliaid wedi cael bwyd/diod allai roi poen neu anaf heb angen iddynt. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A22 | Rhaid ichi ddiogelu'r bwyd a dŵr rhag eu llygru a diogelu'ch anifeiliaid rhag effeithiau drwg gorfod cystadlu am fwyd a dŵr ag anifeiliaid eraill trwy ddylunio a lleoli'ch offer bwydo a dyfrhau'n iawn. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Bwyd a/neu ddŵr yn cael ei lygru oherwydd dyluniad, adeiladwaith neu leoliad yr offer. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Gweld cystadleuaeth niweidiol/gormodol rhwng anifeiliaid am fwyd a/neu ddŵr. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A23 | Rhaid ichi beidio â rhoi unrhyw sylwedd sy'n niweidiol i'ch anifeiliaid, oni bai bod eich milfeddyg yn eich cynghori i'w roi. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Triniaeth ddidrwydded wedi'i rhoi i'r anifeiliaid. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Rhoi triniaeth nad yw'n cael ei hystyried yn therapi derbyniol ar gyfer y cyflwr hwnnw yn y rhywogaeth honno. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A24 | Rhaid peidio ag anffurfio'ch anifeiliaid nac ymyrryd ynddyn nhw oni bod y driniaeth honno'n 'driniaeth a ganiateir'. (Mae amodau wrth lawer o'r rhain, e.e. rhaid bod cyfiawnhad rhesymol dros ei chynnal a bod y driniaeth yn 'obaith olaf'). |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r anifail wedi'i anffurfio fel rhan o driniaeth nad oedd wedi'i chaniatáu.<br>Bydd hyn yn dramgwydd bwriadol. | Effaith ar y fferm | Uchel | Parhaol |
| | Mae triniaeth a ganiateir wedi'i chynnal ond nid gan filfeddyg neu berson profiadol/wedi'i hyfforddi, yn unol â'r gyfraith.<br>Er enghraifft, gallai hyn gynnwys torri cynffonnau defaid lle nad oes dioddefaint diangen. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Parhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae triniaeth a ganiateir ag iddi amodau penodol wedi'i chynnal ond nid yw'r amodau hynny wedi'u bodloni e.e.<br>• Yr angen am anesthetig<br>• Oed<br>• Dull cynnal y driniaeth<br>• Dim ond milfeddyg sy'n cael rhoi'r driniaeth<br>• Y driniaeth yw'r gobaith olaf<br>• Rhoi'r driniaeth ar adeg briodol o'r cylch magu<br><br>Gallai cynnal triniaeth sy'n cael ei chaniatáu, mewn ffordd anghyfreithlon fod yn dramgwydd bwriadol. | **Effaith ar y fferm** | **Uchel**<br>neu<br>**Uchel** | **Parhaol** |

| A25 | Peidiwch â dilyn trefniadau bridio (boed naturiol neu artiffisial) sy'n rhoi neu sy'n debygol o niweidio'ch anifeiliaid. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae tystiolaeth bod trefniadau bridio wedi'u cynnal sy'n debygol o roi neu wedi rhoi poen neu anaf i anifeiliaid. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

| A26 | Peidiwch â chadw anifeiliaid at bwrpas eu ffermio oni bai y gellid disgwyl yn rhesymol y bydd nodweddion arferol y brid (genetig a chorfforol) yn golygu y bydd modd eu cadw heb niweidio'u hiechyd na'u lles. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gan yr anifeiliaid sy'n cael eu cadw at bwrpas eu ffermio enoteip neu ffenoteip fyddai'n debygol o achosi niwed i'w hiechyd neu eu lles. | Effaith ar y fferm | Canolig<br>neu<br>Uchel | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |

# GAEC 1: Dŵr – Sefydlu Lleiniau Clustogi

Amcan y gofynion hyn yw diogelu dŵr wyneb rhag cael ei lygru gan wrtaith a chynhyrchion amddiffyn planhigion trwy greu lleini au clustogi. Mae gofyn cynnal y safon hon ar bob tir amaethyddol yng Nghymru, waeth beth yw maint y cae neu'r parsel.

Mae "dŵr wyneb" yn cynnwys dŵr yr arfordir, aberoedd, camlesi, llynnoedd, pyllau dŵr, afonydd, nentydd a ffosydd sydd â dŵr ynddynt sy'n llifo'n rhydd. Mae'n cynnwys hefyd ffosydd sy'n sych am gyfnod a ffosydd cudd.

Peidiwch â:

- i) gwasgaru gwrtaith nitrogen artiffisial o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb;
- ii) gwasgaru gwrtaith organig o fewn 6 metr i ddŵr wyneb, os ydych chi'n defnyddio offer gwasgaru manwl fel system chwistrellu, 'trailing shoe' neu far diferion;
- iii) gwasgaru gwrtaith organig o fewn 10 metr i ddŵr wyneb;
- iv) gwasgaru gwrtaith organig o fewn 50 metr i dwll turio, pistyll neu ffynnon;
- v) defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb oni bai bod CNC wedi rhoi caniatâd i chi wneud hynny er mwyn rheoli rhywogaethau estron goresgynnol;
- vi) rhoi porthiant atodol o fewn 10 metr i ddŵr wyneb.

Cewch wasgaru tail da byw (heblaw tail dofednod a slyri) o fewn 10 metr i ddŵr wyneb cyn belled â bod y tir yn cael ei reoli er lles adar rhydio sy'n magu, neu fel glaswelltir lled-naturiol blodeuog a'i fod wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu'n dod o dan ymrwymiad amaeth-amgylcheddol a'ch bod wedi cael caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Lywodraeth Cymru, fel sy'n briodol. Cewch wasgaru tail da byw os byddwch yn ei wasgaru rhwng 1 Mehefin a 31 Hydref yn gynwysedig. Ni chewch wasgaru tail da byw yn uniongyrchol ar ddŵr wyneb na gwasgaru mwy na 12.5 tunnell yr hectar y flwyddyn.

Mae "gwrtaith organig" yn golygu unrhyw wrtaith nitrogen neu ffosffad sy'n dod o anifail, planhigyn neu bobl, gan gynnwys tail da byw.

Mae 'cynhyrchion amddiffyn planhigion' yn cael eu diffinio yn SMR 10.

Ychydig iawn o gynhyrchion amddiffyn planhigion sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio mewn dŵr neu gerllaw, ac mae'n rhaid i chi hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru a gofyn am eu caniatâd cyn defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion yn y sefyllfaoedd hyn.

| 1.1 | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gwrtaith nitrogen artiffisial wedi'i wasgaru o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig**<br>neu<br>**Uchel** | **Parhaol**<br>neu<br>**Barhaol** |

| 1.2 | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gwrtaith organig wedi'i wasgaru o fewn 10 metr i ddŵr wyneb (6m, lle bo offer gwasgaru manwl, hy system chwistrellu,' trailing shoe' neu far diferion yn cael eu defnyddio).<br>Mae gwrtaith organig wedi'i wasgaru o fewn 10 metr i ddŵr wyneb ar dir sy'n dod o dan yr eithriad uchod ar gyfer tir sy'n cael ei reoli er lles adar rhydio, ond wedi'i wasgaru mewn ffordd sy'n mynd yn groes i o leiaf un o'r cyfyngiadau. | Effaith ar y fferm yn unig<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Canolig | Parhaol |

| 1.3 | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gwrtaith organig wedi'i wasgaru o fewn 50 metr i bistyll, ffynnon neu dwll turio. | Effaith ar y fferm yn unig<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Canolig | Parhaol<br>neu<br>Barhaol |
| | Mae porthiant atodol wedi'i roi o fewn 10 metr i ddŵr wyneb. | Effaith ar y fferm yn unig<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Canolig: y porthi'n achosi difrod allai achosi llygredd.<br>Uchel: y porthi'n achosi llygredd a/neu'n erydu glennydd. | Modd ei gywiro<br>neu<br>Barhaol |
| | Mae cynhyrchion amddiffyn planhigion wedi'u defnyddio o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb heb ganiatâd. | Effaith ar y fferm yn unig<br>neu<br>Effaith oddi ar y fferm | Canolig | Parhaol |

# GAEC 2: Dŵr – Defnyddio Dŵr i Ddyfrhau'r Tir

Amcan y gofynion hyn yw rheoli'r modd y defnyddir dŵr, trwy ddefnyddio trwyddedau tynnu dŵr i reoli faint o ddŵr a dynnir at ddibenion dyfrhau. Bydd rhaid i chi gael trwydded tynnu dŵr gan Cyfoeth Naturiol Cymru os ydych chi'n codi mwy na 20m$^3$ o ddŵr y dydd o ddŵr ar y tir (fel afon neu nant) neu ddŵr tanddaear (fel ffynnon neu dwll turio) at ddibenion dyfrhau.

Ni fyddwch yn tynnu dŵr at ddibenion dyfrhau heb drwydded os oes angen trwydded o'r fath. Os oes gennych drwydded tynnu dŵr ar gyfer dyfrhau, rhaid cadw at amodau'r drwydded honno.

| 2.1 | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau'r drwydded tynnu dŵr neu nid yw wedi cadw at y cyfarwyddyd tynnu dŵr. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel Iawn:** am beidio â chadw cofnod o faint o ddŵr sydd wedi'i dynnu o dan y drwydded.<br>**Isel:** yn cyfateb i gategori 3 neu 4 Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>**Canolig:** yn cyfateb i gategori 2 Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>**Uchel:** yn cyfateb i gategori 1 Cyfoeth Naturiol Cymru. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| | |
|---|---|
| 2.2 | Os nad oes gennych drwydded tynnu dŵr at ddibenion dyfrhau.<br>Rhaid ichi: gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted ag y medrwch os ydych chi'n dechrau codi mwy na 20m$^3$ o ddŵr bob dydd at ddibenion dyfrhau neu'n newid trwydded tynnu dŵr i ganiatáu dyfrhau. |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi codi mwy nag ugain metr ciwbig o ddŵr bob dydd o ffynhonnell cyflenwad at ddibenion dyfrhau heb drwydded tynnu dŵr briodol na chysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am gael newid ei drwydded bresennol er mwyn cael dyfrhau. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel Iawn:** yn cyfateb i gategori 3 neu 4 Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>**Canolig:** yn cyfateb i gategori 2 Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>**Uchel:** yn cyfateb i gategori 1 Cyfoeth Naturiol Cymru. | **Barhaol** |

# GAEC 3: Dŵr – Dŵr Daear

| |
|---|
| Amcan y gofynion hyn yw diogelu dŵr daear trwy reoli'r ffordd y mae deunydd peryglus neu niweidiol yn cael ei arllwys neu ei ollwng. |
| At bwrpas trawsgydymffurfio, mae 'dŵr daear' yn golygu'r dŵr sydd o dan wyneb y ddaear yn y rhan honno sydd o dan y lefel trwythiad ac sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â'r tir neu'r is-bridd.<br>Yn y cyd-destun hwn, mae 'trwydded' yn golygu trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010.<br>Cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw adnabod sylweddau peryglus, gan ddilyn argymhellion y Grŵp Cynghori Cyd-Asiantaethol ar y Gyfarwyddeb Dŵr Daear (JAGDAG). Gan fod modd i'r rhestr gael ei diweddaru ar unrhyw adeg, rydym yn eich cynghori i edrych ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i weld y rhestr ddiweddaraf o sylweddau peryglus sy'n berthnasol. Mae rhai eithriadau i'r gofyniad i gael trwydded, yn eu plith: amgylchiadau damweiniol ac eithriadol, er enghraifft llygredd yn sgil tywydd eithafol na ellid bod wedi'i ragweld; achosion o arllwys neu ollwng lefel isel o lygryddion, er enghraifft achosion o arllwys neu ollwng deunydd baddonau traed pobl a baddonau traed anifeiliaid. |

| | |
|---|---|
| 3.1 | Rhaid ichi gael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn achosi, caniatáu'n fwriadol neu fynd ati eich hun i arllwys neu ollwng unrhyw sylweddau peryglus (er enghraifft dip defaid, plaladdwyr, toddyddion, olew mwynol a disel). |

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r ffermwr wedi cael trwydded oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru cyn achosi, caniatáu'n fwriadol neu fynd ati ei hun i arllwys neu ollwng unrhyw sylwedd(au) peryglus. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** yn ymwneud fel arfer â chael gwared ar olchion plaladdwyr heb ganiatâd.<br>**Uchel:** yn ymwneud fel arfer â chael gwared ar ddip defaid heb ganiatâd. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| 3.2 | Rhaid ichi gael trwydded oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru cyn achosi, caniatáu’n fwriadol neu fynd ati eich hun i arllwys neu ollwng unrhyw lygryddion nad ydynt yn beryglus (er enghraifft carthion, elifion masnach, bioladdwyr penodol). |
|---|---|

| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw’r ffermwr wedi cael trwydded oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru cyn achosi, caniatáu’n fwriadol neu fynd ati ei hun i arllwys neu ollwng unrhyw lygrydd(ion) nad yw/ydynt yn beryglus. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** fel arfer, mewn Ardal lle ceir Perygl.<br>Bach i Ddŵr Daear. Isel hefyd mewn Ardal lle mae Perygl Canolig i Ddŵr Daear, oni bai bod y dŵr daear yn agos i’r wyneb a bod llawer o sylwedd yn cael ei ollwng/arllwys neu ei fod yn cael ei ollwng/arllwys yn aml.<br>**Canolig:** fel arfer, mewn Ardal lle ceir Perygl Mawr i’r Dŵr Daear ac y defnyddir synwyryddion, bod y dŵr daear yn agos i’r wyneb a bod llawer o sylwedd yn cael ei ollwng/arllwys neu ei fod yn cael ei ollwng/arllwys yn aml. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| 3.3 | Rhaid ichi gydymffurfio ag amodau unrhyw ganiatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer diogelu dŵr daear. |
|---|---|

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau trwydded amgylcheddol (ar gyfer gweithgaredd dŵr daear) a roddwyd er mwyn diogelu dŵr daear. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** yn cyfateb i gategori 3 neu 4 Cyfoeth Naturiol Cymru – effaith bach neu ddim o gwbl.<br>**Canolig:** yn cyfateb i gategori 2 Cyfoeth Naturiol Cymru – effaith sylweddol.<br>**Uchel:** yn cyfateb i gategori 1 Cyfoeth Naturiol Cymru – effaith difrifol.<br>Mae'r categorïau difrifoldeb yn cyfateb i'r rheini yn y Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth (CCS). | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| 3.4 | Rhaid ichi gydymffurfio ag amodau hysbysiad gweithgaredd dŵr daear neu unrhyw hysbysiad gorfodi arall gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer diogelu dŵr daear. | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
| | Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau hysbysiad gweithgaredd dŵr daear neu hysbysiad gorfodi arall a roddwyd i ddiogelu dŵr daear.<br>Os na chydymffurfir â hysbysiad a gyhoeddir mewn perthynas â gweithgaredd dŵr daear, fel arfer fe'i hystyrir yn rhywbeth bwriadol, ond gallai ddibynnu ar y sefyllfa; ee ymdrechwyd i gydymffurfio ond heb gadw at lythyren yr hysbysiad. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** mewn Ardaloedd lle ceir Perygl Bach i Ddŵr Daear, pan na ellir dweud bod y dŵr daear wedi'i lygru h.y. CICS Cat 4 – dim effaith.<br>**Uchel:** lle gellir dweud bod y dŵr daear wedi'i lygru, CICS Cat 1, Cat 2 neu Cat 3 – effaith bach, sylweddol neu ddifrifol neu mewn Ardaloedd lle mae Perygl Mawr neu Ganolig i Ddŵr Daear, lle na ellir dweud bod y dŵr daear wedi'i lygru.<br>Mae'r categorïau difrifoldeb yn cyfateb i'r rheini yng Nghynllun Dosbarthu.<br>Digwyddiadau Cyffredin (CICS) Cyfoeth Naturiol Cymru. | **Parhaol** |

# GAEC 4: Pridd a Stoc Garbon – sicrhau lefel ofynnol o orchudd ar y pridd

Rhaid diogelu'r pridd trwy sicrhau bod yr holl dir yn cael ei orchuddio gan gnydau, sofl, gweddillion neu lystyfiant o fath arall ar bob adeg, ac eithrio lle byddai creu'r gorchudd yn gwrthdaro â gofynion GAEC 5.

Os ydych yn cynaeafu tir â chombein, peiriant cynaeafu porthiant neu beiriant lladd gwair, rhaid bodloni un o'r amodau canlynol bob amser, rhwng y diwrnod ar ôl y cynhaeaf ac 1 Mawrth:

cadw sofl y cnwd yn y pridd;

paratoi gwely had o fewn 14 diwrnod ar gyfer cnwd a hau'r cnwd o fewn 10 niwrnod ar ôl diwrnod gorffen paratoi'r gwely had.

Pan fyddwch yn trin Glaswelltir mae'n rhaid i'r tir gael ei baratoi fel gwely had o fewn 14 diwrnod i a bydd y cnwd/glaswelltir yn cael ei hau o fewn cyfnod o 10 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl paratoi'r gwely had terfynol.

Sylwer os byddwch, trwy hau o fewn y cyfnod 10 niwrnod, yn mynd yn groes i ofynion GAEC 5, dylech hau'r cnwd neu'r cnwd gorchudd dros dro mor fuan â phosibl ar ôl i'r tir llawn dŵr sychu.

| 4 | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Methu â chynnal isafswm o orchudd i'r pridd (cnydau, sofl, gweddillion neu lystyfiant arall). | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** llai na 2% neu 2 ha o'r caeau perthnasol.<br>**Canolig:** mwy na 2% neu 2ha o'r caeau perthnasol.<br>**Uchel:** pan fo'r holl gaeau ar y daliad yn methu ag ateb y gofynion. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

# GAEC 5: Pridd a Stoc Garbon – Cyfyngu ar waith trin tir i ddiogelu pridd rhag erydiad

Yn y rheol hon:

1) mae 'gwaith mecanyddol ar gae' yn cynnwys cynaeafu, trin tir a gwasgaru, gan gynnwys gwasgaru gwrtaith a thail, ac unrhyw waith â pheiriant;

2) defnyddir diffiniadau synnwyr cyffredin o 'ddwrlawn' a 'llawn dŵr'.

Peidiwch â gweithio (na chaniatáu gwaith) ar y tir â pheiriannau os yw'r pridd yn llawn dŵr, oni bai bod rhaid am un neu ragor o'r rhesymau canlynol:

a) lles anifeiliaid neu i ddiogelu pobl;

b) gwella draeniad y pridd;

c) rhoi gypswm mewn pridd sydd wedi'i lygru gan ddŵr heli;

d) cadw at ddyddiad contract i gynaeafu cnwd ar bridd llawn dŵr;

e) bod tir yn llawn dŵr o fewn 20 metr i'r fynedfa a bod yn rhaid ichi fynd i'r tir hwnnw;

f) bod rhaid cynaeafu cnwd er mwyn cadw at ddyddiad contract, neu os byddai ansawdd y cnwd yn dirywio pe na bai'n cael ei gynaeafu; neu

g) bod y pridd yn rhan o lwybr at ddarn o bridd heb fod yn llawn dŵr.

Dan amgylchiadau penodol gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd ysgrifenedig i ganiatáu rhai mathau penodol o waith mecanyddol ar gae.

| 5.1 | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gwaith mecanyddol wedi'i wneud ar bridd llawn dŵr ac mae cerbydau wedi'u gyrru drosto. | **Effaith ar y fferm yn unig** | **Isel:** gwaith neu weithgaredd o fewn un cae.<br>**Canolig:** tystiolaeth bod mwy nag un gweithgaredd o fewn un cae.<br>**Uchel:** sawl gweithgaredd yn effeithio ar sawl cae neu'ch bod yn dal i gynaeafu neu drin pridd. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

Dylid osgoi gorbori gymaint â phosib.

Yn y rheolau hyn, ni ddylid caniatáu i unrhyw beth stablad (sathru) na rhigoli'r tir i'r graddau bod pridd yn cael ei olchi i lawr llethrau neu oddi ar y cae, gan gynnwys i gyrsiau dŵr a ffyrdd.
Er mwyn osgoi erydiad ar dir sy'n cael ei gynaeafu'n hwyr neu dir lle mae'r porthiant neu'r cnwd gwreiddiau wedi'i bori at y bôn ac nad yw'n bosib hau cnwd gorchudd, rhaid rhoi mesurau priodol yn eu lle i ddiogelu'r pridd rhag ei erydu, naill ai trwy godi ffens waddodion neu ddefnyddio aradr gynion.

| 5.2 | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Arwyddion bod y pridd yn cael ei olchi i lawr llethrau neu oddi ar y cae i gyrsiau dŵr. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig:** un cae.<br>**Uchel:** nifer o gaeau. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

O beidio â'i reoli'n ofalus, gall gadael tir moel dros y gaeaf greu risg mawr o ddŵr ffo ac erydu pridd.

Yng Nghymru, dim ond am y cyfnod rhwng y diwrnod ar ôl y cynhaeaf ac 1 Mawrth y caniateir ichi adael tir wedi'i aredig yn arw, a hynny o dan yr amodau canynol:

1. Ni ystyrir bod risg mawr o erydiad ar y safle.
2. Bod y wyneb yn cael ei adael yn arw i annog glaw i dreiddio trwyddo ac:
3. Nid yw pridd yn cael ei olchi i lawr llethrau neu oddi ar y cae ac:
4. Eich bod wedi asesu'r risg, wedi cwblhau a chyflwyno hysbysiad i Taliadau Gwledig Cymru ar neu cyn y diwrnod aredig y tir i adael wyneb garw.

| 5.3 | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Heb gynnal asesiad manwl o risg gadael wyneb garw ar y pridd a/na rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ar neu cyn diwrnod trin y tir i adael wyneb garw arno. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** lle nad oes asesiad risg wedi'i gynnal a/na'i gyflwyno ac nad oes tystiolaeth o erydiad pridd.<br>**Canolig:** lle bo asesiad risg wedi'i gynnal ond gweld bod tystiolaeth o erydiad pridd.<br>**Uchel:** lle nad oes asesiad risg wedi'i gynnal a/neu bod tystiolaeth o erydiad pridd. | **Parhaol** |

# GAEC 6: Pridd a Deunydd Organig – Eu Diogelu

Llosgi gweddillion cnydau.

Yn y rheolau hyn, mae 'gweddillion cnydau' yn golygu gwellt neu sofl neu weddillion unrhyw gnwd arall sy'n dal ar y tir ar ôl cynaeafu'r cnwd hwnnw.

Mae gwaharddiad ar losgi gweddillion y cnydau canlynol:

- Gwellt ŷd;
- Sofl ŷd; a
- Gweddillion rêp had olew, ffa maes wedi'u cynaeafu'n sych a phys wedi'u cynaeafu'n sych.

Mae cyfyngiadau ar losgi gweddillion had llin.

Peidiwch â llosgi gweddillion y cnydau hyn oni bai'ch bod yn eu llosgi at bwrpas:

- Addysg ac ymchwil, gyda chaniatâd Llywodraeth Cymru;
- Rheoli clefyd neu ddifa pla planhigion a bod rhybudd wedi'i roi o dan Orchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993; neu gael gwared ar olion tas wellt neu fêls wedi'u chwalu, gyda chaniatâd Llywodraeth Cymru.

| 6.1 | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Llosgi sy'n groes i'r rheolau hyn (heblaw trwy ddamwain neu oherwydd tanau troseddol). | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** tystiolaeth o losgi ar dir 1ha o faint neu lai.<br>**Canolig:** tystiolaeth o losgi ar dir dros 1ha o faint, ond heb fod yn fwy na 5ha.<br>**Uchel:** tystiolaeth o losgi ar dir dros 5ha o faint. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

**Llosgi grug a phorfa:**

Mae'r rheolau hyn yn atgyfnerthu Rheoliadau Llosgi Grug a Phorfa (Cymru) ac ati 2008 (fel y'u diwygiwyd). Os ydych chi'n cydymffurfio â'r Rheoliadau hynny, rydych eisoes yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

Peidiwch â llosgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin na vaccinium yn groes i'r Rheoliadau. I losgi o fewn SoDdGA, bydd angen caniatâd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru fel arfer.

Peidiwch â llosgi y tu allan i'r dyddiadau canlynol:

- 1 Tachwedd – 15 Mawrth ym mhob ardal
- 1 Hydref – 31 Mawrth ar dir uchel

**Prif ofynion:**

- Cwblhewch eich holl waith llosgi o fewn y cyfnod a ganiateir;
- Cydymffurfiwch â'r gofynion a'r cyfyngiadau cyfreithiol cenedlaethol yn ogystal â'r rhai lleol;
- Gofalwch fod cynllun rheoli'r llosgi wedi'i baratoi a bod y llosgi'n cael ei wneud yn unol â'r cynllun hwnnw;
- Gofalwch fod digon o bobl ac offer ar gael i reoli a ffrwyno'r tân trwy'r amser;
- Cyn dechrau llosgi, ac yn ystod y cyfnod llosgi, gofalwch fod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i ddiogelu pobl rhag niwed ac eiddo cyffiniol rhag difrod;
- Peidiwch â chreu peryglon i ddefnyddwyr ffyrdd a'r cyhoedd.

Peidiwch â llosgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin na vaccinium (e.e. llus, llus coch, mwyar y Berwyn) y tu allan i'r tymor llosgi.

| 6.2 | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Rydych wedi llosgi tir yn y cyfnod gwaharddedig. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** tystiolaeth o losgi ar dir 1ha o faint neu lai.<br>**Canolig:** tystiolaeth o losgi ar dir dros 1ha o faint, ond heb fod yn fwy na 5ha.<br>**Uchel:** tystiolaeth o losgi ar dir dros 5ha o faint. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

Rhaid gofalu bod cynllun rheoli llosgi wedi'i baratoi a bod y llosgi'n digwydd yn unol â'r cynllun hwnnw.

| 6.3 | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Llosgi heb Gynllun Rheoli neu heb gydymffurfio â'r Cynllun Rheoli. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** tystiolaeth o losgi ar dir 1ha o faint neu lai.<br>**Canolig:** tystiolaeth o losgi ar dir dros 1ha o faint, ond heb fod yn fwy na 5ha.<br>**Uchel:** tystiolaeth o losgi ar dir dros 5ha o faint. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

**Asesu Effeithiau Amgylcheddol:**

**1. Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth)**

Mae'r rheol hon yn atgyfnerthu Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA) (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 (fel y'i diwygiwyd neu ei disodli), sy'n rheoli'r amodau ar gyfer ardaloedd lled-naturiol yn dir ffermio dwys ac yn ailstrwythuro daliadau tir gwledig neu rhannau o dir amaethyddol.

**Tir Lled-naturiol**

Os ydych yn bwriadu cynnal prosiect i droi unrhyw dir lled-naturiol yn dir ffermio dwys, mae'n rhaid ichi wneud cais am benderfyniad sgrinio gan Lywodraeth Cymru, a'i gael, ymlaen llaw.

- Ystyr 'Tir Lled-naturiol' yw unrhyw dir sydd â llai na 25% ohono o dan rywogaethau amaethyddol wedi'u gwella (er enghraifft, Rhygwellt Lluosflwydd a/neu Feillion Gwyn)
- Ystyr 'Prosiect Dwysáu Amaethyddol' yw unrhyw weithgarwch ffermio a wneir i gynyddu cynhyrchiant amaethyddol tir lled-naturiol, sy'n golygu newid yn sylweddol:
  - y ffordd y caiff y tir ei ffermio er mwyn ei ffermio'n fwy dwys
  - cyfansoddiad rhywogaethau'r llystyfiant ar wyneb y tir dros y tymor hwy

Gallai'r prosiectau gynnwys y canlynol:

- Aredig, llyfnu, palu â pheiriant, disgio ac ati
- Ailhau (er enghraifft taenu, hau â dril, tros-hau
- Clirio prysgwydd neu lystyfiant arall ar gyfer ailhau
- Gwaith draenio newydd (er enghraifft draeniau, ffosydd agored, aradr wâdd)
- Defnyddio chwynladdwr cyn ailhau

**Rhaid ichi beidio â:**

- Dechrau neu gynnal prosiect dwysáu amaethyddol ar dir lled-naturiol heb gael penderfyniad sgrinio gan Lywodraeth Cymru sy'n caniatáu i'r prosiect fynd rhagddo.
- Dechrau neu barhau â phrosiect os ydych wedi cael penderfyniad sgrinio bod y prosiect yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, oni bai eich bod wedi gwneud cais, ac wedi'i gael, am ganiatâd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, sy'n caniatáu i'r prosiect fynd rhagddo.
- Cynnal unrhyw brosiectau eraill nad yw'r Caniatâd yn eu hawdurdodi na thorri unrhyw rai o ofynion neu amodau'r Caniatâd.
- Torri Hysbysiad Stop a neu Hysbysiad Adfer, neu unrhyw ofynion yr Hysbysiad, sydd wedi'i roi ichi o dan y Rheoliadau.

**Ailstrwythuro Gwledig**

Ystyr Prosiectau Ailstrwythuro Gwledig yw unrhyw weithgarwch ffisegol mawr sy'n rhoi strwythur ffisegol gwahanol iawn i un neu fwy o ddaliadau amaethyddol neu rannau o dir amaethyddol. Mae'r rhan hon o'r Rheoliadau yn gymwys i bob math o dir (gan gynnwys glaswelltir wedi'i wella). Os ydych yn bwriadu cynnal prosiect ailstrwythuro mawr, mae'n rhaid ichi wneud cais am benderfyniad sgrinio gan Lywodraeth Cymru, a'i gael, cyn dechrau.

**Ystyrir bod prosiect ailstrwythuro yn fawr os yw'n gyfartal i un neu fwy o'r trothwyon a ganlyn, neu os yw'n fwy nag unrhyw un ohonynt:**

- **Newidiadau i 4km neu fwy o ffiniau caeau/2km neu fwy mewn Ardal Sensitif***
- **Symud 10,000m3 neu fwy o bridd neu graig/5,000m3 neu fwy mewn Ardal Sensitif**
- **Ailstrwythuro 100ha neu fwy o dir/50ha neu fwy o dir mewn Ardal Sensitif**

* Ystyr Ardal Sensitif yw darn o dir ac iddo ddynodiad amgylcheddol (er enghraifft, Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, SSSI, SAC, SAM etc)

**Rhaid ichi beidio â:**

- **Dechrau neu gynnal prosiect ailstrwythuro gwledig mawr heb gael penderfyniad sgrinio gan Lywodraeth Cymru sy'n caniatáu i'r prosiect fynd rhagddo.**
- **Dechrau neu gynnal prosiect ailstrwythuro gwledig heb wneud cais, a'i gael, am ganiatâd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, sy'n caniatáu i'r prosiect fynd rhagddo.**
- **Dechrau neu barhau â phrosiect os ydych wedi cael penderfyniad sgrinio bod y prosiect yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, oni bai eich bod wedi gwneud cais, ac wedi'i gael, am ganiatâd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, sy'n caniatáu i'r prosiect fynd rhagddo.**
- **Cynnal unrhyw brosiectau eraill nad yw'r Caniatâd yn eu hawdurdodi na thorri unrhyw rai o ofynion neu amodau'r Caniatâd.**
- **Torri Hysbysiad Stop a.neu Hysbysiad Adfer, neu unrhyw ofynion yr Hysbysiad sydd wedi'i roi ichi o dan y Rheoliadau**

**2. Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth)**

Mae'r rheolau hyn yn atgyfnerthu Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999. Maen nhw'n ymdrin â phrosiectau coedwigo, datgoedwigo, ffyrdd drwy goedwigoedd a chwareli mewn coedwigoedd.

**Rhaid ichi beidio â gwneud y canlynol:**

- **Dechrau neu gynnal prosiect heb ganiatâd Cyfoeth Naturiol Cymru;**
- **Cynnal gwaith nad yw'n cydymffurfio ag amodau caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru;**
- **Parhau â'r gwaith ar ôl cael hysbysiad gorfodi sy'n eich gorchymyn i roi'r gorau i'r gwaith; neu**
- **Peidio â chynnal gwaith y gofynnir amdano gan hysbysiad gorfodi.**

| 6.4 | **Disgrifiad o dramgwydd o dan Asesiad Effeithiau Amgylcheddol (amaethyddiaeth)** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi dechrau neu gwblhau a) prosiect dwysáu amaethyddol ar dir lled-naturiol neu b) prosiect ailstrwythuro gwledig mawr, heb gael i) penderfyniad sgrinio neu ii) caniatâd ar gyfer y prosiect, ac/neu os yw i) neu ii) wedi'i roi, nad yw'r ffermwr wedi cadw at eu gofynion, gan gynnwys methu â chydymffurfio â Hysbysiad Stop neu Hysbysiad Adfer wedi'i roi o dan y Rheoliadau. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith y tu hwnt i'r fferm** | **Isel:** hyd at, ond heb gynnwys, 1ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect.<br>**Canolig:** rhwng 1ha a 5ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect.<br>**Uchel:** mwy na 5ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect.<br>neu<br>Fethiant i gydymffurfio â Hysbysiad Stop/ Adfer neu ag amodau Hysbysiad caniatâd. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Parhaol** |

| 6.5 | **Disgrifiad o dramgwydd o dan Asesiad Effeithiau Amgylcheddol (amaethyddiaeth)** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi dechrau neu gwblhau prosiect coedwigo/datgoedwigo, heb gael i) penderfyniad sgrinio neu ii) caniatâd ar gyfer y prosiect, ac/neu os yw i) neu ii) wedi'i roi, nid yw'r ffermwr wedi cadw at eu gofynion, gan gynnwys methu â chydymffurfio â Hysbysiad Stop neu Hysbysiad Adfer wedi'i roi o dan y Rheoliadau. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith y tu hwnt i'r fferm** | **Isel:** hyd at, ond heb gynnwys, 1ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect.<br>**Canolig:** rhwng 1ha a 5ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect.<br>**Uchel:** mwy na 5ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect.<br>neu<br>Fethiant i gydymffurfio â Hysbysiad Stop/ Adfer neu ag amodau Hysbysiad caniatâd. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

# GAEC 7: Cadw Nodweddion y Tirlun

Yn y safon hwn, mae nodweddion y tirlun yn cynnwys y canlynol:

- Mae nodweddion y tirlun yn cynnwys perthi (gwrychoedd), waliau cerrig, cloddiau cerrig, cloddiau pridd, ffensys llechi, pyllau dŵr, ffosydd, ymylon caeau, Glaswellt Parhaol Amgylcheddol-sensitif a henebion. Mae rhai'n cael eu defnyddio fel ffiniau caeau traddodiadol, ond nid bob tro.
- Henebion Rhestredig.
- Coed (sy'n cael eu diogelu gan Orchymyn Amddiffyn Coed).
- Mae 'perthi (gwrychoedd)' yn cynnwys pob perth hyd at 10 metr o led.
- Mae 'waliau cerrig' yn golygu waliau cerrig traddodiadol ac yn cynnwys cloddiau ag iddynt ddau wyneb o gerrig, fel 'Walydd Penclawdd' neu 'Berthi Sir Benfro'.
- Mae 'clawdd cerrig' yn golygu clawdd pridd gydag un ochr iddo wedi'i adeiladu o gerrig.
- Mae 'pyllau dŵr' yn golygu pwll naturiol neu un sydd wedi'i greu o dan gynllun Datblygu Gwledig, hyd at 0.1 hectar o faint.

| 7.1 | **Disgrifiad o Dramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r ffermwr wedi cadw pwll( pyllau) dŵr ar y daliad (e.e. eu draenio neu lenwi) neu wedi llenwi neu draenio rhan o bwll(byllau). | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** rhan o bwll(byllau).<br>**Canolig:** 1 pwll.<br>**Uchel:** mwy nag 1 pwll. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

Rhaid cadw pob ffos ar y daliad.

| 7.2 | **Disgrifiad o Dramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi llenwi ffos ar y daliad.<br>**Pwysig:** I osod cwlfert mewn ffos neu gwrs dŵr, rhaid cael caniatâd draenio tir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (o dan adran 23 Deddf Draenio Tir 1991). | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn un cae.<br>**Canolig:** bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn 2 – 6 chae.<br>**Uchel:** bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn mwy na 6 chae. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

Cadwch nodweddion y tirlun fel waliau cerrig, cloddiau cerrig, perthi (gwrychoedd), cloddiau a ffensys llechi. Rhaid peidio â'u dymchwel na'u difetha ar dir sydd o dan y safonau Trawsgydymffurfio heb ganiatâd yr awdurdod perthnasol, fel yr awdurdod lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhaid ichi beidio â gwneud y canlynol:

- Cael gwared ag unrhyw un o nodweddion y tirlun sydd ar eich tir; neu
- Cael gwared â nodwedd o gerrig, neu garreg o wal gerrig ar eich tir, oni bai bod angen lledu bwlch sydd eisoes yn bodoli mewn wal er mwyn i beiriannau neu anifeiliaid allu mynd trwyddo. Ni ddylid dymchwel mwy na'r hyn sy'n angenrheidiol at y diben hwn, ac ni ddylai'r bwlch fod yn fwy na 10 metr. Ar ôl lledu'r bwlch, rhaid i ochrau'r nodwedd gael wyneb fertigol.

Mae gwaharddiad ar dorri a thocio coed a pherthi yn ystod tymor nythu a magu cywion adar.

Ni chewch dorri na thocio coed a pherthi rhwng 1 Mawrth a 31 Awst, oni bai:

- Bod y berth neu'r goeden yn ymestyn dros briffordd, heol, trac neu lwybr y mae'r cyhoedd yn mynd ar ei hyd a bod angen cynnal y waith gan fod y tyfiant sy'n ymestyn:
  - yn rhwystro cerbydau a cherddwyr;
  - yn rhwystro gyrwyr rhag gweld neu'n amharu ar oleuni lamp cyhoeddus; neu
  - yn beryglus i bobl sy'n marchogaeth ceffylau.
- Bod angen torri neu docio'r berth neu goeden am ei bod wedi marw, am fod haint arni, am ei bod wedi cael niwed neu am fod ei gwreiddiau'n anniogel, a bod perygl iddi felly gwympo i'r briffordd, yr heol neu'r llwybr.
- Bod angen torri neu docio i gynnal ffos.
- Bod y goeden mewn perllan.

Rhaid ichi beidio ag amharu ar unrhyw adar sy'n nythu yn y berth neu'r goeden.

Sylwer. Gall cwmni sy'n gyfrifol am gynnal llinell drydan neu ffôn uwchben docio coeden neu berth am resymau diogelwch.

- Ar dir âr, lle bo'n arferol plannu cnwd âr y gaeaf cyn 31 Awst, cewch dorri'r berth neu'r goeden berthnasol o1 Awst ymlaen cyn belled nad ydych yn tarfu ar adar ar eu nyth. Cyn torri'r berth, rhaid chwilio'r berth yn ofalus i sicrhau nad oes adar yn nythu neu'n magu ynddi.
- Pan fo hysbysiad gorfodi wedi'i roi gan Awdurdod Lleol o dan Adran 154 o Ddeddf Priffyrdd 1980 er mwyn sicrhau nad yw cerbydau na cherddwyr yn cael eu rhwystro na'u peryglu, gellir tocio, torri neu blygu'r berth neu ganghennau'r coed yn y mannau a ddisgrifir.
- Caniateir gwaith i adfer perthi, er enghraifft pygu neu fondocio yn ystod mis Mawrth ar yr amod nad yw'n amharu ar adar sy'n nythu.

| 7.3 | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Cael gwared â nodwedd y tirlun. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** yn effeithio ar hyd at 10m o'r ffin.<br>**Canolig:** yn effeithio ar 10m-50m o'r ffin.<br>**Uchel:** yn effeithio ar fwy na 50m o'r ffin. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| 7.4 | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Torri'r rheoliadau perthi (gwrychoedd) (e.e. heb gael caniatâd i ddymchwel perth). | **Effaith ar y fferm yn unig** | **Canolig:** torri'r rheoliad ar un darn o berth mewn un cae.<br>**Uchel:** torri'r rheoliad ar fwy nag un darn mewn un cae neu sawl darn mewn sawl cae. | **Parhaol** |

| 7.5 | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Torri neu docio perthi/gwrychoedd neu goed yn ystod y cyfnod gwaharddedig heb fod eithriad i ganiatáu hynny (rhwng 1 Mawrth a 31 Awst). | **Effaith ar y fferm yn unig** | **Isel:** torri un darn heb ganiatâd mewn un cae.<br>**Canolig:** torri mwy nag un darn heb ganiatâd mewn un cae.<br>**Uchel:** torri sawl darn heb ganiatâd mewn sawl cae neu un cae. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

Rhaid i chi beidio ag aredig na thrin y tir o fewn 1 metr i berth, clawdd pridd neu gwrs dŵr.

| 7.6 | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ffermwr wedi aredig neu drin y tir o fewn 1 metr i berth, clawdd pridd neu ddŵr wyneb mewn cae(au). | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn un cae.<br>**Canolig:** bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn rhwng 2 a 6 cae.<br>**Uchel:** bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn mwy na 6 chae. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

Mae'r rheol hon yn atgyfnerthu'r rheolau sy'n bod eisoes ynghylch henebion o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016).

Eich cyfrifoldeb chi fel hawlydd yw gwybod ble mae'r holl henebion rhestredig ar eich fferm a'r nifer ohonynt. Dylech fod wedi cael gwybod am yr henebion pan gawsant eu cofrestru neu pan feddiannoch chi'r tir, ond mae lleoliad a maint Henebion Rhestredig i'w gweld ar Cof Cymru.  Ond os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â CADW.

Mae'r rheolau fel a ganlyn.

- Oni bai bod CADW wedi rhoi caniatâd i chi, peidiwch â chynnal y gweithgareddau canlynol:
  - i) unrhyw weithgaredd sy'n arwain at ddymchwel neu ddinistrio a/neu ddifrodi heneb;
  - ii) unrhyw weithgaredd i symud neu drwsio heneb restredig (neu ran ohoni);
  - iii) unrhyw weithgaredd sy'n newid neu'n ychwanegu at heneb restredig (neu ran ohoni); neu
  - iv) unrhyw waith gorlifo neu dipio ar y tir lle ceir heneb restredig ynddo, arno, neu oddi tano.
- Os ydych wedi cael caniatâd i gynnal gweithgaredd, rhaid cydymffurfio ag amodau'r caniatâd hwnnw. Ni chewch eich cosbi am dorri'r rheolau uchod os gallwch brofi.

Ni chewch eich cosbi am dorri'r rheolau uchod os gallwch brofi:

- Yn achos (i), y cymeroch bob cam rhesymol a dangos pob gofal i rwystro difrod i'r heneb;
- Yn achos (i) a (iv), nad oeddech yn gwybod neu nad oedd gennych reswm i gredu bod yr heneb mewn ardal y byddai'r gwaith wedi effeithio arni, neu fod yr heneb wedi'i rhestru.

Ar gyfer yr holl reolau uchod, bod angen y gwaith ar fyrder er lles iechyd a diogelwch a'ch bod wedi rhoi rhybudd bod angen cynnal y gwaith cyn gynted ag yr oedd hynny'n rhesymol.

| 7.7 | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae heneb restredig wedi'i difrodi, ei dymchwel neu ei dinistrio. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** difrod wedi'i achosi ond nid yw wedi effeithio ar integriti'r heneb ac mae modd ei gywiro.<br>**Canolig:** difrod parhaol wedi'i achosi ond nid yw wedi effeithio ar integriti'r heneb.<br>**Uchel:** mae'r difrod wedi effeithio ar integriti'r heneb. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

| 7.8 | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| | Mae ffermwr wedi cynnal gwaith ar heneb heb y caniatâd angenrheidiol, neu wedi methu â chydymffurfio ag amodau sydd wedi'u hatodi i unrhyw awdurdodiad.<br>Mae hyn yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol:<br>i) unrhyw waith i symud neu drwsio heneb;<br>ii) unrhyw waith i wneud newidiadau neu ychwanegiadau i heneb;<br>iii) unrhyw waith sy'n ymwneud â llifogydd neu dipio ar dir o fewn, ar neu o dan heneb; neu<br>iv) unrhyw waith arall heb ganiatâd. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** dim difrod.<br>**Canolig:** nid yw'r difrod wedi effeithio ar integriti'r heneb.<br>**Uchel:** difrod wedi effeithio ar integriti'r heneb. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

Cwympo coed:

Ni chaniateir cwympo coed heb drwydded, lle bo angen trwydded o’r fath. Ni fyddwch wedi peidio â chydymffurfio â rhybudd ailstocio neu amodau neu gyfarwyddyd arall o dan y Ddeddf Coedwigaeth, oni bai bod gennych reswm cyfreithiol.

| 7.9 | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae’r ffermwr wedi torri coeden neu goed heb Drwydded Cwympo Coed, lle bo’i hangen. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig**<br>**Uchel:** rhywogaeth brin neu goedlan hynafol. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| 7.10 | Nid yw’r ffermwr wedi cadw at amodau Trwydded Gwympo Coed neu nid yw wedi cadw at orchymyn cwympo. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Canolig**<br>**Uchel:** rhywogaeth brin neu goedlan hynafol. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |

Gorchmynion Cadw Coed. Ni fydd yr ymgeisydd wedi torri unrhyw Orchymyn Cadw Coed (TPO). Peidiwch â thorri, difrodi na difetha coeden sy’n destun Gorchymyn Cadw Coed, na’i dadwreiddio na’i brigdocio, heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.

| 7.11 | **Y Tramgwydd** | **Pa mor fawr** | **Difrifoldeb** | **Pa mor barhaol** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae’r ffermwr wedi cwympo neu ddifetha coeden sy’n destun Gorchymyn Cadw Coed. | **Effaith ar y fferm yn unig**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Uchel** | **Parhaol** |
| 7.12 | Nid yw’r ffermwr wedi plannu coeden yn lle coeden a oedd wedi’i gwarchod fel amod o’r caniatâd i’w chwympo. | **Effaith ar y fferm yn unig** | **Canolig** | **Modd ei gywiro** |
| 7.13 | Nid yw’r ffermwr wedi ailblannu ar ôl torri Gorchymyn. | **Effaith ar y fferm yn unig** | **Uchel** | **Modd ei gywiro** |

Glaswelltir Parhaol (gan gynnwsy Glaswelltir Parhaol Amgylcheddol-sensitif):

Ni ddylech drosi, aredig nac ail-hadu Glaswelltir Parhaol Amgylcheddol-Sensitif mewn ardaloedd sydd wedi eu dynodi fel SoDdGA, os nad ydych wedi cael caniatád gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Glaswelltir Parhaol Amgylcheddol-sensitif yw:

(a) Glaswelltir sydd wedi'I leoli ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu Ardaloedd Gwarchod Arbennig; a

(b) Glaswelltir y mae angen cydsyniad ysgrifenedig i'w aredig yn unol ag adran 28E(1) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(2) on nad oes cydsyniad o'r fath wedi ei gael, ei fod wedi ei ddynodi fel glaswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif at ddibenion Erthygl 93 ac Atodiad II o'r rheoliad Llorweddol (1306/2013).

- Ni ddylech drosi, aredig nac ail-hadu glaswelltir parhaol mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi fel glaswelltir parhaol, os nad ydych wedi derbyn caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Os y gwelir eich bod wedi trosi, aredig neu ail-hadu unrhyw Laswelltir Parhaol Amgylcheddol-sensitif, bydd yn ofynnol ichi ail-osod y glaswelltir parhaol.
- Os yw eich hysbysiad SoDdGA yn ei gwneud yn ofynnol neu yn eich caniatâu i drosi, aredig, neu ail-hadu rhannu penodol o'ch SoDdGA, ni ellir dynodi eich tir yn Laswelltir Parhaol Amgylcheddol-sensitif.  Os ydych yn bwriadu aredig, ail-hadu neu drosi unrhyw rannau o SoDdGA, dylech gysylltu yn gyntaf gyda eich swyddog cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwneud unrhyw waith i sicrhau na fyddant yn difrodi'r nodwedd arbennig.
- Bydd y gyfradd o laswelltir parhaol i ardal amaethyddol yn cael ei fonitro'n flynyddol.

| | Y Tramgwydd | Pa mor fawr | Difrifoldeb | Pa mor barhaol |
|---|---|---|---|---|
| 7.14 | Mae'r ffermwr wedi trosi, aredig neu ail-hadu tir sydd wedi'i ddynodi fel Glaswelltir Parhaol Amgylcheddol-sensitif heb ganiatâd CNC. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** tystiolaeth o drosi/aredig/ail-hadu tir hyd at ac i gynnwys 1 ha.<br>**Canolig:** tystiolaeth o drosi/aredig/ail-hadu tir sydd dros 1ha o faint ond heb fod yn fwy na 5ha o dir.<br>**Uchel:** tystiolaeth o drosi/aredig/ail-hadu tir sydd dros 5ha o faint. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |
| 7.15 | Mae'r ffermwr yn gwrthod ail-drosi tir a gafodd ei drosi, ei aredig neu ei ail-hadu heb ganiatâd CNC wedi hysbysiad bod yn rhaid ei ail-sefydlu fel glaswelltir parhaol. | **Effaith ar y fferm**<br>neu<br>**Effaith oddi ar y fferm** | **Isel:** gwrthod ail-drosi tir hyd at ac i gynnwys 1ha.<br>**Canolig:** gwrthod ail-drosi tir sydd dros 1ha mewn maint ond heb fod yn fwy na 5ha o dir.<br>**Uchel:** gwrthod ail-drosi tir sydd dros 5ha o faint. | **Modd ei gywiro**<br>neu<br>**Barhaol** |